# Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## 2014-2015









Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| **2-3** | **Cynnwys** |
| **4-9** | **Rhagair** |
| **10-15** | **Ynghylch Adroddiad Blynyddol PAEM** |
| **16-19** | **Lansio gwefan ddata ryngweithiol newydd** |

| | |
|---|---|
| **20-31** | **Adran 1: Y cwricwlwm yng Nghymru** |
| 21 | Sut beth yw'r cwricwlwm ysgol ar hyn o bryd? |
| 22 | Beth yw'r cryfderau yn y cwricwlwm presennol? |
| 23 | Y Cyfnod Sylfaen |
| 24-25 | Ysgolion cynradd – Cyfnod allweddol 2 |
| 26-27 | Beth yw'r cryfderau yn y cwricwlwm ar gyfer ein disgyblion hŷn? |
| 28-29 | Ysgolion arbennig |
| 30 | Beth mae rhai ysgolion yn ei weld yn anodd ynglŷn â'r cwricwlwm presennol? |
| 31 | Sut mae ysgolion yn symud ymlaen? |

| | |
|---|---|
| **32-111** | **Adran 2: Crynodebau sector** |
| 32-37 | Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed |
| 38-47 | Ysgolion cynradd |
| 48-57 | Ysgolion uwchradd |
| 58-63 | Ysgolion arbennig a gynhelir |
| 64-69 | Ysgolion arbennig annibynnol |
| 70-75 | Ysgolion prif ffrwd annibynnol |
| 76-81 | Colegau arbenigol annibynnol |
| 82-87 | Unedau cyfeirio disgyblion |
| 88-89 | Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc |
| 90-91 | Colegau addysg bellach |
| 92-97 | Dysgu yn y gwaith |
| 98-103 | Dysgu oedolion yn y gymuned |
| 104-107 | Hyfforddiant cychwynnol i athrawon |
| 108-109 | Cymraeg i oedolion |
| 110-111 | Dysgu yn y sector cyfiawnder |

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **112-129** | **Adran 3: Sylwebaeth ar berfformiad** |
| 113 | Perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 |
| 114 | Perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 |
| 115 | Perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 |
| 116<br>116 | Crynodeb o asesiadau athrawon<br>Arholiadau yng nghyfnod allweddol 4 |
| 117<br>117 | Pynciau craidd<br>Dysgwyr ôl-16 mewn ysgolion |
| 118 | Gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched |
| 119-120 | Perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim |
| 121 | Cyflawniad mewn dangosyddion dewisedig, yn ôl cymhwysedd i gael PYDd a statws AAA |
| 122 | Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) |
| 123 | Presenoldeb |
| 124-125 | Gwaharddiadau |
| 125-127 | Medrau, addysg bellach a dysgu gydol oes |
| 127 | Addysg bellach |
| 128-129 | Dysgu yn y gwaith |
| **130-133** | **Adran 4: Cyfeiriadau** |

# Cyflwyniad y Prif Arolygydd

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn defnyddio canfyddiadau o arolygiadau, ymweliadau dilynol ac adolygiadau thematig a gynhaliwyd gan Estyn yn ystod blwyddyn academaidd 2014-2015. Ar sail y dystiolaeth hon, byddaf yn adrodd ar y deilliannau addysgol ac ar ansawdd y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth ar gyfer pob sector addysg a hyfforddiant y mae Estyn yn eu harolygu. Yn y rhagair hwn, amlinellaf nifer o gyfleoedd a heriau y mae'r system addysg yng Nghymru yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod.

Mae'r adroddiad yn cynnwys adran ar y cwricwlwm ar gyfer dysgwyr 3 i 16 oed. Mae'r adran yn cynnwys cyfres o gwestiynau hunanarfarnu allai fod yn fuddiol i staff a llywodraethwyr wrth feddwl am yr addysgu a'r dysgu yn eu hysgol eu hunain neu mewn lleoliad heblaw'r ysgol, ac am ba mor dda y maent wedi paratoi ar gyfer y newidiadau sydd i ddod dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Nodwedd newydd sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad eleni yw offeryn data ar-lein rhyngweithiol sy'n galluogi darllenwyr i archwilio holl farnau arolygu Estyn er 2010. Mae'r adran data yn esbonio bod angen bod yn ofalus wrth gymharu data arolygu o flynyddoedd gwahanol, gan fod nifer yr arolygiadau bob blwyddyn yn gymharol fach. Mae'r gwelliant yn y deilliannau arolygu ar gyfer unedau cyfeirio disgyblion eleni yn dangos y pwynt hwn. Er bod gwaith da yn y tair uned cyfeirio disgyblion a arolygwyd gennym eleni, mae'r sector yn gyffredinol yn parhau'n wan, ac mae angen newidiadau o hyd i'r ffordd y mae unedau cyfeirio disgyblion yn cael eu rheoli a'u trefnu.



Meilyr Rowlands, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Her amrywioldeb

Un o nodweddion mwyaf amlwg y system addysg yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf fu ei hamrywioldeb. Unwaith eto eleni, mae cyferbyniad nodedig, yn enwedig rhwng ansawdd yr addysgu a'r dysgu, yn ein darparwyr addysg gorau ac yn y rhai gwannaf. Nid ffactorau economaidd-gymdeithasol sy'n bennaf gyfrifol am yr amrywioldeb hwn, gan fod rhai o'n darparwyr gorau mewn ardaloedd cymharol ddifreintiedig.

Ceir enghreifftiau o arfer dda ac arfer ragorol ym mhob un o'r sectorau a arolygwn, lle bydd dysgwyr yn gwneud cynnydd da a lle bydd arweinwyr yn gweithio mewn partneriaeth â staff, rhieni a'r gymuned ehangach i sefydlu diwylliant uchelgeisiol lle caiff addysg ei pharchu a'i gwerthfawrogi. Yr her yw gwneud yn siŵr bod pob darparwr yn rhannu'r arferion hyn ac yn dysgu ohonynt.

Mae cyfran y rhagoriaeth mewn ysgolion cynradd wedi cynyddu dros y pum mlynedd diwethaf. Dim ond 8% o ysgolion cynradd oedd â rhagoriaeth mewn rhyw agwedd ar eu gwaith bum mlynedd yn ôl, ac mae hyn wedi cynyddu i 18% eleni. Mae dwy ran o dair o ysgolion cynradd a arolygwyd eleni yn dda neu'n well, ac mae hynny ychydig yn well na'r llynedd.

Mae'r gyfran o ysgolion uwchradd y nodwyd bod rhywfaint o ragoriaeth ynddynt wedi cynyddu hefyd, o 23% bum mlynedd yn ôl i 38% eleni. Fodd bynnag, er bod un o bob chwe ysgol uwchradd yn rhagorol yn gyffredinol eleni, mae tua'r un gyfran yn anfoddhaol. Mae dwy o bob pum ysgol uwchradd a arolygwyd eleni yn dda neu'n well, sy'n ostyngiad o ryw hanner y llynedd.

Er bod cyfran y rhagoriaeth a welwn mewn ysgolion yn cynyddu, nid yw'r gyfran sy'n dda neu'n well wedi newid rhyw lawer, ac mae'r bwlch rhwng yr ysgolion sy'n gwneud yn dda a'r rhai nad ydynt yn gwneud yn dda yn rhy eang o hyd. Mae angen mynd i'r afael â'r amrywioldeb yn ansawdd yr addysg rhwng darparwyr, a'u gallu amrywiol ar gyfer arweinyddiaeth, hunan-wella a gweithio mewn partneriaeth.

Mae angen adnabod darparwyr sydd wir yn ei chael hi'n anodd ymdopi â disgwyliadau uwch, a'u cefnogi mor gynnar ag y bo modd. Mae angen i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, gan weithio gyda'i gilydd, ymyrryd yn gyflym lle bo angen. Maent yn adnabod eu hysgolion yn well nawr nag yn y gorffennol, ac mae arwyddion eu bod yn dod yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, mae cwestiynau o hyd ynglŷn â pha mor dda y mae arfer orau yn cael ei rhannu o fewn a rhwng awdurdodau a rhanbarthau, ac i ba raddau y mae ysgolion yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i wella.

# Cynnydd a'r daith gwella addysg yng Nghymru

Ddwy flynedd yn ôl, cyhoeddwyd adroddiad gan Estyn ar 'Teithiau gwella deuddeg ysgol uwchradd' (Estyn, 2013). Fe wnaeth yr adroddiad amlinellu dilyniant nodweddiadol blaenoriaethau ar gyfnodau gwahanol o ddatblygiad ysgol. Er bod taith addysgol y genedl gyfan yn fwy cymhleth na thaith addysgol sefydliad unigol, mae yna nodweddion tebyg. Yn ddigon cywir, mae cryn ymdrech wedi'i gwneud yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf i osod sylfeini cadarn ar gyfer addysg. Sefydlu darpariaeth blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel (y Cyfnod Sylfaen), sylw i wella ymddygiad a phresenoldeb, gofal a chymorth priodol i ddysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais, ffocws cadarn ar lythrennedd a rhifedd, a diogelu dysgwyr rhag niwed – mae angen pob un o'r rhain i sicrhau lles dysgwyr, ac i wneud yn siŵr eu bod yn 'barod i ddysgu' ac y gallant wneud cymaint o gynnydd ag y bo modd.

Ar y cyfan, mae cynnydd yn cael ei wneud gyda'r sylfeini hyn, ac rydym yn dechrau gweld budd y gwaith cychwynnol hwn, er bod mwy i'w wneud o hyd. Er enghraifft, yn y rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau mae gan staff ddealltwriaeth dda, ar y cyfan, o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, sy'n cael eu gweithredu'n effeithiol, ac yn cael effaith gadarnhaol ar blant, er bod angen mwy o hyfforddiant i wneud yn siŵr bod uwch arweinwyr ym mhob ysgol a lleoliad yn deall y Cyfnod Sylfaen.

Mae ysgolion bellach yn gwahardd llai o blant am ymddygiad gwael, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion ar eu huchaf, ac mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion difreintiedig a disgyblion eraill yn dechrau cau. Serch hynny, mae disgyblion dan anfantais, fel y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai sydd ag anawsterau emosiynol neu ymddygiadol, bedair gwaith yn fwy tebygol o hyd na disgyblion eraill o fod yn absennol o'r ysgol heb reswm da.

Mae safonau llythrennedd a rhifedd sylfaenol yn gwella at ei gilydd, er bod mwy o gynnydd wedi'i wneud mewn llythrennedd nag mewn rhifedd. Mewn llawer o ysgolion ar draws yr ystod oedran, mae angen rhoi sylw o hyd i gywirdeb mewn ysgrifennu a gallu disgyblion i gyflawni cyfrifiadau syml sy'n cynnwys rhannu, canrannau a chymarebau. Nid yw pob ysgol yn deall beth yw'r ffordd orau o gynllunio ar gyfer cynnydd disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhan fwyaf yn rhestru cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau llythrennedd a rhifedd mewn cynlluniau gwaith, ond mae angen iddynt hefyd ddarparu cyd-destunau go iawn i ddisgyblion gymhwyso'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm, eu cysylltu â'r fframwaith llythrennedd a rhifedd, a threfnu'r cyfleoedd yn ddilyniant strwythuredig, ysgol gyfan. Mae'r ysgolion gorau eisoes yn gwneud hyn, ond nid yw llawer yn gwneud.

# Gwella'r addysgu a'r dysgu

Mae'n rhaid i ni barhau i ganolbwyntio ar y sylfeini hyn ar gyfer addysg, a gwneud yn siŵr bod cynnydd gyda'r rhain yn cael ei gynnal a'i atgyfnerthu, a'i fod yn dod yn norm ym mhob darparwr. Fodd bynnag, dylai'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn barod roi'r hyder i ni symud i'r cam nesaf ar y daith wella. Mae deilliannau arolygu ar gyfer addysgu a phrofiadau dysgu yn is nag ar gyfer lles ac ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad. Nawr, mae angen i ysgolion ystyried cwestiynau canolog ynglŷn ag addysgu a dysgu: beth ddylai plant a phobl ifanc ei ddysgu, a sut dylid eu haddysgu a'u hasesu? Awgrymodd adroddiad yr Athro Donaldson 'Dyfodol Llwyddiannus', a gyhoeddwyd yn Chwefror 2015, ffyrdd ymlaen, ac ymddengys bod llawer o gytundeb ynglŷn â hyn. Mae'r consensws hwn yn awgrymu'n gryf bod aeddfedrwydd cynyddol, hyder ac ymdeimlad o ymdrechu ar y cyd o fewn y system addysg yng Nghymru.

Mae llawer o athrawon a darlithwyr yn gweithio'n galed i ddatblygu hunan-barch a hyder dysgwyr fel eu bod yn datblygu'n unigolion cyflawn sy'n barod ar gyfer astudio pellach a'r byd gwaith, ac i gyfrannu at gymdeithas. Mae'r profiadau ehangach sy'n cael eu cynnig gan lawer o ysgolion a cholegau y tu hwnt i'r cwricwlwm ffurfiol yn rhan bwysig o addysg dysgwyr. Mae pedwar diben y cwricwlwm a amlinellir yn 'Dyfodol Llwyddiannus' (Donaldson, 2015) yn cyfleu'n dda y nodweddion y dylai pobl ifanc eu datblygu yn ystod eu cyfnod mewn addysg orfodol. Bydd gweithio mewn partneriaeth â'r gymuned ehangach a gyda chyflogwyr yn hanfodol i wella ac ehangu profiadau dysgu yn y dyfodol.

Mae cyfleoedd cyflogaeth yng Nghymru bellach yn mynnu lefelau medrau uwch o lawer nag yn y gorffennol. Mae angen i gwricwlwm sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain ddatblygu cryfderau deallusol dysgwyr, eu chwilfrydedd a'u creadigrwydd, a'u hyblygrwydd a'u gwydnwch. Mae cwricwlwm heriol ac uchelgeisiol yn helpu dysgwyr i ddatblygu medrau meddwl lefel uchel - eu hymresymu llafar, rhifiadol a beirniadol. Y rhain yw'r medrau sydd eu hangen ar gyfer y rhan fwyaf o arholiadau, ac, yn arbennig, ar gyfer y TGAU newydd mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg, yn ogystal ag ar gyfer PISA. Felly, ni ddylai fod unrhyw densiwn rhwng profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb ac yn cyffroi pobl ifanc, a rhai sy'n sicrhau safonau uchel mewn llythrennedd a rhifedd, ymresymu a gallu creadigol, a llwyddiant mewn arholiadau.

Mae'n bryd adfywio a moderneiddio ein cwricwlwm. Mae datblygiadau mewn technoleg ac yn natur cyflogaeth wrth wraidd y disgwyliadau uwch gan addysg mewn gwledydd ledled y byd. Er enghraifft, mae cymhwysedd digidol yn faes o'r cwricwlwm y mae angen rhoi sylw iddo ar fyrder. Mae angen y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o dechnolegau newydd ar bob plentyn ac unigolyn ifanc a fydd yn eu galluogi i greu, rheoli a chael mynediad i fyd digidol heddiw ac yfory, a hynny'n hyderus ac yn annibynnol. Mae goblygiadau ehangach ar gyfer y cwricwlwm ynghlwm wrth dwf gwybodaeth ddigidol hefyd. Mae'n rhaid i'r cwricwlwm newydd helpu dysgwyr i ddeall nad yw pob gwybodaeth yn ddibynadwy neu'n ddiogel. Mae angen set o syniadau ac egwyddorion ar ddysgwyr hefyd a fydd yn eu helpu i ddeall a gwe-lywio'r doreth o wybodaeth sydd ar gael iddynt ar-lein.

Mae gan golegau addysg bellach yn arbennig rôl bwysig i'w chwarae i adlewyrchu newidiadau yn y farchnad lafur yng Nghymru, fel y twf diweddar yn y biowyddorau ac yn y diwydiannau ffilm, teledu a'r cyfryngau. Mae tirlun addysg bellach yng Nghymru wedi newid yn ddramatig dros y pum mlynedd diwethaf. Yn dilyn cyfres o gyfuniadau, a newidiadau i drefniadau llywodraethu a chyllido, mae colegau fwyfwy mewn sefyllfa dda i ymateb i, ac arwain ar arloesedd technegol a'r celfyddydau creadigol, i ddatblygu ffyrdd newydd o addysgu a dysgu, a dyfnhau perthnas gyda chyflogwyr a chymunedau. Mewn ymateb i'r newidiadau hyn, sefydlodd Estyn ddull newydd o arolygu addysg bellach eleni sy'n cynnwys arolygu meysydd dysgu.

## Arweinyddiaeth a datblygiad staff

Dim ond yr ymarferwyr, yr athrawon, y darlithwyr a'r arweinwyr sy'n cael effaith uniongyrchol ar ddysgwyr ac ar eu hawydd i ddysgu a all fynd i'r afael â'r amrywioldeb y soniais amdano'n gynharach. Y rhain yw'r bobl a all sefydlu diwylliannau cadarnhaol yn eu hysgolion a'u colegau, ac annog addysgu a dysgu o'r safon uchaf ym mhob dosbarth. Mae datblygiadau a mentrau ond cystal â'r bobl sy'n eu gweithredu. Mae system o hunan-wella yn system lle bydd staff ac arweinwyr yn cymryd cyfrifoldeb am eu gwelliant a'u datblygiad eu hunain, ac am ddatblygiad eu cydweithwyr.

Yn ystod yr haf, cyhoeddwyd adroddiad gennym a oedd yn crynhoi llawer o'r hyn y gwyddwn am ddatblygu arweinyddiaeth lwyddiannus, (Estyn, 2015a). Mewn ysgolion sydd ag arweinwyr llwyddiannus, ceir diwylliant cadarn o ddysgu proffesiynol a ffocws ar wella ansawdd addysgu a dysgu. Mae addysgu a dysgu wrth galon addysg, wrth i ryngweithio effeithiol rhwng athrawon a dysgwyr sicrhau bod dysgwyr yn dysgu, yn tyfu ac yn datblygu. Mae arweinyddiaeth yn debyg, ac yn golygu datblygu staff, adnabod talent a photensial, a'u cynorthwyo o gyfnod cynnar.

## Datblygiadau o ran arolygu

Gwnaethom ddau newid i drefniadau arolygu eleni (2014-2015). Yn gyntaf, rydym bellach yn adrodd ar ba mor dda y mae pob ysgol yn defnyddio'r grant amddifadedd disgyblion. Canfuom fod ysgolion yn gwella o ran targedu'r grant at gefnogi disgyblion difreintiedig, gan gynnwys y rhai mwy abl. Mae ysgolion sy'n gwneud y defnydd gorau o'r grant yn canolbwyntio ar wella medrau a lles disgyblion. Gwnânt hyn yn aml drwy raglenni sy'n gwella llythrennedd y disgyblion hyn, trwy gynnig opsiynau allgyrsiol mwy amrywiol a thrwy fabwysiadu strategaethau i wella presenoldeb. Mae mwy o ysgolion hefyd yn defnyddio'r grant i helpu staff i ymgysylltu â rhieni, a gyda'r asiantaethau allweddol a all eu helpu.

Gwnaed yr ail newid i reoliadau sy'n pennu amseru arolygiadau. Mae'r newid yn golygu nad yw darparwyr mwyach yn gallu rhagweld flynyddoedd ymlaen llaw pa bryd y byddant yn cael eu harolygu. Gwelwn fod gan y rhan fwyaf o ysgolion a darparwyr eraill gylch blynyddol o hunanarfarnu, gan gynnwys craffu ar waith dysgwyr, arsylwi dosbarthiadau a dadansoddi data perfformiad, sy'n bwydo i flaenoriaethau strategol a chynlluniau datblygu. Siom yw canfod nifer fach o ddarparwyr lle nad yw'r prosesau hunan-wella hyn wedi'u sefydlu'n dda.

Wrth i'r tirlun addysg ddatblygu, mae angen i Estyn barhau i wneud yn siŵr bod y broses arolygu yn adlewyrchu disgwyliadau cynyddol cymdeithas, a'i bod yn cefnogi ac yn annog arloesi mewn addysgu a dysgu. Ymgynghorom yn ddiweddar ynglŷn â sut dylai ein harolygiadau fod yn y dyfodol. Roeddwn yn falch â'r ymateb iach gan randdeiliaid, a byddwn yn adeiladu ar yr adborth hwn i ddatblygu trefniadau arolygu newydd i'w treialu, ac i ymgynghori ymhellach arnynt yn y flwyddyn i ddod.



Mae gan holl staff Estyn rôl mewn cynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol





# Ynghylch Adroddiad Blynyddol PAEM

Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n ariannu Estyn, ond rydyn ni'n annibynnol ar y Cynulliad.  Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

# Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a lleoliadau meithrin y mae awdurdodau lleol yn eu cynnal neu'n eu hariannu
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector Cyfiawnder

Nod uniongyrchol ein gwaith arolygu yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant ar hyd a lled Cymru.

Yn nifer o'r sectorau, rydyn ni'n gweithio gyda chyrff rheoleiddio ac arolygiaethau eraill i arolygu'r ddarpariaeth. Rydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid yn Ofsted i arolygu'r ddarpariaeth dysgu yn y gwaith sydd ar waith yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd. Mae ein harolygwyr yn cydweithio ag AGGCC i arolygu ysgolion preswyl a chartrefi plant diogel awdurdodau lleol. Rydyn ni hefyd yn cymryd rhan mewn arolygiadau dan arweiniad Arolygiaeth Prawf EM, o dimau troseddau ieuenctid (TTI) yng Nghymru. Rydyn ni'n ymuno ag Arolygiaeth Carchardai EM ac Ofsted i arolygu sefydliadau ar gyfer troseddwyr ifanc yn Lloegr sydd â nifer sylweddol o bobl ifanc o Gymru. Rydyn ni hefyd yn cynnwys arolygwyr o Swyddfa Archwilio Cymru pan fyddwn ni'n arolygu gwasanaethau addysg awdurdodau lleol.

Rydyn ni hefyd yn cynnig cyngor ar faterion penodol i Lywodraeth Cymru mewn ymateb i gylch gwaith blynyddol mae'r Gweinidog Addysg yn ei roi i ni. Mae ein cyngor ni'n cynnig tystiolaeth o effaith strategaethau, polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru ar addysg a hyfforddiant dysgwyr.

Rydyn ni'n cyhoeddi enghreifftiau o arfer dda ar sail tystiolaeth arolygu. Gallwn ni edrych o safbwynt unigryw ac annibynnol ar safonau ac ansawdd pob agwedd ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae gwneud hyn yn cyfrannu at y polisïau ar addysg a hyfforddiant sydd wedi'u cyflwyno ar hyd a lled Cymru.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith a'n dulliau gweithio, dilynwch y ddolen yma: www.estyn.llyw.cymru

# Y cylch arolygu dan sylw yn yr adroddiad yma

Pan fyddwn ni'n arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru, rydyn ni'n defnyddio ein Fframwaith Arolygu Cyffredin ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae'r fframwaith yma'n cynnwys tri chwestiwn allweddol a deg o ddangosyddion ansawdd, ac maen nhw wedi'u trefnu dan y penawdau sy'n dilyn:

**Pa mor dda yw'r deilliannau?**

1.1 Safonau
1.2 Lles

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

2.1 Profiadau dysgu
2.2 Addysgu
2.3 Gofal, cymorth ac arweiniad
2.4 Yr amgylchedd dysgu

**Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

3.1 Arweinyddiaeth
3.2 Gwella ansawdd
3.3 Gweithio mewn partneriaethau
3.4 Rheoli adnoddau

Mewn arolygiadau o wasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc, rydyn ni'n creu adroddiadau ar y ddarpariaeth dan bedwar pennawd:

2.1 Cymorth ar gyfer gwella ysgolion
2.2 Cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant addysgol
2.3 Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles
2.4 Mynediad a lleoedd ysgol

Rydyn ni hefyd yn rhoi dwy farn gyffredinol ary perfformiad presennol ac ar y rhagolygon ar gyfer gwella.

Rydyn ni'n defnyddio'r raddfa bedwar pwynt sy'n dilyn i ddangos ein barnau arolygu.

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| Rhagorol | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| Da | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| Digonol | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| Anfoddhaol | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella'n gorbwyso'r cryfderau |

# Gweithgarwch dilynol

Yn ystod arolygiad, rydym yn ystyried p'un a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y darparwr.

Gall hyn amrywio o nodi arfer ragorol i argymell mesurau arbennig. Mae'r tabl isod yn dangos y gwahanol fathau o weithgarwch dilynol ac i ba sectorau y maent yn berthnasol.

| | Ysgolion a gynhelir | Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) | Awdurdodau lleol | Lleoliadau nas cynhelir | Ôl-16 | Hyfforddiant cychwynnol i athrawon |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arfer ragorol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Monitro gan yr awdurdod lleol | ✓ | | | ✓ | | |
| Monitro gan Estyn | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gwelliant â ffocws | | | | ✓ | | |
| Gwelliant sylweddol | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Mesurau arbennig | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Ailarolygiad | | | | | ✓ | ✓ |

| Categori | Esboniad |
|---|---|
| Arfer ragorol | Os yw darparwr yn cael unrhyw farnau rhagorol ac y nodir felly bod ganddo arfer sy'n arwain y sector mewn un maes neu fwy, bydd yn cael ei wahodd i ysgrifennu astudiaeth achos i'w rhannu gyda darparwyr eraill. Gellir cyhoeddi'r astudiaeth achos ar wefan Estyn. |
| Monitro gan yr awdurdod lleol | Bydd awdurdodau lleol yn gweithio gyda'r darparwr i fynd i'r afael â'r argymhellion a amlygwyd yn yr adroddiad. Bydd swyddogion yr awdurdod lleol yn trafod cynnydd gydag arolygydd cyswllt Estyn ar gyfer yr awdurdod lleol. Tua blwyddyn ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, bydd yr awdurdod lleol yn ysgrifennu adroddiad i Estyn, yn esbonio'r modd y mae'r darparwr wedi gwneud cynnydd. |
| Monitro gan Estyn | Gan amlaf, bydd angen y lefel hon o weithgarwch pan fydd o leiaf un o'r barnau cyffredinol ar gyfer darparwr yn ddigonol, ond nid yw'n achosi pryder i'r graddau bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig arno. Os oes angen ymweliad monitro, bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn i 18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad. |
| Gwelliant â ffocws | Os nodir bod angen gwelliant â ffocws ar leoliad nas cynhelir, bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ei bryderon. Rhaid i bwyllgor rheoli / perchennog y lleoliad anfon eu cynlluniau gweithredu i Estyn i'w cymeradwyo. Bydd arolygydd Estyn yn ymweld â'r lleoliad bob tymor am hyd at dri thymor yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Os nad yw'r lleoliad yn gwneud digon o gynnydd, bydd Estyn yn cysylltu â'r awdurdod lleol i awgrymu bod cyllid yn cael ei dynnu'n ôl o'r lleoliad gan nad yw'n darparu addysg o safon dderbyniol. |
| Angen gwelliant sylweddol | Bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru bod y darparwr wedi cael ei roi mewn categori statudol. Rhaid i'r darparwr anfon ei gynllun gweithredu i Estyn i'w gymeradwyo. Bydd tîm bach o arolygwyr Estyn fel arfer yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn i 18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Os yw cynnydd yn annigonol, bydd y tîm yn ystyried p'un a oes angen mesurau arbennig ar y darparwr. |
| Mesurau arbennig | Os nodir bod angen mesurau arbennig ar ddarparwr, bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru ei fod wedi cael ei roi mewn categori statudol. Rhaid i'r darparwr anfon ei gynllun gweithredu i Estyn i'w gymeradwyo. Bydd tîm bach o arolygwyr Estyn fel arfer yn ymweld â'r darparwr bob tymor yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Bydd arolygwyr yn canolbwyntio ar y cynnydd y mae'r darparwr wedi'i wneud tuag at fynd i'r afael â'r argymhellion a amlygwyd yn yr adroddiad. Bydd Estyn yn parhau i gynnal ymweliadau monitro nes bod y Prif Arolygydd yn penderfynu bod y darparwr wedi gwella ddigon i'w dynnu o'r categori mesurau arbennig. |
| Monitro gan Estyn: ôl-16 | Os nodir bod angen i ddarparwr hyfforddiant cychwynnol i athrawon gael ei fonitro gan dîm Estyn, bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn yn ddiweddarach. Os yw arolygwyr yn barnu bod cynnydd annigonol wedi'i wneud, gallai hyn arwain at ailarolygiad llawn. Yn dilyn monitro gan Estyn, bydd llythyr yn cael ei gyhoeddi ar wefan Estyn, yn adrodd ar ganfyddiadau'r ymweliad monitro. |
| Ailarolygiad | Os nodir bod angen ailarolygiad llawn ar ddarparwr hyfforddiant ôl-16 neu ddarparwr hyfforddiant cychwynnol i athrawon, bydd yr arolygiaeth yn ysgrifennu llythyr at y darparwr, gyda chopi i'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS), ac, yn achos hyfforddiant cychwynnol i athrawon, i'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch (CCAUC), yn nodi'r meysydd y mae angen eu gwella, a bydd yn cynnal ailarolygiad llawn o'r darparwr ymhen blwyddyn i 18 mis. Ar ôl yr ailarolygiad, bydd Estyn yn cyhoeddi adroddiad llawn yn arfarnu'r cynnydd a wnaed gan y darparwr. Os yw'r tîm yn barnu bod cynnydd annigonol wedi'i wneud ar ddiwedd ailarolygiad, adroddir am hyn wrth yr AdAS, ac wrth CCAUC yn achos hyfforddiant cychwynnol i athrawon, fel rhan o'u gweithdrefnau rheoli contract. |

# Esboniad o'r geiriau a'r ymadroddion rydyn ni'n eu defnyddio i ddisgrifio'n harfarniadau

Y geiriau a'r ymadroddion yng ngholofn chwith y tabl sy'n dilyn yw'r rheini'r ydyn ni'n eu defnyddio i ddisgrifio'n harfarniadau. Yr ymadroddion yn y golofn dde yw'r esboniadau mwy manwl-gywir.

| | |
|---|---|
| **bron bob un** | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| **y rhan fwyaf** | 90% neu fwy |
| **llawer** | 70% neu fwy |
| **mwyafrif** | dros 60% |
| **hanner neu tua hanner** | agos at 50% |
| **lleiafrif** | o dan 40% |
| **ychydig** | o dan 20% |
| **ychydig iawn** | llai na 10% |

### Nodiadau am y data rydyn ni'n eu defnyddio yn yr adroddiad yma

1 Mae'r data rydyn ni'n eu dangos mewn siartiau neu'n eu trafod yn nhestun yr adroddiad yn dod o gronfa ddata graddau arolygu Estyn. Rydyn ni'n nodi yn yr adroddiad o ba ffynonellau eraill mae data wedi dod, ac mae'n deillio'n bennaf o adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru.

2 Mae'r ffigurau yn y siartiau wedi'u talgrynnu i'r ganran gyfan agosaf. Oherwydd hynny, mae'n bosib na fydd canrannau'n gwneud cyfanswm o 100%.





# Lansio gwefan ddata ryngweithiol newydd

Eleni, rydym wedi lansio gwefan ddata ryngweithiol i gefnogi cyhoeddi data'n ymwneud â'r Adroddiad Blynyddol. Mewn Adroddiadau Blynyddol blaenorol, rydym wedi cyhoeddi data'n ymwneud â'n deilliannau arolygu a holiaduron dysgwyr a rhieni ar ffurf taenlenni a PDF. Mae'r wefan newydd yn gwella hygyrchedd ein data trwy ddarparu rhyngwyneb syml, modern sy'n gweithio ar draws ffonau symudol, llechi a byrddau gwaith. Gellir mynd at y wefan drwy adran yr Adroddiad Blynyddol ar wefan Estyn. Gall defnyddwyr weithredu hidlwyr i addasu eu golygon data ac allfudo'r canlyniadau. Mae'n cynnwys data ar gyfer pob blwyddyn academaidd o 2010-2011 i'r flwyddyn lawn ddiweddaraf.

I gael mwy o fanylion am y canfyddiadau arolygu ar gyfer pob sector, ewch i data.estyn.llyw.cymru

**Mae'r data'n ymwneud â'r Adroddiad Blynyddol mewn pedair rhan:**


- Mae 'Deilliannau yn ôl darparwr' yn galluogi'r defnyddiwr i edrych ar ddeilliannau arolygu ar gyfer darparwyr unigol a grwpiau. Gall y defnyddiwr ddod o hyd i ddeilliannau ar gyfer darparwr penodol trwy ddefnyddio'r chwiliad testun a mynd at ganlyniadau ar gyfer grwpiau o ddarparwyr trwy weithredu'r hidlwyr perthnasol.
- Mae 'Deilliannau yn ôl sector' yn crynhoi deilliannau arolygu ar gyfer sectorau cyfan. Mae'n cyflwyno deilliannau ar draws y cwestiynau allweddol a dangosyddion ansawdd yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin.
- Mae 'Deilliannau ar draws awdurdodau lleol' yn galluogi'r defnyddiwr i weld crynodebau o ddeilliannau arolygu ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru.
- Mae'r 'Holiadur i ddysgwyr a rhieni' yn cyflwyno canlyniadau ein holiaduron addefnyddiwyd i gasglu barnau dysgwyr a rhieni cyn arolygiad, ac mae amryw o opsiynau ar gael i hidlo'r canlyniadau.

# Cymharu tueddiadau mewn data deilliannau arolygu


Wrth ddadansoddi data deilliannau arolygu, mae'n bwysig nodi y gall fod anawsterau wrth gymharu tueddiadau mewn deilliannau rhwng blynyddoedd. Bob blwyddyn, byddwn yn arolygu cyfran o ddarparwyr mewn sector penodol. Er enghraifft, yn ystod 2014-2015, aethom ati i arolygu 227 (17%) o ysgolion cynradd a 37 (18%) o ysgolion uwchradd. Bydd y deilliannau arolygu a ddyfynnir gennym yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer sector mewn unrhyw flwyddyn wedi'u seilio felly ar sampl o ddarparwyr ac nid y sector cyfan.

Mae'r siartiau isod yn dangos cyfran yr ysgolion cynradd ac uwchradd y barnwyd bod perfformiad presennol da neu ragorol ynddynt dros y tair blynedd diwethaf o arolygiadau. Dynodir cyfran y barnau da neu ragorol ar gyfer pob blwyddyn gan y pwynt porffor, ac mae'n seiliedig ar y sampl o ddarparwyr a arolygwyd gennym yn ystod y flwyddyn honno. Mae'r bariau glas yn dynodi'r ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrif hwn. Gall ymddangos bod newidiadau mawr wrth gymharu'r gwahaniaeth rhwng y blynyddoedd. Er enghraifft, fe wnaeth deilliannau ysgolion uwchradd ar gyfer perfformiad presennol gynyddu o 45% yn 2012-2013 i 53% yn 2013-2014 cyn gostwng eto i 41% yn 2014-2015. Nid oedd yr un o'r newidiadau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol.

**Ffigur 1: Ysgolion cynradd gyda pherfformiad presennol da neu ragorol – 2012-2013 i 2014-2015**




**Ffigur 2: Ysgolion uwchradd gyda pherfformiad presennol da neu ragorol – 2012-2013 i 2014-2015**










# **Y cwricwlwm yng Nghymru** Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr holl argymhellion yn adroddiad yr Athro Donaldson ‘Dyfodol Llwyddiannus’ (Chwefror 2015) ac mae wedi ymrwymo i sefydlu cwricwlwm newydd i Gymru ar y cyd â’r proffesiwn addysg. Bydd rhoi’r cwricwlwm newydd ar waith yn llwyddiannus yn dibynnu, ymhlith ffactorau eraill, ar ddeall graddau a natur cryfderau a gwendidau’r trefniadau presennol.

Mae’r adran hon yn sôn am nodweddion ysgolion sy’n darparu profiadau dysgu ysgogol a diddorol o dan y cwricwlwm presennol. Mae hefyd yn archwilio’r rhesymau pam mae agweddau ar y trefniadau cwricwlwm presennol yn rhwystro dulliau arloesol o addysgu a dysgu. Mae astudiaethau achos yn dangos sut mae ychydig o ddarparwyr llwyddiannus yn mynd i’r afael â’r cwricwlwm mewn ffyrdd sy’n goresgyn y cyfyngiadau hyn.

# Sut beth yw'r cwricwlwm ysgol ar hyn o bryd?

Mae'r siart hwn yn rhoi crynodeb bras o'r cwricwlwm sy'n cael ei gynnig mewn llawer o ysgolion nodweddiadol a lleoliadau nad ydynt yn ysgolion. Mae rhywfaint o hyblygrwydd gan ddarparwyr i gyflwyno a threfnu'r cwricwlwm fel y dymunant, felly gall darpariaeth amrywio o'r patrwm a awgrymir isod.

| Ffigur 1.1 | Cynnwys | Cyflwyniad | Trefniadaeth |
|---|---|---|---|
| **Y Cyfnod Sylfaen 3-7 oed Ysgolion cynradd a lleoliadau heblaw'r ysgol a ariennir** | Saith o feysydd dysgu (datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol, datblygu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd, datblygiad corfforol, datblygiad creadigol), Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, fframwaith medrau anstatudol, addysg grefyddol (AG) (plant 5-7 oed) | Chwarae a dysgu gweithredol, cymysgedd o dasgau â ffocws (dan arweiniad oedolyn), darpariaeth barhaus ac ar lefel uwch (yn cael ei harwain gan ddisgyblion fel arfer) a sesiynau dosbarth cyfan; fel arfer, cânt eu haddysgu gan yr un ymarferwyr neu grŵp bychan o ymarferwyr ar gyfer popeth | Fel arfer, grwpiau yn seiliedig ar oedran ar gyfer cofrestru a sesiynau grŵp cyfan, oedran cymysg weithiau, yn enwedig mewn lleoliadau; yn aml, cânt eu grwpio yn ôl cyfnod datblygu ar gyfer llythrennedd a datblygiad mathemategol gyda mwy o hyblygrwydd yn y meysydd dysgu eraill |
| **Cyfnod allweddol 2 7-11 oed Ysgolion cynradd** | 11 o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (craidd – Saesneg, Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, mathemateg, gwyddoniaeth; sylfaen – celf, dylunio a thechnoleg, daearyddiaeth, hanes, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, cerddoriaeth, addysg gorfforol, Cymraeg ail iaith (mewn ysgolion cyfrwng Saesneg), y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, y fframwaith medrau anstatudol, AG, addysg bersonol a chymdeithasol, (ABCh), addysg rhyw | Gwersi ar wahân fel arfer yn y pynciau craidd, Cymraeg ail iaith ac AG; dull seiliedig ar destunau o gyflwyno'r pynciau sylfaen; fel arfer, cânt eu haddysg gan yr un athro a staff cymorth ar gyfer popeth, gyda defnydd achlysurol o arbenigwyr | Dosbarthiadau seiliedig ar oedran fel arfer, weithiau oedrannau cymysg; yn aml yn cael eu grwpio yn ôl cyfnod datblygiad neu allu ar gyfer Cymraeg/Saesneg a mathemateg; gallu cymysg fel arfer ar gyfer y pynciau sylfaen |
| **Cyfnod allweddol 3 11-14 oed Ysgolion uwchradd** | 12 o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (fel yng nghyfnod allweddol 2, ynghyd ag iaith dramor fodern), y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, y fframwaith medrau anstatudol, AG, ABCh, addysg rhyw, gyrfaoedd a'r byd gwaith; weithiau elfen o ddewis ym Mlwyddyn 8 neu Flwyddyn 9, neu, ambell waith, caiff cwricwlwm cyfnod allweddol 3 ei addysgu dros ddwy flynedd, nid tair | Gwersi pwnc fel arfer, yn cael eu haddysgu gan arbenigwyr pwnc; mewn ychydig iawn o ysgolion, mae rhai disgyblion, ym Mlwyddyn 7, yn nodweddiadol, yn dilyn cwricwlwm sy'n seiliedig ar fedrau neu gwricwlwm thematig, yn cael ei addysgu gan grŵp llai o athrawon | Dosbarthiadau un oedran fel arfer; yn aml yn cael eu grwpio yn ôl gallu, yn enwedig ar gyfer y pynciau craidd |
| **Cyfnod allweddol 4 14-16 oed Ysgolion uwchradd** | Pynciau craidd, Cymraeg ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, tri neu bedwar o bynciau sylfaen neu gyrsiau galwedigaethol a ddewisir gan ddisgyblion, y fframwaith medrau anstatudol, AG, addysg grefyddol, addysg rhyw, gyrfaoedd a'r byd gwaith, Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) yn y mwyafrif o ysgolion | Gwersi pwnc, yn cael eu haddysgu gan arbenigwyr pwnc | Dosbarthiadau un oedran, yn cael eu grwpio yn ôl gallu fel arfer; yn aml, gallu cymysg ar gyfer AG, ABCh, addysg grefyddol |
| **Ysgolion arbennig Yn aml 3-16 oed** | Amrywiol iawn, hyblyg a phersonol, gan ddibynnu ar anghenion penodol a chyfnod datblygiad disgyblion unigol; lle bo'n briodol, mae'n defnyddio cynnwys a medrau o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a chyrsiau galwedigaethol | Wedi'i bersonoli yn ôl anghenion yr unigolyn; weithiau yn cael eu haddysgu drwy themâu; yn aml yn cael eu haddysgu gan yr un athro a staff cymorth ar gyfer popeth, gydag arbenigwyr yn cyfrannu lle bo angen | Yn aml yn cael eu grwpio yn ôl cyfnod allweddol ac anghenion dysgu, ond gallant hefyd gael sesiynau unigol, arbenigol; yn achlysurol iawn yn cael eu grwpio yn ôl gallu |

# Beth yw'r cryfderau yn y cwricwlwm presennol?


Mae ysgolion sy'n darparu profiadau dysgu eithriadol i'w disgyblion yn ysgolion rhagorol am amryw o resymau. Maent yn gwneud yr holl bethau y mae ysgolion da yn eu gwneud yn dda, ond maent hefyd yn rhagori mewn meysydd penodol lle mae ganddynt yr hyder, y medrau a'r profiad i arloesi. O ganlyniad, maent yn dod yn fannau cyffrous ac egnïol ar gyfer dysgu, lle bydd disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol ac yn cyflawni safonau arbennig o uchel.

## Ffigur 1.2

- Rhagorol
- Da
- Digonol
- Anfoddhaol


**Y Blynyddoedd Cynnar**
Crynodeb o ddeilliannau Dangosydd Ansawdd 2.1(profiadau dysgu), 2014-2015 - Y Blynyddoedd Cynnar

2.8% 78.7% 17.6% 0.9%



**Cynradd**
Crynodeb o ddeilliannau Dangosydd Ansawdd 2.1(profiadau dysgu), 2014-2015 - Ysgolion cynradd

6.6% 61.7% 27.8% 4.0%



# Y Cyfnod Sylfaen

Fe wnaeth adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus' gydnabod 'bod rhai cryfderau gwirioneddol yn y trefniadau cwricwlwm presennol yng Nghymru y gallwn eu datblygu - yn bennaf oll, yr addysgeg sy'n sail i'r Cyfnod Sylfaen' (Donaldson, 2015, tud.19). Mae profiad o ansawdd uchel, a gyflwynir yn dda yn y Cyfnod Sylfaen, yn meithrin hoffter o ddysgu mewn plant ifanc sy'n eu paratoi ar gyfer dysgu trwy gydol eu bywydau.

Mewn rhyw 70% o ysgolion cynradd ac 80% o leoliadau, mae darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn dda neu'n rhagorol. Mewn ysgolion a lleoliadau da, mae ymarferwyr yn barod i roi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio sy'n gwella, yn cyfoethogi ac yn ymestyn dysgu plant. Mae staff yn cynllunio'n greadigol, gan roi ystyriaeth ofalus i'r hyn y mae plant eisoes yn ei wybod, yn gallu ei wneud ac yn ei ddeall. Maent yn cysylltu gweithgareddau yn cael eu harwain gan blant a gweithgareddau yn cael eu harwain gan oedolion yn dda â'i gilydd i adeiladu dysgu disgyblion drwy ystod o gyd-destunau pwrpasol. Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu gweithgar, annibynnol, dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu disgyblion i ymarfer a gwella eu medrau llythrennedd, rhifedd, a'u medrau personol a chymdeithasol wrth ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn yr holl feysydd dysgu. Yn yr ysgolion a'r lleoliadau llwyddiannus hyn, mae staff yn rhoi lle canolog wrth gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm i gwestiynu medrus, gweithgarwch corfforol, amser i fyfyrio a chyfleoedd i blant wneud dewisiadau. Maent yn rhoi statws uchel i ddatblygiad personol a chymdeithasol plant ac mae hyn yn annog plant i fod yn unigolion iach, hyderus gydag ymwybyddiaeth dda o'r byd y maent yn byw ynddo. Wrth i'r plant hyn symud i mewn i gyfnod allweddol 2, mae ganddynt fedrau cyfathrebu cadarn yn aml ac, fel arfer, maent yn ddysgwyr hyderus, annibynnol.



Mewn tua 7% o ysgolion a 3% o leoliadau, lle mae'r ddarpariaeth yn rhagorol, mae gan uwch arweinwyr ddealltwriaeth drwyadl o athroniaeth a diben y Cyfnod Sylfaen. Maent yn sicrhau bod plant yn cael profiadau cwricwlwm cadarn yn eu holl ddosbarthiadau. Mae arweinwyr hyderus a gwybodus yn annog staff i fod yn ddyfeisgar gyda'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn creu parthau dysgu dychmygus sy'n cynnwys heriau ysgogol i blant ar gyfnodau gwahanol o'u datblygiad. Mae'r mannau hyn yn cyffroi disgyblion ac yn eu hysbrydoli i wneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu eu hunain ac i ddatblygu eu hannibyniaeth, ac ehangu eu medrau a'u hyder ar yr un pryd. Mae ysgolion rhagorol yn gwneud yn siŵr bod plant yn cael profiad o holl elfennau'r saith maes dysgu yn rheolaidd. Er enghraifft, fel rhan o ddatblygiad creadigol, mae plant yn cymryd rhan mewn cydbwysedd o weithgareddau mewn celf, crefft, dylunio, cerddoriaeth, dawns a symudiad, drama a chwarae rôl.

**Mae cynllunio profiadau dysgu yn ofalus mewn cyd-destunau ysgogol yn gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion**

Mae **Ysgol Glan Gele** yn Abergele yn awyddus i sicrhau bod blaenoriaeth uchel i gynllunio ar gyfer y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Drwy weithio gyda'i gilydd mewn cyfarfodydd staff a grwpiau blwyddyn i nodi medrau penodol yn eu cynlluniau, mae'r ysgol wedi gweld gwelliannau sylweddol ym medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

# Ysgolion cynradd – Cyfnod allweddol 2

Mae rhyw ddwy o bob tair ysgol gynradd yn bodloni anghenion a diddordebau eu disgyblion cyfnod allweddol 2 yn effeithiol, ac mae gan ryw un o bob pedair ar ddeg ysgol drefniadau rhagorol i gyflawni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen.

Mae bron yr holl athrawon mewn ysgolion cynradd yn defnyddio dull yn seiliedig ar themâu ar gyfer cynllunio dysgu plant. Mewn ysgolion sy'n dda neu'n well, nid yw athrawon yn dilyn cynlluniau gwaith na dulliau addysgu yn gaeth, ond yn hytrach yn addasu'r cynnwys neu'r strategaethau yn fedrus i fod yn addas at ofynion penodol eu disgyblion. Yn y ddwy ran o dair o ysgolion lle mae'r cwricwlwm yn dda, mae athrawon yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod medrau llythrennedd a rhifedd cadarn gan ddisgyblion ac maent yn defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd i sicrhau bod disgyblion yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Maent wedi ymgorffori'r fframwaith yn eu cynlluniau cwricwlwm, ond nid ydynt wedi gadael iddo bennu'n ormodol beth maent yn ei addysgu neu sut maent yn addysgu. Mewn ysgolion llwyddiannus, nid ôl-ystyriaeth neu 'flwch i'w lenwi' yw'r fframwaith, ond mae'n anhepgor i'r gweithgareddau dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgolion hyn yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu'r medrau sydd eu hangen ar ddisgyblion, gan ddefnyddio dulliau ysgol gyfan, yn enwedig ar gyfer addysgu ffoneg, ac maent yn darparu digon o gymorth i wneud yn siŵr bod disgyblion yn gwneud cynnydd da. Maent yn gwneud yn sicr nad yw cymhwysedd mewn llythrennedd a rhifedd yn cael ei gyflawni ar draul gweddill y cwricwlwm. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn cael digon o brofiadau diddorol sy'n eu hysgogi i siarad, darllen ac ysgrifennu ar draws yr holl bynciau. Mae staff hefyd yn darparu gweithgareddau allgyrsiol diddorol sy'n ehangu gorwelion disgyblion ac yn datblygu'u doniau.

Mae asesu ar gyfer dysgu, yn hytrach nag asesu at ddibenion biwrocrataidd, yn annatod i lwyddiant y cwricwlwm mewn ysgolion da. Mae asesu pwrpasol yn helpu athrawon i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y camau nesaf mewn dysgu disgyblion, ac o ganlyniad, mae'n helpu codi safonau.

Cryfder arall y cwricwlwm presennol mewn ysgolion da yw ymrwymiad i iaith a diwylliant Cymru. Mae llawer o ysgolion cynradd yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod disgyblion yn deall hanes, daearyddiaeth, treftadaeth a diwylliant Cymru. Mewn llawer o achosion, gwneir hyn trwy waith thema diddorol, fel dysgu am Gymru yn ystod y Blitz, astudio arlunwyr ac awduron enwog o Gymru, neu gymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol fel eisteddfodau, neu ymweld â lleoedd yng Nghymru sydd o bwysigrwydd hanesyddol neu ddiwylliannol. Mae gan yr ysgolion cynradd hyn ymrwymiad cadarn i'r Gymraeg hefyd, ac maent yn meithrin agweddau cadarnhaol yn eu disgyblion at ddysgu a defnyddio'r iaith.

Yn y 7% o ysgolion sy'n darparu profiadau dysgu rhagorol i'w disgyblion, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn glir ynghylch dibenion y cwricwlwm. Maent yn gwybod nad yw cael set o themâu wedi'i chynllunio'n dda i fynd i'r afael â gofynion yn gwarantu safonau ar gyfer disgyblion. Maent yn annog ac yn cefnogi staff i gymysgu dulliau arloesol o gyflwyno'r cwricwlwm â strategaethau addysgu o ansawdd uchel sy'n galluogi disgyblion i fwynhau dysgu, gwneud cynnydd cadarn a chyflawni safonau uchel. Mae athrawon mewn ysgolion rhagorol yn deall beth yw addysgu a dysgu effeithiol. Maent yn cysylltu gwaith newydd â phrofiadau dysgu blaenorol disgyblion. Maent yn gwybod beth yw cryfderau eu disgyblion a'r meysydd i'w datblygu, ac yn gosod tasgau a phroblemau diddorol, bywyd go iawn iddynt. Maent yn darparu her ar yr union lefel gywir fel eu bod o fewn cyrraedd disgyblion ond yn ddigon dyrys iddynt orfod gweithio'n galed i'w cyflawni. Mae disgwyliadau uchel gan athrawon o'u disgyblion. Maent yn mynnu eu bod yn cymhwyso'u gwybodaeth, yn datblygu medrau newydd, neu'n cymhwyso ystod o fedrau presennol gyda'i gilydd, yn annibynnol neu ar y cyd â disgyblion eraill. Maent yn annog disgyblion i ymddiddori'n llawn yn eu dysgu ac i ddatblygu lefel uchel o fedrau meddwl a datrys problemau. Mae trefniadau cadarn gan yr ysgolion hyn i feithrin athrawon a'u herio i fyfyrio ar lwyddiant eu strategaethau addysgu.

### Defnyddio "ap" i annog annibyniaeth mewn dysgu

Mae **Ysgol y Graig** yn defnyddio cymhwysiad digidol (ap) i roi cynnig ar ddulliau dysgu newydd. Mae athrawon yn recordio oedolion yn darllen storïau, a bydd disgyblion yn defnyddio'r ap i nodi meini prawf llwyddiant ar gyfer genres ysgrifennu gwahanol. Mae disgyblion yn datblygu'u hannibyniaeth mewn dysgu drwy wrando ac arsylwi ar eraill, dadansoddi testun, cofnodi eu harfarniadau eu hunain a golygu eu gwaith.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

# Ysgolion cynradd – Cyfnod allweddol 2

Mae ychydig iawn o ysgolion cynradd rhagorol yn sicrhau bod eu disgyblion yn datblygu medrau cadarn ym mhob maes TGCh, yn ogystal ag mewn llythrennedd a rhifedd. Yn yr ysgolion hyn, mae uwch arweinwyr yn gwneud datblygiadau mewn TGCh yn flaenoriaeth ysgol gyfan. Maent yn targedu adnoddau'n ofalus ar ddatblygu arbenigedd staff, gan benodi arweinydd cwricwlwm dynamig, tra medrus yn aml sy'n gallu arwain a hyfforddi eraill. Nid oes ofn arnynt arloesi neu gyflwyno syniadau a thechnoleg newydd. Maent yn galluogi disgyblion i gyfrannu at gynllunio ac arwain y dysgu drwy eu hyfforddi fel arweinwyr digidol sy'n hyfforddi, yn cefnogi ac yn ysbrydoli eraill.

Nid yw'r ysgolion cynradd mwyaf effeithiol yng Nghymru yn gadael i'r cwricwlwm presennol ffrwyno arloesedd neu gyfyngu ar greadigrwydd staff neu'u disgyblion. Maent bob amser yn meddwl am ffyrdd o ennyn diddordeb a chymell eu disgyblion i gyflawni orau y gallant. Pan fyddant yn canfod beth sy'n gweithio'n dda gyda'u disgyblion, maent yn ei ddatblygu a'i addasu, ac yn gwrando ar yr hyn y mae disgyblion yn ei ddweud, fel nad yw'r gwaith yn mynd yn anniddorol neu'n undonog.

**Mae defnyddio arbenigedd ac angerdd staff yn creu dysgwyr llawn symbyliad, uchel eu cyflawniad**

I greu adnoddau deniadol sy'n chwalu'r rhwystrau rhag dysgu, mae staff yn **Ysgol Gynradd Rhiwbeina** yn defnyddio pynciau cyffrous sy'n adlewyrchu eu diddordebau a'u doniau. Fe wnaeth eu dull ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol a medrau cymdeithasol a bywyd plant yn llwyddiannus.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos




# Beth yw'r cryfderau yn y cwricwlwm ar gyfer ein disgyblion hŷn?

## Ffigur 1.3

**Ysgolion uwchradd**
Crynodeb o ddeilliannau Dangosydd Ansawdd 2.1 (profiadau dysgu), 2014-2015 - ysgolion uwchradd

- Rhagorol
- Da
- Digonol
- Anfoddhaol




Mae ychydig dros hanner yr ysgolion uwchradd yn darparu profiadau dysgu da neu ragorol ar gyfer eu disgyblion.  Mewn ysgolion da, mae gan athrawon wybodaeth gadarn am eu pynciau a defnyddiant ystod eang o ddulliau addysgu i ennyn diddordeb a chymell disgyblion.  Maent yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y gall eu pwnc ei wneud at ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ac yn datblygu agweddau penodol ar lythrennedd a rhifedd sy'n ymwneud â'u pwnc penodol.  Maent yn cydnabod pwysigrwydd adeiladu ar y medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth y bydd disgyblion yn dod gyda nhw o'r ysgol gynradd.  Yn yr ysgolion uwchradd hyn, mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi annog staff i weld y cysylltiadau rhwng meysydd pwnc ac wedi'u hysgogi i rannu arfer dda ar draws adrannau ac o fewn ysgolion a rhyngddynt.

Mewn ysgolion uwchradd da, mae cydweithredu o ran y cwricwlwm gyda darparwyr eraill, fel colegau lleol neu ysgolion eraill, wedi'i ddatblygu'n dda, ac mae hyn yn helpu i ehangu'r dewis o gyrsiau sydd ar gael i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4.  Mae ysgolion yn cynllunio'r ddarpariaeth hon yn ofalus i fodloni anghenion eu disgyblion fel eu bod yn gallu dilyn llwybr cwricwlwm sy'n berthnasol, yn ddiddorol ac yn addas ar eu cyfer.  Mae llwybrau galwedigaethol ac agweddau ar Gymhwyster Bagloriaeth Cymru hefyd yn ehangu dealltwriaeth disgyblion o fenter, dinasyddiaeth a'r byd gwaith.

Un cryfder mewn ysgolion uwchradd da yw ymrwymiad i ddatblygu ymwybyddiaeth gymdeithasol a moesol ehangach disgyblion a hybu bwyta a byw'n iach yn effeithiol.  Gwneir hyn yn aml drwy addysg bersonol a chymdeithasol a gweithgareddau'n gysylltiedig â datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Mae gwaith cynghorau ysgol ac eco-bwyllgorau yn aml yn cyfrannu'n arbennig o dda at yr agwedd hon ar brofiad disgyblion.  Mae'n eu hannog i ddod yn gyfranogwyr gweithgar yn eu cymuned ysgol, cychwyn gweithgareddau eu hunain, codi arian at elusennau, helpu gwneud penderfyniadau ynglŷn â beth a sut maent yn dysgu, a chyfrannu at hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yr ysgol.

Mae ysgolion da hefyd yn gwella'r cwricwlwm gyda phrofiadau dysgu allgyrsiol o ansawdd uchel.  Mae'r rhain yn aml yn cynnwys gweithgareddau diwylliannol, artistig, cerddorol a chwaraeon, ac mae cyswllt rhwng clybiau ysgol â'r cwricwlwm.  Mae ysgolion yn annog disgyblion i gyfranogi mewn ystod eang o weithgareddau.  O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud y gorau o'u cryfderau ac yn canfod diddordebau a doniau newydd.  Mae'r cyfleoedd hyn yn cyfrannu'n dda at gynnydd academaidd disgyblion ac at eu hymdeimlad o les.  Maent yn eu helpu i ddod yn ddysgwyr hyderus sydd wedi'u paratoi'n dda ar gyfer dysgu a chyflogaeth yn y dyfodol.

Yn yr un o bob deg ysgol uwchradd lle mae profiadau dysgu yn rhagorol, bodloni anghenion disgyblion yw sail diwylliant yr ysgol.  Mae'n llywio pob penderfyniad ac yn helpu arweinwyr ac athrawon i feddwl yn greadigol am y cwricwlwm.  O fewn y diwylliant hwn, mae penaethiaid ac uwch arweinwyr effeithiol yn darparu cyfeiriad clir ac yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer disgyblion a staff ym mhob agwedd ar waith yr ysgol.  Mae rhannu'r disgwyliadau hyn gyda rhieni a gofalwyr yn arwain at ymdeimlad cryf o ddiben, uchelgais a rennir i'r holl ddisgyblion gyflawni orau y gallant, ac ymrwymiad cyffredinol i werthoedd, nodau ac amcanion yr ysgol.

Yn yr ysgolion uwchradd rhagorol hyn, mae arweinwyr yn mynd ati gyda dychymyg i ddylunio'r cwricwlwm. Nid ydynt yn gadael i ofynion y cwricwlwm osod gormod o gyfyngiadau ar gynllunio'r cwricwlwm na lleihau'r ymreolaeth sydd gan staff i ddatblygu dysgu trawsgwricwlaidd. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn cyflawni'r deilliannau gorau, ac yn annog staff i fod yn uchelgeisiol a hyderus. Mae'r egwyddorion hyn wrth wraidd dylunio'r cwricwlwm yn aml. Maent yn rhoi'r hyder i'w staff fod yn greadigol, rhoi cynnig ar syniadau newydd a chymryd risgiau gofalus wrth gynllunio profiadau dysgu. Maent yn defnyddio'u hathrawon yn effeithiol, gan ddarparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel iddynt sy'n eu helpu i gynllunio a chyflwyno dulliau newydd. Mae arweinwyr yn monitro ac yn arfarnu'r dulliau arloesol hyn yn fanwl ac yn galluogi staff i rannu arfer orau yn rheolaidd, yn fewnol a gydag ysgolion eraill.

Mewn rhai o'r ysgolion hyn, mae adrannau'n gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cyfleoedd i ddatblygu medrau disgyblion mewn prosiectau estynedig, yn enwedig yn y dyniaethau ac ym mhynciau'r celfyddydau creadigol. Mae hwn yn ddull tebyg i'r dysgu thematig mewn ysgolion cynradd. Pan fydd yn digwydd ym Mlwyddyn 7, bydd yn aml yn cynorthwyo pontio esmwyth i ddisgyblion ysgol gynradd i ddysgu yn yr ysgol uwchradd. Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol o'r arfer hon, mae arweinwyr yn dewis athrawon yn ofalus i sicrhau bod y medrau a'r arbenigedd iawn ganddynt ar gyfer y ffordd hon o weithio. Mae'r athrawon sy'n gysylltiedig yn deall budd gweithio yn y modd hwn, ac maent yn gwbl ymroddedig i'w egwyddorion. Maent yn gweithio gyda'i gilydd ac yn ymgynghori â disgyblion er mwyn cynllunio themâu sy'n diddori ac yn cymell disgyblion. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ddilyniant yn y pynciau perthnasol, yn ogystal ag mewn llythrennedd, rhifedd, medrau meddwl yn feirniadol a TGCh, ac maent yn defnyddio gwybodaeth asesu i gynllunio gweithgareddau dysgu sy'n cyfateb i anghenion disgyblion.

## Datblygu prosiectau thematig

Mae **Ysgol yr Esgob Gore** wedi datblygu dull personol o ddysgu ac mae wedi ail-ddylunio'i chwricwlwm cyfnod allweddol 3. Mae 'blociau datblygu' yn rhoi amser i ddisgyblion gymhwyso medrau seiliedig ar bynciau at brosiectau thematig trawsgwricwlaidd, gan eu galluogi i ddatblygu medrau datrys problemau ehangach a gweithio gydag eraill. O ganlyniad i'r dull hwn, mae lefelau diwedd cyfnod allweddol ac adborth o brofion wedi dangos gwelliant sylweddol.


I gael rhagor o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

# Ysgolion arbennig

## Ffigur 1.4

**Ysgolion arbennig a gynhelir**
Crynodeb o ddeilliannau Dangosydd Ansawdd 2.1 (profiadau dysgu), 2014-2015 - Ysgolion arbennig a gynhelir

- Rhagorol
- Da
- Digonol
- Anfoddhaol




Mae dros 70% o ysgolion arbennig a gynhelir yn bodloni anghenion a diddordebau eu disgyblion yn dda. Mae'r ysgolion hyn yn ffurfio partneriaethau effeithiol â'i gilydd sy'n eu helpu i nodi a dysgu o arfer dda, a rhannu adnoddau a hyfforddiant. Mae'r cydweithio hwn wedi rhoi'r hyder i arweinwyr roi cynnig ar ffyrdd arloesol o fodloni anghenion disgyblion.

Mewn ysgolion arbennig da, mae athrawon yn adnabod eu disgyblion yn arbennig o dda. Maent yn asesu llawer o agweddau ar ddatblygiad a dysgu disgyblion yn rheolaidd, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i fesur camau bach, ond camau pwysig, yn eu dysgu. Caiff targedau clir eu gosod ganddynt ac maent yn cynllunio gweithgareddau heriol a difyr. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion arbennig yn arbennig o fedrus o ran personoli'r cwricwlwm fel ei fod yn cyfateb i anghenion, galluoedd a diddordebau penodol disgyblion. Mae staff yn deall pwysigrwydd datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chyfathrebu disgyblion, ac maent yn canolbwyntio ar alluogi disgyblion i wneud cynnydd addas yn y meysydd hyn. Mae hyblygrwydd o ran dulliau yn allweddol i lwyddiant, felly maent yn chwilio am y ffyrdd mwyaf priodol, ac arloesol weithiau, i gefnogi'u disgyblion. Er enghraifft, yn y rhan fwyaf o ysgolion arbennig, mae staff yn defnyddio amrywiaeth eang o offer TGCh i ddatblygu cymhwysedd a hyder disgyblion wrth gyfathrebu â'i gilydd.

Mae'r ysgolion arbennig hyn yn gwybod bod addysg bersonol a chymdeithasol yn helpu disgyblion i ddatblygu medrau byw'n annibynnol gwerthfawr, yn cynnwys cymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad eu hunain a datblygu ffyrdd iach o fyw. Mae staff yn defnyddio ystod eang o amgylcheddau i ddarparu profiadau dysgu buddiol, gan fynd â disgyblion allan o'r ysgol yn aml i ddatblygu'u medrau mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn a rhoi iddynt yr hyder i weithio gydag eraill.

Mewn ysgolion arbennig a gynhelir sy'n llwyddiannus, mae'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau yn gysylltiedig â gwaith. Mae arweinwyr yn ffurfio partneriaethau gyda cholegau addysg bellach, darparwyr hyfforddiant ac ysgolion eraill i gynyddu'r dewisiadau sydd ar gael i ddisgyblion. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu'u medrau galwedigaethol ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer symud i'w profiad dysgu nesaf. Yn yr ysgolion arbennig gorau, mae'r cwricwlwm yn cynnig llwybr dysgu unigol i ddisgyblion sy'n seiliedig ar eu diddordebau a'u galluoedd. Gallai hyn gynnwys pynciau TGAU yn ogystal â chyrsiau neu ddyfarniadau eraill, fel ASDAN, ar gyfer cyflawniadau amrywiol, yn cynnwys gwaith amgylcheddol.

Mae arweinwyr yr ysgolion hyn yn gwneud yn siŵr bod athrawon a chynorthwywyr addysgu yn cael hyfforddiant arbenigol i fodloni anghenion penodol y disgyblion yn eu hysgol. Mae defnyddio cynorthwywyr addysgu â chymwysterau addas yn ofalus yn bwysig o ran sicrhau bod disgyblion yn cael cymorth da i ddilyn y cwricwlwm ac i gyflawni'n dda mewn perthynas â'u mannau cychwyn a'u targedau dysgu. Mae arweinwyr yn galluogi staff i weithio'n agos gydag ystod o arbenigwyr er mwyn bodloni anghenion iechyd a gofal disgyblion. Mae hyn yn gweithio'n arbennig o dda pan fydd ysgolion a gweithwyr iechyd proffesiynol yn cynnig apwyntiadau ar safle'r ysgol, gan leihau straen a theithio i ddisgyblion a'u rhieni a'u gofalwyr. O ganlyniad, caiff disgyblion eu cefnogi i ddilyn y cwricwlwm yn effeithiol, er enghraifft trwy ddefnyddio arwyddion neu ddarpariaeth offer arbenigol.

Mae cysylltiadau cadarnhaol â rhieni a gofalwyr yn allweddol i lwyddiant ysgolion arbennig. Yn yr achosion gorau, mae ysgolion yn darparu hyfforddiant a chyngor i rieni a gofalwyr ar ddeall y dulliau a ddefnyddir gan yr ysgol. Mae rhieni yn dysgu sut i gefnogi'r dulliau hyn gartref, ac mae hyn yn golygu mwy o gysondeb i ddisgyblion.

## Defnyddio cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws yr ysgol

Mae cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ganolog i adolygu cynnydd disgyblion yn **Ysgol Ddydd Arbennig Crownbridge**, Torfaen. Mae'r model hwn wedi gwella perfformiad disgyblion trwy drawsnewid eu proses adolygu dysgwyr, sydd bellach yn cynnwys gwybodaeth gan y disgyblion, rhieni ac ystod o bartneriaid.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos



# Beth mae rhai ysgolion yn ei weld yn anodd ynglŷn â'r cwricwlwm presennol?

Mae cryfderau yng nghynnwys, cyflwyniad a threfniadaeth y cwricwlwm mewn rhyw ddwy ran o dair o ysgolion cynradd ac mewn tua hanner ysgolion uwchradd. Hyd yn oed mewn ysgolion da, fodd bynnag, mae camddealltwriaeth ynglŷn â'r cwricwlwm weithiau'n cyfyngu ar hyblygrwydd ac ehangder y cwricwlwm yn ddiangen. Mewn ysgolion llai llwyddiannus, gall y cyfyngiadau hynny arwain at gaethiwo sy'n atal yr ysgol rhag darparu cwricwlwm sy'n ennyn diddordeb dysgwyr ac yn eu helpu i ffynnu.

Lle ceir diffyg hyder ymhlith arweinwyr ac athrawon yn eu dealltwriaeth o ddulliau addysgu a gofynion y cwricwlwm, maent yn amharod i ddehongli'r cwricwlwm yn feiddgar ac yn hyblyg. Maent yn aml yn troi'n ôl at ddulliau ffurfiol, caeth wrth ddesg, ac nid yw disgyblion yn elwa ar y dulliau dysgu gweithredol sy'n annog eu medrau datrys problemau, eu creadigrwydd a'u medrau meddwl yn feirniadol. Er enghraifft, yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhai arweinwyr, yn gamsyniol, yn meddwl mai dim ond dull ffurfiol o ddysgu fydd yn sicrhau bod plant yn perfformio'n dda mewn profion cenedlaethol ym Mlwyddyn 2. Mae rhai eraill yn camddehongli athroniaeth y Cyfnod Sylfaen trwy gynnig gormod o ddewis i ddisgyblion ac esgeuluso addysgu medrau sylfaenol.

Yn yr ysgolion hyn, gall y cwricwlwm ymddangos yn ddiflas ac ailadroddus, mae diffyg creadigrwydd yn yr addysgu a'r dysgu, ac nid yw gweithgareddau yn herio ac yn ennyn diddordeb disgyblion. Er enghraifft, mae athrawon llai hyderus yn tueddu dibynnu'n drwm ar ddisgyblion yn llenwi taflenni gwaith a thasgau lefel isel tebyg. Yn yr ysgolion lle mae athrawon yn dilyn cynllun gwaith cyhoeddedig neu gynllun gwaith yr ysgol yn fecanyddol, mae pob gwers yn dilyn yr un patrwm, mae disgyblion yn gwybod beth i'w ddisgwyl ac nid ydynt yn cael eu cymell na'u diddori yn eu dysgu. Gall disgwyliadau artiffisial a rhestrau ticio ar gyfer cynllunio gwersi ac arsylwadau ystafell ddosbarth arwain hefyd at wersi fformiwläig, rhy anhyblyg.

Yn yr ysgolion gwannach hyn, er bod athrawon yn cydnabod eu cyfrifoldeb am ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion, mae llawer ohonynt yn methu deall sut y gall pynciau greu cyd-destunau dilys lle gall disgyblion gymhwyso'r medrau hyn. Mae'r ysgolion hyn yn cynnig cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion wneud cysylltiadau ystyrlon rhwng pynciau, neu i ddatblygu'u medrau mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn. Nid yw llawer o'r ysgolion hyn yn meddwl yn ddwfn ynglŷn â dyluniad eu cwricwlwm, ac mae cynigion i gysylltu pynciau trwy ddulliau trawsgwricwlaidd yn methu'n aml oherwydd cynllunio gwael neu ddiffyg ymrwymiad.

Mae llawer o ysgolion wedi lleihau'r amser sy'n cael ei dreulio ar bynciau a meysydd dysgu nad ydynt yn rhai craidd. Gwneir hyn yn aml ar ôl cyflwyno dulliau llawdrwm o ddatblygu llythrennedd a rhifedd, gyda'r nod o hybu eu data perfformiad a deilliannau profion blynyddol. Mae newidiadau diweddar i gymwysterau a mesurau perfformiad wedi arwain llawer o ysgolion uwchradd i leihau nifer y dewisiadau opsiynau ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Nid yw culhau'r cwricwlwm fel hyn o angenrheidrwydd wedi arwain at ddeilliannau gwell.

Mae pryderon ynghylch asesu ac atebolrwydd hefyd yn atal llawer o ysgolion rhag bod yn arloesol. Gall arweinwyr llai hyderus hyrwyddo diwylliant lle mae athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd, ond heb fawr o effaith ar safonau. Maent yn casglu cryn dipyn o wybodaeth am gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion, ond nid ydynt yn ei ddefnyddio i lywio'r addysgu nac i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion.

# Sut mae ysgolion yn symud ymlaen?

Mae'r adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus' yn awgrymu sut gall trefniadau cwricwlwm ac asesu newydd fodloni anghenion presennol plant a phobl ifanc orau, a'u paratoi ar gyfer y dyfodol. Mae'n pwysleisio y dylai'r cwricwlwm gynnwys 'yr holl brofiadau dysgu a gweithgareddau asesu y mae'r ysgol yn eu cynllunio wrth geisio cyflawni dibenion addysg y cytunwyd arnynt' (Donaldson, 2015, tud.6). Mae'r adroddiad yn nodi pedwar diben ar gyfer y cwricwlwm, gyda'r nod o sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Mae achos cryf dros foderneiddio'r cwricwlwm yng Nghymru. Er hynny, gall athrawon ac arweinwyr ysgol ddefnyddio llawer o'r arfer bresennol fel sylfaen ar gyfer datblygiadau i'r cwricwlwm yn y dyfodol, drwy adeiladu ar y cryfderau a mynd i'r afael â'r gwendidau sydd wedi'u nodi.



Megis dechrau cael ei ddatblygu y mae gwaith ar y cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, gall ysgolion ddechrau paratoi eu hunain ar gyfer y dyfodol drwy ystyried y cwestiynau canlynol fel rhan o'u hunanarfarniad:

- A yw'r cwricwlwm sy'n cael ei gynnig gennym ar hyn o bryd yn helpu disgyblion i ddatblygu yn unol â'r 'pedwar diben'?
- Beth allwn ni wneud i hyrwyddo'r pedwar diben hwn ymhellach yn ein trefniadau presennol?
- Pa mor hyderus ydyn ni fel arweinwyr ysgol yn ein gallu i ysbrydoli, cynorthwyo ac arfarnu arloesedd yn ein cwricwlwm ysgol?
- Sut gallwn ni annog creadigrwydd, amrywiaeth ac unigoliaeth yn ein dulliau, a hefyd gyflawni cysondeb a chydlyniant yn y cwricwlwm sy'n cael ei gynnig gennym ac yn y modd y cyflwynwn y cwricwlwm?
- I ba raddau y mae ein hysgol (arweinwyr, athrawon a staff cymorth) yn barod i goleddu newid ac yn barod i ymgysylltu ag ysgolion arloesi wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd?
- Sut mae ein hathrawon a'n staff cymorth yn datblygu'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i ddatblygu'r cwricwlwm newydd?
- Sut gallwn ni adeiladu ar y creadigrwydd sydd eisoes i'w gael ymhlith ein staff a galluogi eraill i ddatblygu eu dychymyg mewn perthynas â'r cwricwlwm?
- A ydym ni'n darparu ystod eang o brofiadau allgyrsiol ychwanegol ar gyfer ein disgyblion ac yn cydnabod eu holl gyflawniadau?
- A yw ein hathrawon a'n staff cymorth yn deall asesu ffurfiannol a chrynodol ac yn defnyddio gwybodaeth asesu i godi safonau ac i hyrwyddo'r cynnydd y bydd disgyblion yn ei wneud i'r eithaf?
- A ydym ni'n defnyddio asesu i helpu disgyblion i wella eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill?
- A ydym ni'n sicrhau bod ein disgyblion yn adeiladu'n dda ar yr hyn y maent eisoes wedi'i ddysgu pan fyddant yn symud drwy ysgolion a rhwng ysgolion?
- A yw ein hysgol yn datblygu ystod lawn o fedrau TGCh a chymhwysedd digidol disgyblion?






# Adran 2: Adroddiad sector

## Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed[1]

Mae bron pob awdurdod lleol yng Nghymru yn ariannu rhyw ddarpariaeth addysg ran-amser ar gyfer plant tair oed, a phlant pedair oed yn achlysurol iawn, mewn lleoliadau yn ogystal ag mewn ysgolion. Nid yw awdurdodau lleol yn cynnal y lleoliadau hyn, ond maent yn gyfrifol am sicrhau bod lleoliadau'n darparu addysg gynnar a ariennir sydd o ansawdd da, gan gynnwys cynnig cyngor a chymorth gan athro cymwys. Mae lleoliadau sy'n darparu addysg gynnar a ariennir yn cynnwys darparwyr gofal dydd a chylchoedd chwarae. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn arolygu ansawdd gofal ar gyfer plant yn y lleoliadau hyn hefyd. Mae Estyn ac AGGCC yn cynllunio i arolygu lleoliadau heb fod mewn ysgolion gyda'i gilydd o Fedi 2016.

[1] Gelwir y rhain yn lleoliadau nas cynhelir a ariennir hefyd

Eleni, roedd tua 645 o ddarparwyr addysg ran-amser ar gyfer plant tair neu bedair oed, sy'n ostyngiad o 660 y llynedd. Er gwaetha'r gostyngiad cyffredinol hwn yn niferoedd y darparwyr, fe wnaeth 23 o leoliadau newydd agor neu ailagor. Mae hyn yn rhannol oherwydd ehangu cyllid Dechrau'n Deg ar gyfer plant dwy oed, sydd wedi gwneud ychydig o leoliadau yn fwy hyfyw yn ariannol i ddarparu addysg ran-amser ar gyfer plant tair a phedair oed. Eleni, fe wnaethom arolygu 108 o'r lleoliadau hyn. Mae bron i hanner y rhain yn lleoliadau bach gyda llai na chwech o blant yn cael eu hariannu gan awdurdodau lleol ar gyfer addysg ran-amser. Mewn lleoliadau bach, mae arolygwyr yn adrodd ar y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn unig, er mwyn osgoi adnabod plant unigol.


# Crynodeb: Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed

Eleni, nodom fod arfer ragorol mewn naw o leoliadau. Mae hyn yn is na'r nifer o leoliadau a nodwyd y llynedd. Mae lleoliadau lle ceir arfer ragorol yn gwneud y gorau o gyfleoedd dysgu a ddarperir gan y gymuned i wella profiadau plant. Er enghraifft, maent yn trefnu ymweliadau buddiol yn y gymuned, fel â'r pobydd lleol, ac yn defnyddio'r profiad hwn yn ystod gweithgareddau yn y lleoliad i annog plant i bwyso cynhwysion a gwneud eu bara eu hunain. Mae datblygiad proffesiynol ymarferwyr yn flaenoriaeth ac mae systemau arfarnu cadarn yn herio a chefnogi ymarferwyr i wella. Mae gwaith tîm effeithiol yn annog ymarferwyr i gymryd cyfrifoldeb am arwain mentrau ac am gynllunio'r cwricwlwm. Mae hyn yn datblygu ymdeimlad o berchenogaeth o'r hyn sy'n digwydd yn y lleoliad.

Mae angen monitro gan yr awdurdod lleol neu gan Estyn ar ryw draean o leoliadau a arolygwyd eleni. Mae hyn yn uwch nag yn y ddwy flynedd diwethaf ac mae'n gwrth-droi'r duedd flaenorol o welliant mewn meysydd allweddol, fel cynllunio'r cwricwlwm a hunanarfarnu. Lle mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol gynorthwyo lleoliadau, gwnânt hyn yn dda yn gyffredinol, er enghraifft drwy helpu'r lleoliad i gynllunio gweithgareddau â mwy o ffocws neu wneud asesiadau yn fwy hylaw. O ganlyniad, mae'r lleoliadau hyn yn tueddu gwella'n gyflym. Nodwyd un lleoliad gennym eleni lle'r oedd angen lefel uwch o fonitro gan Estyn (gwelliant â ffocws), oherwydd bod gwendidau yn yr arweinyddiaeth, yr hunanarfarnu a'r cynllunio ar gyfer gwella.

I gael mwy o fanylion am y canfyddiadau arolygu ar gyfer pob sector, ewch i [data.estyn.llyw.cymru](data.estyn.llyw.cymru)

**Ffigur 2.1: Canrannau lleoliadau mewn lefelau gweithgarwch dilynol**



# Deilliannau: Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed

## Safonau

Mae safonau'n dda neu'n well mewn 86% o leoliadau lle'r adroddom ar safonau. Mae hyn yn is nag yn y ddwy flynedd flaenorol, pan oedd safonau plant yn dda neu'n well mewn 95% o leoliadau.

Mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg, lle ceir safonau da neu ragorol, mae llawer o blant yn siarad yn glir a hyderus, ac maent yn awyddus i rannu'r hyn maent yn ei wneud gydag oedolion ac â'i gilydd. Maent yn gwrando'n ofalus ar gyfarwyddiadau, fel pan fyddant yn chwarae gêm bwrdd neu'n chwarae gyda'i gilydd i reoli parasiwt mawr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymdrin â llyfrau'n ofalus, gan eu dal y ffordd iawn i fyny a chan droi'r tudalennau yn gywir. Maent yn dangos mwynhad wrth wrando ar storïau a phan fyddant yn esgus darllen llyfrau i'w ffrindiau. Mae llawer o blant yn mwynhau arbrofi gyda phennau, pensiliau ac offer ysgrifennu arall i wneud marciau a dechrau ysgrifennu. Maent yn dangos dealltwriaeth gynyddol o bwysigrwydd ysgrifennu, fel gwneud rhestr i gofio beth sydd angen iddynt ei brynu pan fyddant yn ymweld â chanolfan arddio chwarae rôl. Yn y lleoliadau hyn, mae'r rhan fwyaf o blant yn ymuno'n frwdfrydig i ddysgu caneuon a rhigymau rhif, a gall llawer ohonynt gyfri'r plant sy'n bresennol adeg cofrestru. Yn y lleoliadau hyn, mae plant yn didoli, yn cydweddu ac yn cyfrif gwrthrychau cyfarwydd yn gywir. Er enghraifft, maent yn didoli ciwbiau jeli mewn grwpiau lliw, ac yn didoli anifeiliaid yn anifeiliaid fferm neu anifeiliaid sw. Yn yr arfer orau oll, mae plant yn defnyddio TGCh yn hyderus i gefnogi'u dysgu. Er enghraifft, maent yn defnyddio camera ar gyfrifiadur llechen i dynnu lluniau o fân drychfilod maent yn dod o hyd iddynt yn yr awyr agored, ac wedyn yn defnyddio'r ffotograffau i wneud modelau o bapur a chardfwrdd, gan gyfrif yn ofalus faint o goesau a faint o smotiau y mae angen iddynt eu hychwanegu.


Mewn rhyw un o bob saith lleoliad, lle ceir safonau digonol, nid oes hyder gan blant wrth siarad mewn grŵp, anaml iawn y byddant yn dewis edrych ar lyfrau gydag oedolyn neu ar eu pennau'u hunain, maent yn gwneud camgymeriadau syml wrth gyfrif gwrthrychau ac yn methu ag adnabod neu enwi siapiau dau ddimensiwn cyffredin. Mewn ychydig iawn o leoliadau cyfrwng Cymraeg, mae plant yn betrusgar o ran defnyddio'r Gymraeg heb anogaeth gan oedolyn.

Mae safonau Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, ac mewn TGCh yn fwy cyffredinol, yn feysydd i'w gwella yn fynych, hyd yn oed mewn lleoliadau sy'n dda yn gyffredinol.

## Lles

Mae bron pob plentyn yn dangos lefelau uchel o gyfranogi ac ymgysylltu, ac maent yn hapus a bodlon. Maent yn ymgymryd yn barod â chyfrifoldeb, fel helpu i dacluso adnoddau, cymryd y gofrestr, paratoi bwyd a gosod y bwrdd amser byrbryd. Mae'r plant bron i gyd yn fodlon rhannu teganau ac yn dysgu cymryd eu tro pan fyddant yn chwarae gêm neu'n aros i blentyn arall orffen defnyddio adnodd. Mae llawer ohonynt yn gwneud dewisiadau synhwyrol ynglŷn â beth yr hoffent ei wneud ac maent yn datblygu perthnasoedd cadarn gyda phlant eraill. Maent yn dechrau cydchwarae ac yn dangos gofal ac ystyriaeth at eraill, er enghraifft drwy helpu eu ffrindiau i wisgo ffedogau paentio neu esgidiau glaw, neu ddangos consyrn am blentyn sydd wedi brifo.

**Ffigur 2.2: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



# Darpariaeth: Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed

Mae'r ddarpariaeth yn dda neu'n well mewn 89% o leoliadau a arolygwyd eleni. Mae cynnydd bach yn y ddarpariaeth sy'n ddigonol, gydag arolygwyr yn nodi llai o enghreifftiau o arfer ragorol.

Mae cynllunio'r cwricwlwm yn yr hirdymor yn gwella'n raddol. O ganlyniad, mae llawer o leoliadau'n darparu profiadau dysgu buddiol i blant ifanc. Lle mae'r cynllunio o ddydd i ddydd yn arbennig o dda, mae diben dysgu clir i'r holl weithgareddau. Er enghraifft, mewn chwarae rôl 'cornel cartref', mae plant yn didoli'r golch, yn rhoi sanau mewn parau ac yn cyfrif y dillad wrth iddynt eu gosod ar y lein â phegiau. Fodd bynnag, mae agweddau ar gynllunio tymor byr yn wan ar brydiau, hyd yn oed pan fydd y ddarpariaeth yn gyffredinol dda. Er enghraifft, mae diffyg her yn y gweithgareddau weithiau ac nid ydynt bob amser yn adeiladu'n ddigon da ar ddysgu blaenorol neu nid ydynt yn canolbwyntio digon ar ddatblygu llythrennedd a rhifedd plant.

Lle ceir addysgu da neu well, mae llawer o ymarferwyr yn cymryd rhan yn chwarae'r plant i'w helpu i ddysgu ac ymarfer medrau newydd. Er enghraifft, maent yn ymuno'n frwdfrydig â phlant yn chwarae offerynnau cerdd ac yn eu hannog i ddilyn rhythm cân. Bydd llawer ohonynt yn ymyrryd yn briodol pan fyddant yn gweld plant yn ei chael hi'n anodd, ac maent yn gweithio'n galed i wneud dysgu'n hwyl. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn defnyddio canmoliaeth yn dda i reoli ymddygiad plant, ond maent yn llai llwyddiannus yn defnyddio canmoliaeth i ddathlu cyflawniadau plant. Ceir gwendidau yn y defnydd o asesu i nodi a mynd i'r afael â chamau nesaf plant yn eu dysgu mewn llawer o leoliadau, a dyma'r rheswm yn aml pam y bydd barnau arolygu ar gyfer addysgu yn is nag y gallent fod.

Mae trefniadau effeithiol gan y rhan fwyaf o leoliadau i gefnogi iechyd a lles plant ac i annog plant i gymryd gofal ohonynt eu hunain. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog plant i fwyta snaciau iach a golchi eu dwylo cyn bwyta. Maent yn darparu gweithgarwch corfforol dyddiol i blant, fel dawnsio i gerddoriaeth neu chwarae gemau parasiwt. Mewn ychydig iawn o leoliadau eleni, ceir ystyriaethau'n ymwneud ag iechyd a diogelwch oherwydd natur yr eiddo, neu bryderon diogelu yn ymwneud â pholisi a gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer amddiffyn plant.


Mae llawer o ymarferwyr yn gweithio'n dda â'i gilydd i ddarparu amgylchedd dysgu ysgogol gydag adnoddau da sy'n cefnogi ymglymiad, cyfranogiad a mwynhad plant. Mewn ychydig iawn o leoliadau, nid yw staff yn defnyddio adnoddau cymunedol ddigon i wneud yn iawn am gyfyngiadau yn narpariaeth awyr agored y lleoliad.

Mae rhyw draean o argymhellion ar gyfer gwella mewn darpariaeth eleni yn canolbwyntio ar wella Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, yn enwedig y defnydd rheolaidd o'r Gymraeg gan ymarferwyr. Mae gwella TGCh yn amlwg mewn rhyw chwarter o argymhellion, ac mae hyn yn cysylltu'n agos â diffyg cynllunio ar gyfer TGCh neu ddiffyg adnoddau addas.

I gael mwy o wybodaeth am ddarpariaeth mewn lleoliadau heb fod mewn ysgolion, cliciwch ar yr adroddiad thematig, 'Effaith athrawon ymgynghorol ar leoliadau nas cynhelir a ariennir'.



**Figur 2.3: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed

Mae'r arweinyddiaeth yn dda neu'n well mewn 88% o'r lleoliadau eleni. Yn y lleoliadau hyn, mae gweledigaeth glir gan arweinwyr o'r hyn y maent am ei gyflawni ar gyfer plant. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'n gyson. Maent yn sefydlu lefelau gofal a meithrin uchel sy'n helpu plant i gyflawni safonau a lles da. Mae dealltwriaeth dda gan arweinwyr yn y lleoliadau hyn o sut i wella ansawdd drwy hunanarfarnu a chynllunio gweithredu. Mewn lleoliadau lle ceir arweinyddiaeth ddigonol neu anfoddhaol, nid yw arweinwyr yn herio staff i wneud yn well. Yn aml, mae'r hunanarfarnu'n rhy feichus a chymhleth, neu'n rhy anffurfiol ac wedi'u seilio ar ychydig iawn o dystiolaeth. Yn y ddau achos, nid yw'r hunanarfarnu yn helpu arweinwyr i nodi beth sydd angen ei wella.

Mae gweithio mewn partneriaeth â rhieni yn nodwedd gadarn ym mhob lleoliad bron. Yn gynyddol, mae lleoliadau mwy, fel meithrinfeydd dydd, yn defnyddio TGCh, ac yn enwedig y cyfryngau cymdeithasol, i rannu gwybodaeth am yr hyn y mae plant yn ei wneud ac i roi gwybodaeth am ddigwyddiadau. Mae partneriaethau effeithiol gyda'u cymuned leol gan lawer o leoliadau. Er enghraifft, bydd plant yn ymweld â siopau lleol i ddysgu am fyd gwaith, ac yn ymweld yn rheolaidd â'r parc neu goetir i ddysgu am y tymhorau. Ceir darlun cymysg o bartneriaethau gydag ysgolion lleol. Yn yr arfer orau, mae ymarferwyr o leoliadau yn rhannu gwybodaeth werthfawr cyn bod plant yn symud i'r ysgol, ac mae ymweliadau rheolaidd yn ôl ac ymlaen o'r ysgol yn golygu bod plant yn ymgyfarwyddo â staff yr ysgol. Mae hyn yn paratoi plant yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.


Mae llawer o leoliadau yn darparu gwerth da am arian. Gwnânt ddefnydd effeithiol o staffio ac adnoddau i gefnogi dysgu plant. Nid oes cynlluniau ariannol sicr ar waith gan ychydig iawn o leoliadau. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd iddynt flaengynllunio, prynu offer newydd neu ddarparu hyfforddiant i staff i ymgyfarwyddo â mentrau newydd.

**Mae ymglymiad cryf rhieni yn arwain at ddechrau llwyddiannus mewn addysg feithrin**

Mae gan **Addysg Gynnar Ysgol Fabanod Parc Borras** bartneriaethau cadarn â rhieni. Mae rhieni yn deall nodau'r lleoliad yn glir ac yn chwarae rhan weithgar yn datblygu'r rhain. Mae plant yn gallu ymgartrefu'n gyflym ac yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer yr ysgol fabanod. Mae lefelau lles plant a'u safonau cyflawniad yn uchel.

I gael mwy o wybodaeth, cliciwch ar yr astudiaeth achos

**Ffigur 2.4: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**



# Gweithgarwch dilynol: Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed

Mae'r holl leoliadau sydd angen eu monitro gan yr awdurdod lleol, a'r rhan fwyaf o leoliadau sydd angen eu monitro gan Estyn, wedi gwneud digon o gynnydd i Estyn eu tynnu o gategori gweithgarwch dilynol. Mae'r lleoliadau hyn wedi mynd i'r afael â'r argymhellion o'u harolygiadau craidd. Mae arweinwyr wedi gweithredu ar gymorth ac arweiniad gan yr awdurdod lleol neu'r consortiwm mewn modd amserol. Maent wedi sicrhau bod ymarferwyr yn cael hyfforddiant ychwanegol ac yn ymweld â lleoliadau eraill i wella eu harfer.

Eleni, methodd un lleoliad â gwneud digon o gynnydd tra'r oedd yn cael ei fonitro gan Estyn, a chafodd ei roi yn y categori gwelliant â ffocws. Mae Estyn yn parhau i fonitro lleoliad arall a gafodd ei roi yn y categori gwelliant â ffocws yn haf 2014. Mewn lleoliadau sy'n methu gwneud digon o gynnydd, nid yw arweinwyr yn glir ynghylch beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Nid ydynt yn canolbwyntio ddigon ar ddysgu ac addysgu ac yn aml maent yn gwrthod derbyn newid.

Mae **Meithrinfa Ddydd Sparkles** yn Wrecsam yn fenter gymunedol ac yn rhan o Bartneriaeth Parc Caia Cyfyngedig, sy'n elusen gofrestredig. O ganlyniad i arolygiad craidd ym Mehefin 2014, canfuwyd bod angen monitro gan Estyn ar y lleoliad. Ymwelodd arolygydd â'r feithrinfa eto ym Mehefin 2015 i fonitro ei chynnydd, a barnodd nad oes angen ei monitro mwyach.

Un nodwedd bwysig o gynnydd y lleoliad yw'r gwelliant mewn arweinyddiaeth strategol. Erbyn hyn, mae gan y lleoliad reolwr ac unigolyn arweiniol ar gyfer darpariaeth addysg gynnar. Mae'r rheolwr yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac mae rolau a chyfrifoldebau clir gan ymarferwyr. Mae ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant priodol i'w helpu i gyflwyno addysg gynnar o ansawdd uchel. Mae'r broses arfarnu staff yn bodloni anghenion ymarferwyr yn dda.

Mae safonau mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh wedi gwella ers yr arolygiad craidd. Mae llawer o blant yn cyfathrebu'n glir ac yn mwynhau siarad am eu gweithgareddau. Mae'r rhan fwyaf yn cymryd diddordeb mewn llyfrau a gwrando ar storïau. Maent yn deall diben ysgrifennu ac yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn gweithgareddau gwneud marciau. Mae llawer o blant yn paru gwrthrychau ac yn defnyddio iaith fathemategol yn eu gweithgareddau. Maent yn adnabod siapiau cyffredin ac yn cyfrif i ddeg yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio cyfrifiaduron llechen, llyfrau siarad a chiwbiau yn hyderus i'w helpu i ddysgu wrth iddynt chwarae.

Mae'r lleoliad wedi gwella ei gynllunio i ddarparu mwy o gymorth ar gyfer addysgu a dysgu. Mae cynlluniau tymor hir a thymor canolig o ansawdd da yn eu lle, ac mae ymarferwyr yn cydweithredu'n dda i gynllunio gweithgareddau ar gyfer y tymor byr sy'n datblygu medrau plant. Mae ymarferwyr yn arfarnu eu cynllunio a'u haddysgu yn briodol, ac yn dechrau nodi cryfderau plant a meysydd i'w datblygu drwy arsylwi gofalus.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r lleoliad wedi gwella ansawdd yr amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored. Bellach, ceir mannau dysgu deniadol, wedi'u diffinio'n glir, gydag adnoddau a drefnir yn dda i gyfateb i oedran a gallu plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd lleol ac ystod o ymweliadau ac ymwelwyr yn dda i wella'r ddarpariaeth. Mae mwy o reolaeth gan y lleoliad dros ei gyllideb, fel bod ymarferwyr yn gallu ymateb i anghenion plant yn gyflym a chynllunio'n haws ar gyfer y dyfodol. Mae gwelliannau yn yr hunanarfarnu yn golygu bod staff wedi dod yn fwy myfyriol ac yn gwybod erbyn hyn beth mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda a beth sydd angen iddo ei wneud i wella.





# Adran 2: Adroddiad sector
## Ysgolion cynradd

Yn Ionawr 2015, roedd 1,330 o ysgolion cynradd yng Nghymru.  Mae hyn 27 yn llai nag yn Ionawr 2014.  Roedd 273,400 o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd yn Ionawr 2015, sy'n gynnydd o ryw 4,000 o'r flwyddyn flaenorol.  Dyma'r bumed flwyddyn yn olynol i nifer y disgyblion cynradd godi.  Mae nifer y disgyblion mewn ysgolion cynradd 6% yn uwch erbyn hyn nag ydoedd bum mlynedd yn ôl.

Eleni, fe wnaethom arolygu 227 o ysgolion cynradd.

# Crynodeb: Ysgolion cynradd

Eleni, nodom fod arfer ragorol mewn 41 o ysgolion cynradd ar gyfer o leiaf un dangosydd ansawdd. Mae hyn yn cyfrif am 18% o'r ysgolion a arolygwyd gennym, ac mae'n gynnydd ar yr ychydig flynyddoedd diwethaf pan oedd y ganran yn rhyw 15%. Barnom fod perfformiad presennol pum ysgol yn rhagorol, at ei gilydd. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion o bob gallu a chefndir yn gwneud cynnydd da iawn o'u mannau cychwyn oherwydd yr addysgu a'r dysgu o ansawdd uchel yn gyson. Mewn 15 o ysgolion, barnodd arolygwyr fod rhagolygon gwella rhagorol gan yr ysgolion. Mae hyn oherwydd bod arweinwyr yn defnyddio ystod helaeth o ddulliau i fonitro ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau y bydd plant yn eu cyflawni. Gwnânt ddefnydd effeithiol iawn o'r wybodaeth hon i lywio gwelliannau'r ysgolion.

Mae angen monitro gan Estyn ar ryw chwarter o ysgolion a arolygwyd eleni, o gymharu â rhyw draean y llynedd. Yn yr ysgolion hyn, ceir anghysonderau yn ansawdd y ddarpariaeth. Yn aml, ceir amrywiadau amlwg yn ansawdd yr addysgu rhwng dosbarthiadau, neu o ran pa mor dda y mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau cynyddol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion.

Eleni, cafodd 20 o ysgolion cynradd (9%) eu rhoi mewn categori statudol, i fyny o 7% y llynedd. Arhosodd y gyfran o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt ar ryw 5% (12 ysgol). Mae angen mesurau arbennig mewn wyth ysgol, sef 4% o'r ysgolion a arolygwyd, sydd ychydig yn fwy na'r llynedd.


Mae gan bob un o'r ysgolion hyn wendidau yn ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth, ac yn y rhan fwyaf ohonynt, gwnaeth arolygwyr argymhellion naill ai i sefydlu arweinyddiaeth sefydlog, neu i gryfhau ansawdd ac effaith arweinyddiaeth ar bob lefel. Yn aml, mae'r arweinwyr hyn yn methu mynd i'r afael â diffygion yn ansawdd yr addysgu, y cynllunio a'r asesu. Nid ydynt yn dwyn athrawon i gyfrif am gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion. Er y gall fod pocedi achlysurol o arfer dda yn yr ystafell ddosbarth yn yr ysgolion hyn, nid yw'r addysgu yn ddigon da ar y cyfan i sicrhau bod disgyblion yn gwneud y cynnydd y dylent ei wneud.

I gael mwy o fanylion am y canfyddiadau arolygu ar gyfer pob sector, ewch i data.estyn.llyw.cymru





**Ffigur 2.5: Canrannau ysgolion cynradd mewn lefelau gweithgarwch dilynol**



# Deilliannau: Ysgolion cynradd

## Safonau

Mae safonau'n dda neu'n well mewn rhyw ddwy ran o dair o ysgolion cynradd a arolygwyd. Mae hyn yn welliant bach ar y llynedd. Mae cyfran yr ysgolion lle barnodd arolygwyr bod safonau'n rhagorol neu'n anfoddhaol wedi aros yr un fath â'r llynedd fwy neu lai.


Yn yr ysgolion lle ceir safonau da neu well, mae bechgyn a merched yn tueddu perfformio cystal â'i gilydd. Yn gyffredinol, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â disgyblion eraill neu mae eu perfformiad yn gwella dros gyfnod. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rhai sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Eleni, rydym wedi gweld gwelliannau ym medrau llythrennedd disgyblion ac maent yn cymhwyso'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm ar y lefel y maent yn ei chyflawni yn eu gwersi iaith. Mewn mwyafrif o ysgolion, mae safonau llythrennedd yn dda yn y Cyfnod Sylfaen. Yn yr ysgolion hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trafod eu dysgu'n frwdfrydig ac yn gwrando'n astud. Mae llawer yn gwneud cynnydd da gyda'i darllen. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen gyda mwynhad, yn siarad am y llyfrau y maent yn hoffi eu darllen ac yn cyfeirio at eu hoff gymeriadau a phlotiau gyda brwdfrydedd. Maent yn defnyddio'u gwybodaeth am seiniau llythrennau i'w helpu i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae disgyblion mwy abl yn darllen yn gywir a gyda mynegiant, ac yn dangos dealltwriaeth dda pan fyddant yn ailddweud storïau. Bydd disgyblion iau yn defnyddio'u gwybodaeth ffonig i ysgrifennu geiriau syml ac ymadroddion byr ac mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu brawddegau syml yn annibynnol pan fyddant yn gwneud eu llyfrau eu hunain ar greaduriaid y môr. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n briodol mewn ystod o arddulliau, gan ddefnyddio atalnodi sylfaenol yn gywir. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu llythyrau o long môr-ladron, yn esbonio'u swyddi. Yn y chwarter o ysgolion gydag argymhellion yn ymwneud â safonau mewn llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen, nid yw disgyblion yn ysgrifennu darnau hir nac at ystod o ddibenion yn ddigon da. Maent yn defnyddio atalnodi'n anghyson, ac nid ydynt yn gwneud cynigion sydd yn argyhoeddi i sillafu geiriau newydd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau llythrennedd yn dda mewn rhyw 68% o ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig ynglŷn â llyfrau a darllen. Maent yn defnyddio'r tudalennau cynnwys, mynegai a geirfa yn hyderus i'w helpu i ddod o hyd i wybodaeth, ac maent yn defnyddio geiriaduron i ganfod ystyron geiriau anghyfarwydd. Mae disgyblion mwy abl yn darllen yn rhugl gyda dealltwriaeth dda iawn. Maent yn siarad am y mathau o lyfrau y maent yn hoffi eu darllen ac yn trafod y plot, cymeriadau a'r lleoliad yn fanwl. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu ystod eang o waith ysgrifenedig o ansawdd uchel, fel adroddiadau, bywgraffiadau, llythyrau neu storïau. Maent yn sillafu'r rhan fwyaf o eiriau yn gywir ac yn atalnodi eu gwaith yn gywir yn gyffredinol. Mae'r disgyblion mwyaf abl yn defnyddio geirfa fwyfwy cyfoethog ac amrywiol, ac yn arfarnu eu gwaith a'i effaith ar y darllenydd. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n gywir ac nid ydynt yn addasu'u hysgrifennu yn llwyddiannus ar gyfer genres gwahanol. Pan fyddant yn trafod llyfrau, nid ydynt yn deall cymeriadau na phlot, ac nid ydynt yn defnyddio syniadau o lyfrau i wella eu hysgrifennu eu hunain.

Mewn rhyw chwarter o ysgolion, mae cynnydd o ran gwella medrau rhifedd disgyblion yn rhy amrywiol. Mae hyn yn rhannol oherwydd diffyg hyder disgyblion yn cymhwyso medrau rhifedd y tu allan i wersi mathemateg. Mae hefyd yn ymwneud â diffyg cyfleoedd perthnasol a difyr iddynt gymhwyso'u medrau ar draws y cwricwlwm. Lle ceir safonau rhifedd da neu well, mae disgyblion yn mynd i'r afael â datrys problemau yn hyderus, ac yn trafod ac yn mireinio'u dulliau yn dda. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd da o ddata, fel pan fyddant yn casglu gwybodaeth mewn siart cyfrif ar gyfer arolwg traffig. Maent yn defnyddio'r wybodaeth

**Ffigur 2.6: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



hon yn dda i greu graffiau cywir ac i lunio casgliadau syml. Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r dull mwyaf priodol o gofnodi data mewn amgylchiadau gwahanol. Er enghraifft, maent yn tynnu graffiau llinell yn gywir ac yn dehongli'r wybodaeth yn gywir wrth gymharu tymeredd a chyflymder gwynt. Lle mae medrau rhifedd disgyblion yn gadarn, maent yn esbonio'u rhesymu mathemategol yn hyderus ac yn cyfiawnhau'r dulliau y maent yn eu defnyddio i wneud cyfrifiadau. Mae disgyblion mwy abl yn edrych am batrymau wrth ymchwilio i broblemau ac yn mynegi'u canfyddiadau yn gywir mewn termau algebraidd syml.

Mewn mwyafrif o ysgolion, ceir diffygion pwysig mewn safonau TGCh. Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio TGCh yn briodol ar gyfer prosesu geiriau, ymchwil a chyflwyniadau, nid ydynt yn datblygu'u medrau yn ddigon da mewn elfennau eraill o TGCh, yn enwedig modelu, a chreu a defnyddio taenlenni a chronfeydd data, ar draws y cwricwlwm. Dim ond mewn lleiafrif o ysgolion y ceir safonau TGCh da neu well. Mae llawer o ddisgyblion yn yr ysgolion hyn yn defnyddio ystod eang o fedrau TGCh i wella eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn creu cyflwyniadau diddorol sy'n cynnwys hyperddolenni a ffynonellau fideo, sain a rhyngweithiol. Maent yn defnyddio codau ymateb cyflym (QR), ac yn dechrau datblygu medrau rhaglennu syml. Defnyddiant gronfeydd data a thaenlenni i ddadansoddi costau a gwybodaeth ar gyfer prosiect dosbarth.

Y llynedd, adroddom nad oedd safonau mewn Cymraeg fel ail iaith wedi gwella, ac mae'r sefyllfa hon yr un fath o hyd. Eleni, mae argymhelliad i wella Cymraeg fel ail iaith gan bron i draean o ysgolion cyfrwng Saesneg a arolygwyd. Yn yr ysgolion hyn, nid yw disgyblion yn adeiladu ar y Gymraeg y maent yn ei dysgu yn y Cyfnod Sylfaen, ac nid ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus y tu allan i wersi Cymraeg ffurfiol.

## Lles

Mae safonau lles yn dda neu'n well mewn mwyafrif o ysgolion ac mae hyn yn debyg i'r llynedd. Yn yr ysgolion hyn, mae medrau dysgu annibynnol da gan lawer o ddisgyblion ac maent yn cydweithredu'n dda mewn gwersi. Maent yn defnyddio ystod o adnoddau dysgu'n effeithlon heb gyfarwyddyd gan athro. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud dewisiadau iach ynglŷn â'r byrbrydau y maent yn eu bwyta yn ystod amser ysgol, ac mae llawer ohonynt yn esbonio buddion ymarfer corff rheolaidd a'r effaith a gaiff hyn ar y corff.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi ac o amgylch yr ysgol. Maent yn trin oedolion a'i gilydd â pharch.

Yn 2014-2015, mae cynnydd bach mewn presenoldeb cyffredinol o gymharu â lefelau a gofnodwyd y llynedd. Er hynny, mae argymhelliad i wella presenoldeb gan dros chwarter o ysgolion a arolygwyd eleni o hyd.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae cynrychiolwyr y cyngor ysgol yn ymgymryd â'u dyletswyddau o ddifrif ac yn cynrychioli disgyblion eraill yn dda. Maent yn arwain ar gamau gweithredu sy'n gwella amgylchedd yr ysgol ac adnoddau, fel cyflwyno mwy o weithgareddau amser chwarae neu ddewis llyfrau ar gyfer llyfrgell yr ysgol. Mewn ychydig o ysgolion, mae'r cyngor ysgol yn dechrau gwneud awgrymiadau ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei addysgu, er mai dim ond mewn ychydig iawn o ysgolion y mae'r arfer hon wedi sefydlu. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau fel rhoi cyflwyniadau i rieni ac anfon cylchlythyrau ynglŷn â'u cyfranogiad wrth lunio polisïau cyfeillgar i blant ar gyfle cyfartal, ymddygiad a gwrthfwlio.

**Disgyblion yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer eu hysgol**

Mae dysgwyr yn **Ysgol Gynradd Gladestry** yn gweithio gyda staff addysgu a gyda'i gilydd i osod targedau dysgu a gwella amgylchedd eu hysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn cymryd rhan yn dda, ac mae presenoldeb ymhell uwchlaw'r cyfartaledd.

I gael mwy o wybodaeth, cliciwch ar yr astudiaeth achos

# Darpariaeth: Ysgolion cynradd

Mae'r ddarpariaeth ar y cyfan yn dda neu'n well mewn tri chwarter o'r ysgolion a arolygwyd eleni. Mae hyn yn welliant bach ar y llynedd.

## Profiadau dysgu

Eleni, rydym wedi gweld gwelliant yn y cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Nid yw'r cynllunio ar gyfer rhifedd a TGCh mor gadarn yn gyffredinol, ac yn aml nid yw'n helpu disgyblion i adeiladu ar fedrau y maent yn eu datblygu wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Lle mae'r cynllunio yn fwyaf llwyddiannus, mae'r cyd-destun ar gyfer gwersi yn gyffrous ac yn ddychmygus, a cheir cyfleoedd perthnasol a difyr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm. Mae'r cynllunio yn rhoi ystyriaeth dda i gyfleoedd i hyrwyddo addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF) wrth ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion. Bydd cydlynwyr llythrennedd a rhifedd yn goruchwylio'r cynllunio ar gyfer medrau ac yn gwirio am ddilyniant.

Ceir diffygion mewn ychydig o dan draean o ysgolion, lle nad yw'r cynllunio'n sicrhau bod disgyblion yn datblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd ar draws ystod eang o bynciau ac mae'r ffocws ar gyfer datblygu'r medrau hyn yn rhy gul. Yn aml, yn yr ysgolion hyn, nid yw athrawon yn defnyddio'r Fframwaith Sgiliau yn dda ar gyfer cynllunio dilyniant mewn TGCh. Mewn ychydig o ysgolion, ceir bylchau pwysig yng nghwmpas y cwricwlwm, fel mewn addysg grefyddol, ac yn aml nid yw athrawon yn talu digon o sylw i wyddoniaeth a'r celfyddydau creadigol.

Mae ychydig iawn o ysgolion o hyd nad ydynt yn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn llawn. Yn yr ysgolion hyn, mae'r dysgu yn mynd yn rhy ffurfiol yn rhy gyflym, ac nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu fel dysgwyr annibynnol nac i wneud dewisiadau ynglŷn â beth a sut maent yn dysgu. Mynediad cyfyngedig i fannau awyr agored sydd gan ychydig o ddisgyblion, a lle mae mannau awyr agored wedi'u datblygu, nid ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigon da.

Mewn llawer o ysgolion cyfrwng Saesneg, mae athrawon yn cynllunio i ddatblygu medrau disgyblion mewn Cymraeg fel ail iaith mewn gwersi Cymraeg. Fodd bynnag, mae llai o sylw'n cael ei roi i atgyfnerthu medrau llafar disgyblion a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i wersi. O ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus, ac mae'n parhau'n faes i'w wella mewn llawer o ysgolion.

## Addysgu


Ceir addysgu ac asesu da neu well mewn rhyw ddwy ran o dair o ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu. Maent yn dylunio gwersi sy'n ysgogi ac yn ennyn diddordeb disgyblion, yn aml drwy osod heriau a phroblemau diddorol. Mae athrawon a staff cymorth yn defnyddio'u harbenigedd i gydweithredu a chynllunio i gyflwyno dysgu'n fedrus. Mae athrawon yn sicrhau bod rhediad bywiog i wersi ac maent yn addasu'u cynlluniau yn ystod gwersi i ymateb i gyfleoedd i fynd â dysgu'r disgyblion ymhellach neu i feysydd cysylltiedig. Mae athrawon yn holi disgyblion yn fedrus er mwyn datblygu dealltwriaeth disgyblion.

Ceir diffygion yn yr addysgu mewn lleiafrif o ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, nid yw llawer o athrawon yn amrywio lefel yr her i fod yn addas ar gyfer grwpiau gwahanol o blant nac i wneud yn siŵr eu bod yn gwneud y cynnydd gorau posibl. Nid ydynt yn defnyddio techneg holi i ehangu dealltwriaeth disgyblion.

Yn gyffredinol, mae ansawdd yr addysgu mewn TGCh yn well yn y Cyfnod Sylfaen nag yng nghyfnod allweddol 2. Y rheswm pennaf am hyn yw bod y wybodaeth am TGCh sydd ei hangen gan ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen yn llai cymhleth na hynny sydd ei hangen yng nghyfnod allweddol 2. O ganlyniad, mae athrawon a staff yn y Cyfnod Sylfaen yn fwy hyderus i addysgu TGCh.

Mae systemau cynhwysfawr ar waith gan y rhan fwyaf o ysgolion ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion, ond nid yw lleiafrif yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi meysydd i'w gwella, yn enwedig ar gyfer

**Ffigur 2.7: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



grwpiau o ddisgyblion, fel y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn oherwydd eu bod yn tueddu canolbwyntio gormod ar ddata un flwyddyn yn hytrach na dadansoddi tueddiadau ehangach dros gyfnod. Lle mae marcio ac adborth athrawon yn arbennig o effeithiol, mae athrawon yn darparu cyngor adeiladol sy'n nodi beth mae disgyblion wedi'i wneud yn dda a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Caiff disgyblion amser i ymateb i sylwadau athrawon, ac mae athrawon yn gwirio bod disgyblion wedi gwella'r maes a nodwyd mewn gwaith dilynol. Fodd bynnag, mae pryderon a godwyd y llynedd ynglŷn ag ansawdd adborth i ddisgyblion yn parhau. Mewn ysgolion lle mae'r adborth yn aneffeithiol, nid oes cyswllt rhwng targedau disgyblion ar gyfer gwella â'u gwaith mewn gwersi, ac nid yw marcio athrawon yn ystyried y targedau hyn.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae ansawdd y gofal, cymorth ac arweiniad yn dda neu'n well mewn rhyw 93% o ysgolion. Mae trefniadau priodol gan bob ysgol bron ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, ceir ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion wneud ymarfer corff yn rheolaidd trwy wersi addysg gorfforol wedi'u hamserlennu, mynediad i amrywiaeth o offer chwarae corfforol yn ystod amser chwarae, a gweithgareddau allgyrsiol. Mae polisïau a gweithdrefnau addas gan y rhan fwyaf o ysgolion i fynd i'r afael â bwlio ac i hyrwyddo ymddygiad da. Mae hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn gryfder yn y rhan fwyaf o ysgolion.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi rhoi ffocws manwl ar wella presenoldeb disgyblion, ac yn gyffredinol mae ganddynt systemau priodol i gefnogi hyn. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn monitro pa mor effeithiol yw'r systemau hyn o ran gwella presenoldeb nac yn gweithredu'n ddigon cyflym pan fydd problemau yn codi. Mae gan nifer gynyddol o ysgolion gysylltiadau cadarn â gwasanaethau i gefnogi teuluoedd sy'n agored i niwed. Maent yn helpu teuluoedd i ddeall beth mae eu plentyn yn ei wneud yn yr ysgol a sut gallant ei helpu. Maent hefyd yn eu gwneud yn ymwybodol o bwysigrwydd presenoldeb da. Mae gweithdrefnau priodol gan y rhan fwyaf o ysgolion i nodi a chefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn rhoi gwybodaeth gyson i rieni am dargedau a chynnydd eu plentyn, ac yn defnyddio gwasanaethau allanol i gael cyngor arbenigol. Fel y llynedd, mae trefniadau addas gan bron pob ysgol ar gyfer diogelu disgyblion.

## Yr amgylchedd dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn groesawgar a chynhwysol. Mae staff yn rhoi ystyriaeth dda i anghenion unigol disgyblion ac yn sicrhau eu bod yn cael mynediad cyfartal i bob cyfle. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn pwysleisio pwysigrwydd dathlu amrywiaeth drwy'r cwricwlwm, drwy wasanaethau ac mewn arddangosiadau sy'n cydnabod cyflawniadau disgyblion ac yn gwella eu dysgu am ddiwylliannau gwahanol.

Ceir amgylcheddau dysgu da neu well yn y rhan fwyaf o ysgolion. Lle mae cyfyngiadau o ran maint a dyluniad, mae staff yn aml yn defnyddio gofod ychwanegol yn greadigol i ddatblygu meysydd dysgu neu i drefnu a storio offer fel ei fod ar gael i ddisgyblion. Nid oes mynediad hawdd i fannau awyr agored o ystafelloedd dosbarth y Cyfnod Sylfaen mewn ychydig o ysgolion, ac mae hyn yn cyfyngu ar ddewisiadau disgyblion ynglŷn â sut yr hoffent ddysgu a beth yr hoffent ei ddysgu.

**Drama mewn ysgrifennu**

Mae **Ysgol Gynradd Santes Gwladys Bargoed** wedi defnyddio proses a thechnegau drama er mwyn symbylu siaradwyr, darllenwyr ac ysgrifenwyr mewn gwersi. Mae'r holl staff wedi ennill gwybodaeth am amrywiaeth o dechnegau drama, y maent wedi'u hintegreiddio i wersi er mwyn ennyn diddordeb disgyblion, a'u helpu i lywio cynnwys eu hysgrifennu.

I gael mwy o wybodaeth, cliciwch ar yr astudiaeth achos

# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Ysgolion cynradd

Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda neu'n well mewn saith o bob deg ysgol. Mae hyn yr un fath â'r llynedd.

## Arweinyddiaeth

Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle mae'r arweinyddiaeth yn rhagorol, mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn cytuno ar gyfeiriad strategol clir. Maent yn sefydlu gweledigaeth ar sail gwelliant parhaus ymhlith staff ac yn rhannu hyn yn effeithiol gyda'r rhieni a chymuned yr ysgol. Maent yn creu ethos lle mae staff yn cydweithio a lle mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain a'u disgyblion. Mae disgyblion yn cyfrannu'n dda at wella'r ysgol ac mae arweinwyr yn ystyried eu barnau. Mae staff yn dadansoddi gwybodaeth am berfformiad disgyblion yn systematig, ac mae monitro safonau yn rheolaidd a chadarn yn llywio cynllunio gwelliant. Mae'r arweinyddiaeth ar bob lefel yn arbennig o gadarn, gan sicrhau bod staff yn gwybod beth a ddisgwylir ganddynt a chan feithrin diwylliant cadarn o atebolrwydd. Mae'r pennaeth yn adeiladu gallu pob aelod o staff i arwain drwy ddarparu cyfleoedd i staff llai profiadol gysgodi'r rheini sydd mewn rolau rheoli neu gydlynu.

Lle mae'r arweinyddiaeth yn dda o leiaf, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn herio ac yn cefnogi'u cydweithwyr i yrru gwelliant yn ei flaen. Maent yn modelu addysgu da neu ragorol eu hunain, ac yn mynd i'r afael â thanberfformiad yn yr addysgu a safonau. Mae ysgolion da yn rhannu rolau arweinyddiaeth ymhlith staff ar bob lefel er mwyn datblygu medrau arwain ymhlith mwy o ymarferwyr. Maent yn diffinio rolau arweinyddiaeth yn glir ac yn canolbwyntio'r rhain ar wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Fodd bynnag, weithiau bydd penaethiaid yn ymgymryd â gormod o fentrau newydd ar yr un pryd, ac nid oes angen i bob un ohonynt fod yn flaenoriaethau ar gyfer eu hysgol. Hefyd, mewn ychydig o ysgolion, mae penaethiaid yn dibynnu'n rhy drwm ar un ateb i fater cymhleth, er enghraifft defnyddio un cynllun cyhoeddedig sy'n hyrwyddo llythrennedd neu rifedd, ond sy'n culhau'r cwricwlwm. Mae penaethiaid cadarnach yn gwrthsefyll y pwysau hwn, yn canolbwyntio ar y meysydd sydd angen y gwelliant mwyaf, ac yn sicrhau bod y cwricwlwm yn eang a chytbwys. Mae trefniadau priodol gan y rhan fwyaf o ysgolion i reoli perfformiad staff. Ychydig sy'n defnyddio rheoli perfformiad i ddatblygu medrau darpar arweinwyr, fodd bynnag.


Mae argymhelliad i wella gwaith y corff llywodraethol gan ychydig dros chwarter yr ysgolion a arolygwyd. Erbyn hyn, mae llawer o lywodraethwyr yn darparu mwy o her i arweinwyr ysgolion nag yn y gorffennol, ond mae gwella gallu cyrff llywodraethol i herio arweinwyr ysgolion yn parhau'n argymhelliad mewn rhyw 15% o ysgolion. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw llywodraethwyr yn cael eu cynnwys ddigon yn yr hunanarfarnu a chynllunio gwelliant, nac wrth bennu cyfeiriad strategol yr ysgol.

## Gwella ansawdd

Mae prosesau effeithiol ar gyfer gwella ansawdd gan fwyafrif o ysgolion, ac mae'r blaenoriaethau a nodir mewn cynlluniau datblygu ysgolion yn cael eu cysylltu'n well â chanfyddiadau hunanarfarnu. Mae hunanarfarnu'n fwyaf effeithiol pan fydd yn broses barhaus ac nid yn broses sy'n cael ei chyflawni ar gyfer arolygiad yn unig. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae'r hunanarfarnu yn canolbwyntio gormod ar ddarpariaeth a chynlluniau yn hytrach na safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Er enghraifft, mae ysgolion yn ystyried sut mae athrawon ym marcio llyfrau yn lle ystyried y gwahaniaeth y mae marcio'n ei wneud i'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni.

Mae llawer o ysgolion yn defnyddio ystod eang o ddata i ddadansoddi perfformiad disgyblion ac i olrhain eu cynnydd. Mae mwy o ysgolion yn defnyddio data'n effeithiol i olrhain cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion, ond nid yw hyn wedi'i ddatblygu'n ddigonol o hyd mewn ychydig o ysgolion. Lle mae dadansoddi data perfformiad yn fwyaf effeithiol, mae'n codi cwestiynau ac yn llywio barn ynglŷn â pha mor dda y mae'r ysgol yn gwneud, yn ogystal ag ychwanegu at ystod o dystiolaeth uniongyrchol ar safonau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth.

**Ffigur 2.8: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**



## Gweithio mewn partneriaeth

Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion bartneriaethau cadarn â rhieni ac maent yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol iddynt am weithgareddau'r ysgol, a hynny drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn gynyddol. Mae ychydig o ysgolion yn darparu cyfleoedd i rieni gyfranogi mewn gwersi ochr yn ochr â'u plant er mwyn cael gwell dealltwriaeth o beth maent yn ei ddysgu a sut maent yn dysgu. Mae gan lawer o ysgolion bartneriaethau llwyddiannus gyda chwmnïau a sefydliadau lleol sy'n gwella'r cwricwlwm ac yn cynnig cyd-destunau pwrpasol ar gyfer dysgu, fel ymweld â bwyty i ddysgu ynglŷn â diogelwch bwyd a bwyta'n iach. Mae bron pob ysgol yn cysylltu ag ysgolion uwchradd lleol i gynorthwyo disgyblion wrth iddynt drosglwyddo i'w cyfnod dysgu nesaf. Dim ond ychydig o ysgolion sy'n gofyn i ddisgyblion arfarnu effeithiolrwydd y broses hon.

## Rheoli adnoddau

Mae rhyw ddwy ran o dair o ysgolion yn cynnig gwerth da neu well am arian. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn defnyddio staff yn dda, ac mae gan athrawon a staff cymorth rolau sy'n gwneud y defnydd gorau o'u harbenigedd a'u profiad. Fel arfer, mae trefniadau addas gan ysgolion ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon, ac mewn llawer o achosion, mae hyn yn helpu athrawon sy'n addysgu grwpiau oedrannau tebyg i gynllunio gyda'i gilydd. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn nodi ac yn bodloni anghenion datblygu staff ac yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau gwella ysgolion. Ceir ystod eang o adnoddau dysgu o ansawdd da, ac mae staff yn defnyddio'r adeiladau yn dda i wella dysgu disgyblion. Mae rhwydweithiau o arfer broffesiynol yn canolbwyntio ar wella'r addysgu a'r dysgu. Caiff dyrannu adnoddau ariannol ei gysylltu'n agos â blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol ac ag anghenion datblygiad proffesiynol staff. Yn y lleiafrif o ysgolion lle mae rheoli adnoddau yn llai effeithiol, nid yw arweinwyr a rheolwyr yn mesur effaith cynlluniau gwariant ar ddeilliannau disgyblion.

Mae arweinwyr mewn llawer o ysgolion cynradd yn defnyddio'r cyllid sydd ar gael drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) yn dda. Maent yn cynllunio ac yn gwario'r arian ar amrywiaeth o strategaethau sy'n gwella cynnydd, cyrhaeddiad a lles disgyblion difreintiedig. Fel arfer, mae staff dynodedig mewn rolau arwain yn cydlynu ac yn arfarnu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion difreintiedig. Mae arweinwyr mewn ychydig o ysgolion sy'n gwneud defnydd rhagorol o'r cyllid hwn yn sicrhau bod bron yr holl ddisgyblion difreintiedig, gan gynnwys y rhai mwy abl, yn gwneud cynnydd. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw arweinwyr yn cynllunio nac yn arfarnu effaith mentrau ar ddeilliannau disgyblion yn ddigon da. Gwneir defnydd gwael o'r cyllid gan ychydig iawn o ysgolion. Er enghraifft, maent yn ei ddefnyddio i gynnal lefelau staffio, gyda'r grant yn cael fawr o effaith, neu ddim effaith o gwbl, ar y disgyblion a ddylai gael budd ohono.

### Cynnwys disgyblion ym mholisïau'r ysgol

Mae **Ysgol Gynradd Sirol Llanmiloe**, Sir Gaerfyrddin yn cynnwys pob disgybl ym mhroses hunanarfarnu'r ysgol. Rhoddir cyfle i ddisgyblion gyfrannu eu meddyliau ar bolisïau'r ysgol, ac maent wedi helpu i greu 'Polisi Gwrthfwlio'r Disgyblion'. Mae plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu.

I gael mwy o wybodaeth, cliciwch ar yr astudiaeth achos

### Arsylwi cymheiriaid

Mae **Ysgol Gynradd Romilly** wedi sefydlu Prosiect Arsylwi Cymheiriaid sy'n galluogi athrawon i arsylwi gwersi a gyflwynir gan eu cydweithwyr. Ar ôl amlygu maes sy'n cael ei ystyried yn wendid mewn grŵp blwyddyn, mae athrawon yn cyd-gynllunio gwers sydd ar ddod, ac yna'n ei harsylwi wrth i'r wers gael ei chyflwyno, cyn rhoi adborth ffurfiol. Mae hyn wedi sicrhau mwy o gysondeb wrth gyflwyno gwersi ar draws dosbarthiadau.

I gael mwy o wybodaeth, cliciwch ar yr astudiaeth achos

# Gweithgarwch dilynol: Ysgolion cynradd

## Ysgolion cynradd

Yn ystod 2014-2015, fe wnaethom ailymweld â'r holl ysgolion cynradd yr oedd angen rhoi mesurau arbennig ar waith ynddynt neu angen gwelliant sylweddol arnynt yn 2013-2014. Mae arolygwyr wedi tynnu pob un o'r ysgolion hyn o'r categori gweithgarwch dilynol pellach. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yr oedd angen eu monitro gan Estyn yn dilyn arolygiad yn 2013-2014 wedi gwneud cynnydd da ac nid oes angen gweithgarwch dilynol arnynt mwyach. Nid yw ychydig iawn o ysgolion cynradd yr oedd angen eu monitro gan Estyn yn ystod 2013-2014 wedi gwneud digon o gynnydd. Mae angen gwelliant sylweddol arnynt erbyn hyn. Mae ychydig o ysgolion cynradd y nodwyd bod angen monitro gan eu hawdurdod lleol arnynt yn 2013-2014 wedi gwneud cynnydd araf hefyd, yn enwedig o ran gwella presenoldeb disgyblion, ac mae angen eu monitro o hyd.

Mae **Ysgol Gynradd Rogerstone** yn awdurdod lleol Casnewydd. Yn Rhagfyr 2013, barnodd arolygwyr fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol. Yn Chwefror 2015, canfu arolygwyr fod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da iawn ac nid oes angen ei monitro mwyach.

Un ffactor allweddol yng nghynnydd yr ysgol fu sefydlogrwydd y cyfrifoldebau arwain a rheoli, gan alluogi arweinwyr ac athrawon i ddatblygu'u rolau yn dda. Mae'r systemau sydd wedi'u hailfodelu ar gyfer hunanarfarnu a gwella'r ysgol yn rhai cadarn, ac erbyn hyn mae arweinwyr a staff yn deall cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu.

Ceir amserlen asesu flynyddol glir. Mae athrawon yn gweithio gyda staff o ysgolion eraill i safoni a chymedroli gwaith disgyblion, gan ddefnyddio portffolios o waith wedi'i lefelu i sicrhau barnau dibynadwy a dilys. Mae rhagfynegiadau athrawon o'r hyn y bydd disgyblion yn ei gyflawni yn realistig ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Mae gan athrawon ddarlun cywir o'r hyn y gall disgyblion ei wneud, a disgwyliadau clir o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni.

Mae timau cwricwlwm ar draws cyfnodau ar gyfer llythrennedd, rhifedd a TGCh yn galluogi staff i rannu'r cyfrifoldeb ar gyfer gwella'r ysgol. Mae cynlluniau tymor byr yn darparu dull cydlynus a chynyddol o ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion. Mae gweithgareddau'r tîm cwricwlwm yn galluogi staff i ddatblygu a mireinio'u medrau arwain, a helpu i godi morâl y staff.

Mae'r ysgol wedi codi proffil y Gymraeg gryn dipyn ar draws yr ysgol. Mae disgyblion yn mwynhau gwersi Cymraeg, maent yn gwneud cynnydd da wrth siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg, ac yn defnyddio'r iaith yn hyderus o amgylch yr ysgol.

Erbyn hyn, mae disgyblion yn defnyddio tir helaeth yr ysgol yn effeithiol i fwynhau amrywiaeth o gyfleoedd chwarae mewn amgylchedd diogel. Mae disgyblion yn cydnabod bod newidiadau wedi arwain at amserau chwarae hapusach.

I gael mwy o wybodaeth, cliciwch ar adroddiad yr ymweliad monitro







# Adran 2: Adroddiad sector
## Ysgolion uwchradd

Yn Ionawr 2015, roedd 207 o ysgolion uwchradd yng Nghymru, sef chwech yn llai nag yn Ionawr 2014. Mae nifer y disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn parhau i ostwng. Yn Ionawr 2015, y nifer ar y gofrestr oedd 182,408, sef gostyngiad o ryw 4,000 o ddisgyblion o'r flwyddyn flaenorol. Eleni, fe wnaethom arolygu 37 o ysgolion uwchradd.

# Crynodeb: Ysgolion uwchradd

Gwelwyd polareiddio mewn canlyniadau arolygu eleni. Roedd cynnydd yn y gyfran o ysgolion rhagorol, a'r ysgolion â barnau anfoddhaol.

Yn 2014-2015, barnwyd bod deilliannau rhagorol gan un o bob chwe ysgol (16%). Dyma'r gyfran uchaf er 2010. Nododd arolygwyr arfer ragorol mewn 38% o ysgolion uwchradd a arolygwyd eleni. Mae hyn 13 pwynt canran yn uwch na'r llynedd. Barnwyd bod arweinyddiaeth ragorol mewn rhyw un o bob pedair ysgol a arolygwyd eleni. Yn yr ysgolion hyn, mae uwch arweinwyr wedi sefydlu ymdeimlad o uchelgais a balchder, ac ethos o gydweithredu, cefnogaeth ac ymddiriedaeth. Mae arweinwyr ar bob lefel yn gwneud gwella addysgu yn flaenoriaeth allweddol.

Fe wnaeth nifer yr ysgolion yr oedd angen eu monitro gan Estyn ostwng o 17 y llynedd i 13 eleni. Mae perfformiad gwael gan y rhan fwyaf o'r ysgolion hyn mewn un neu fwy o'r pynciau craidd. Yn yr ysgolion hyn, mae'r addysgu a'r asesu yn effeithiol yn gyffredinol, ond mewn lleiafrif o achosion, mae diffygion pwysig ac mae disgyblion yn gwneud llai o gynnydd nag y gallent ei wneud, yn enwedig mewn mathemateg, Saesneg neu Gymraeg. Mewn llawer o'r ysgolion hyn, mae arweinwyr yn dechrau mynd i'r afael â'r diffygion hyn, ond nid ydynt yn cymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg.


Eleni, cafodd 10 o ysgolion eu gosod mewn categori statudol o gymharu ag un y llynedd. Barnwyd bod angen gwelliant sylweddol mewn chwe ysgol, a rhoddwyd pedair ysgol yn y categori mesurau arbennig. Mae diffygion pwysig gan bob un o'r ysgolion hyn yn eu prosesau gwella ansawdd.

I gael mwy o fanylion am y canfyddiadau arolygu ar gyfer pob sector, ewch i data.estyn.llyw.cymru





**Ffigur 2.9: Canrannau ysgolion uwchradd mewn lefelau gweithgarwch dilynol**



# Deilliannau: Ysgolion uwchradd

## Safonau

Mae safonau'n dda neu'n well mewn dwy o bob pum ysgol uwchradd. Mae'r ffigur hwn yn is nag ydoedd y llynedd.

Mae cynnydd yng nghyfran yr ysgolion lle barnodd arolygwyr bod safonau'n rhagorol. Mewn ysgolion lle mae safonau'n rhagorol, mae disgyblion o bob gallu yn gwneud cynnydd da iawn wrth ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Maent yn datblygu eu gwybodaeth bynciol yn dda ac yn cymhwyso'r wybodaeth hon yn ystyrlon i wneud rhagfynegiadau, llunio casgliadau a datblygu cyfatebiaethau. Yn yr ysgolion hyn, mae perfformiad disgyblion mewn arholiadau (yn cynnwys mewn Saesneg neu Gymraeg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 4) ymhell uwchlaw'r disgwyliadau yn gyson. Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn well nag mewn ysgolion tebyg, ac mae bechgyn a merched yn perfformio'n well na disgyblion mewn ysgolion tebyg. Fodd bynnag, dim ond mewn ychydig o'r ysgolion hyn y mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau TGCh yn dda ar draws y cwricwlwm.


Mewn llawer o'r ysgolion eraill a arolygwyd eleni, mae disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig at ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol ar draws y cwricwlwm. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn mynegi'u syniadau yn glir ac yn ysgrifennu'n gywir gan mwyaf. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud gormod o gamgymeriadau sylfaenol mewn sillafu, atalnodi a gramadeg. Yn gyffredinol, nid yw bechgyn yn ysgrifennu gystal â merched. Nid ydynt yn mynegi'u hunain mor glir ac maent yn tueddu cynhyrchu ymatebion byrrach, wedi'u strwythuro'n wael, i dasgau ysgrifenedig. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn cynnig atebion byr, heb eu datblygu'n ddigonol yn unig i gwestiynau llafar eu hathrawon. Mae'r diffyg hwn yn tueddu bod yn fwy cyffredin ymhlith merched na bechgyn. Yn y mwyafrif o'r ysgolion hyn, mae llawer o ddisgyblion yn ddarllenwyr cymwys, ond mae diffyg hyder ymhlith lleiafrif, yn enwedig bechgyn, ac maent yn darllen heb lawer o fynegiant.

Mewn ychydig dros hanner yr ysgolion, mae disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn dda mewn cyd-destunau priodol ar draws y cwricwlwm. Yn y gweddill, nid yw disgyblion yn defnyddio'u rhifedd yn ddigon aml nac mewn cyd-destunau heriol mewn pynciau heblaw am fathemateg. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae gan ddisgyblion afael gwael ar fedrau rhifedd sylfaenol, fel lluosi, gwneud mesuriadau cywir a defnyddio degolion a ffracsiynau. Yn yr ysgolion hyn, mae perfformiad disgyblion mewn arholiadau yn gyson islaw'r perfformiad mewn ysgolion tebyg eraill, oherwydd cynnydd gwannach mewn mathemateg yn aml.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddefnyddwyr TGCh brwd ac yn gyffredinol maent yn dysgu sut i ddefnyddio meddalwedd anghyfarwydd yn gyflym. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfle i ddatblygu'u medrau TGCh mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion yn tueddu defnyddio medrau lefel isel, fel prosesu geiriau neu gynhyrchu cyflwyniadau sleidiau syml.

Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau. Mae llawer o ddisgyblion sydd ag anawsterau penodol mewn darllen, llythrennedd neu rifedd yn datblygu'r medrau hyn yn dda pan gânt eu dewis i weithio am gyfnod cyfyngedig mewn grwpiau ar wahân. Mae'r rhan fwyaf wedyn yn cymhwyso ac yn gwella'u medrau darllen wrth fynd yn ôl i wersi prif ffrwd, gan ddal i fyny â disgyblion eraill o'r un oed. Fodd bynnag, mae ysgrifennu yn parhau'n wendid yn aml i lawer o'r disgyblion hyn.

**Ffigur 2.10: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



Yn y mwyafrif o ysgolion da, mae perfformiad a chynnydd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cymharu'n dda yn gyffredinol â'r rheini o'r un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud digon o gynnydd ac nid ydynt yn perfformio cystal â disgyblion mewn ysgolion tebyg mewn dangosyddion arholiadau sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg.

Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhugl yn Gymraeg a defnyddiant yr iaith yn dda mewn gwersi, er nad yw lleiafrif o ddisgyblion bob amser yn defnyddio'u Cymraeg ar draws y cwricwlwm neu y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, mae safonau mewn Cymraeg yn gwella'n araf yng nghyfnod allweddol 3, ond o sylfaen isel. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn ymarfer eu Cymraeg yn ddigon aml y tu allan i wersi Cymraeg i fagu'r hyder i ddefnyddio'r iaith.

## Lles

Mewn rhyw ddwy ran o dair o ysgolion, mae lles yn dda neu'n well.

Yn yr ychydig ysgolion lle mae lles yn rhagorol, mae disgyblion yn mwynhau'r ysgol, ac mae presenoldeb yn cymharu'n dda â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg. Mewn llawer o'r ysgolion hyn, mae disgyblion yn mynegi'u barnau yn rheolaidd ar agweddau ar hyfforddi a dysgu. Caiff disgyblion eu cynnwys mewn penderfyniadau ynglŷn â sut maent yn dysgu a beth maent yn ei ddysgu, ac mae hyn yn cynyddu eu hymgysylltiad â dysgu. Fodd bynnag, mewn mwyafrif o ysgolion, nid yw disgyblion yn cael mewnbwn sylweddol i ddatblygu'r addysgu a'r dysgu.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dealltwriaeth o sut i fwyta'n iach ac o bwysigrwydd ymarfer corff er mwyn byw bywyd iach. Ceir lefel uchel o gyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol mewn llawer o ysgolion. Fodd bynnag, mae'r cyfranogiad yn lleihau wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn eu cymuned leol ac yn codi arian at elusennau.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol. Maent yn cyrraedd eu gwersi'n brydlon a dim ond ychydig iawn sy'n dangos agweddau negyddol at eu gwaith neu'n tarfu ar ddysgu disgyblion eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer o'r farn fod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae llawer o ddisgyblion yn gwrtais, yn ystyriol ac yn barchus tuag at ei gilydd a'u hathrawon.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd. Parhau i wella y mae'r cyfraddau presenoldeb ac mae'r amrywio mewn presenoldeb rhwng ysgolion yn dal i leihau. Mewn llawer o ysgolion, mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwella, er bod bwlch o ryw bum pwynt canran o hyd rhwng y grŵp hwn o ddisgyblion a disgyblion eraill. Mae argymhellion i wella presenoldeb gan leiafrif o ysgolion.

**Mentrau cyngor ysgol**

Mae **Ysgol Uwchradd Aberteifi** wedi dangos ethos cynhwysol trwy weithgareddau cyngor yr ysgol. Mae'r cyngor yn ymgymryd yn rheolaidd â phrosiectau ar agweddau ar ddarpariaeth yr ysgol, yn darparu barnau disgyblion ar strategaethau addysgu, yn adolygu ansawdd marcio ac adborth, ac yn codi ymwybyddiaeth o bob math o fwlio, gan weithio'n agos â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

I gael mwy o wybodaeth, cliciwch ar yr astudiaeth achos

# Darpariaeth: Ysgolion uwchradd

Mae darpariaeth yn dda neu'n well mewn rhyw hanner yr ysgolion uwchradd a arolygwyd eleni. Mae hon yn gyfran is na'r llynedd yn bennaf oherwydd diffygion yn y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion ac anghysondeb yn ansawdd yr addysgu neu'r asesu.

## Profiadau dysgu

Mae ychydig o ysgolion yn cynnig profiadau dysgu eithriadol i ddisgyblion. Caiff trefniadau cwricwlwm arloesol effaith sylweddol ar ansawdd ac ehangder darpariaeth, ar ddatblygu medrau disgyblion, ac ar eu hagweddau at ddysgu a deilliannau. Mae'r arloesi hwn yn cynnwys gwersi ar wahân sy'n canolbwyntio ar elfennau o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a chyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau estynedig sy'n ennyn eu diddordeb.

Mae cynlluniau addas gan ryw hanner o ysgolion i ddatblygu llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Hefyd, mae'r ysgolion hyn yn darparu cymorth buddiol i ddisgyblion sy'n cael anawsterau â'r medrau hyn. Mewn bron hanner o ysgolion, fodd bynnag, mae'r cynllunio a'r cydlynu ar gyfer dilyniant mewn llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm yn wan. Yn aml, mae gweithgareddau wedi'u cynllunio yn cynnig lefel her isel iawn, er enghraifft tasgau lle maent yn copïo testun, yn gwneud cyfrifiadau syml neu'n torri a gludo yn hytrach na dadansoddi a chrynhoi gwybodaeth.

Yn y mwyafrif o ysgolion, mae datblygiad medrau TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm yn fylchog ac wedi'i gydlynu'n wael. Dim ond ychydig iawn o ysgolion sydd wedi coleddu'r defnydd o dechnolegau newydd, fel cyfrifiaduron llechen, ar draws y cwricwlwm.

Yn y mwyafrif o ysgolion cyfrwng Saesneg, er bod agweddau cadarnhaol gan lawer o ddisgyblion at ddysgu Cymraeg, nid oes digon o gyfleoedd wedi'u cynllunio i ddatblygu'u hyder yn siarad yr iaith.

Nid yw ychydig o ysgolion dwyieithog yn gwneud yn siŵr bod disgyblion a ddysgodd yn flaenorol trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 yn parhau i wneud digon o gynnydd mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 4. Hefyd, nid ydynt yn hyrwyddo'r defnydd cymdeithasol o'r iaith yn ddigon da. Yn y mwyafrif o ysgolion cyfrwng Saesneg, er bod agweddau cadarnhaol gan lawer o ddisgyblion at siarad Cymraeg, nid oes digon o gynllunio i ddatblygu'u hyder yn siarad yr iaith.

Mae llawer o ysgolion yn cynnig ystod eang o gyrsiau i fodloni diddordebau'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ogystal ag ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Cynigir darpariaeth addas yn y rhan fwyaf o ysgolion ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.


## Addysgu

Ceir addysgu da neu well mewn rhyw hanner o ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, mae amcanion dysgu clir gan athrawon ar gyfer eu gwersi, ac maent yn cynllunio i sicrhau rhediad addas ac amrywiaeth o weithgareddau. Defnyddiant wybodaeth asesu i sicrhau bod gweithgareddau yn bodloni anghenion disgyblion ar draws yr ystod gallu. Maent yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus ac yn rhoi adborth buddiol iddynt fel eu bod yn deall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle ceir addysgu rhagorol, mae athrawon yn creu awyrgylch lle mae disgyblion yn teimlo'n hyderus i fentro a dysgu o'u camgymeriadau. Caiff gwersi eu cynllunio'n ofalus iawn i ddarparu lefelau uchel o her. Mae athrawon yn cipio diddordeb disgyblion gyda gweithgareddau dychmygus a pherthnasol. Gofynnant gwestiynau treiddgar a heriol sy'n annog disgyblion i ddod yn ddysgwyr chwilfrydig ac annibynnol.

Mewn rhyw hanner o ysgolion, mae ansawdd yr addysgu yn anghyson ac nid yw gweithgareddau'n ddigon heriol. Mewn rhyw hanner y gwersi, nid yw athrawon yn addasu gwaith i ymestyn disgyblion mwy abl nac i gynorthwyo'r rhai is eu gallu. Yn aml, mae rhediad gwersi yn rhy araf. Mae holi gan athrawon yn rhy arwynebol ac yn canolbwyntio gormod ar gofio ffeithiau. Mae ychydig o athrawon yn cynnig gormod o gyfeiriad ac esboniadau i ddisgyblion, yn hytrach na'u hannog i feddwl drostynt eu hunain.

**Ffigur 2.11: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



Mewn rhyw hanner o ysgolion, mae athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig a llafar defnyddiol i ddisgyblion ynglŷn â'u gwaith. Maent yn talu sylw manwl i fedrau pwnc, eglurder mynegiant a chywirdeb yr ysgrifennu. Mae ychydig o athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion wella eu gwaith drwy ailddrafftio neu gwblhau tasgau tebyg yng ngolau eu hadborth. Fodd bynnag, ceir diffygion pwysig ac anghysonderau mewn asesu yn yr ysgolion sy'n weddill. Er bod y marcio'n cael ei wneud yn gyson, mae'n aml yn rhy arwynebol ac nid yw'n rhoi digon o arweiniad i ddisgyblion ar sut i wella. Mae disgwyliadau ynglŷn â'r modd y dylai disgyblion ymateb i'r marcio yn aneglur ac anghyson ar draws adrannau.

Ceir systemau cadarn ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion mewn mwyafrif o ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn monitro cynnydd disgyblion yn fanwl ac yn gwneud yn siŵr bod cymorth ar gael i'r rhai sy'n cael anawsterau gyda llythrennedd a rhifedd neu sy'n tanberfformio. Mewn rhyw hanner o ysgolion, mae arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth olrhain yn dda i fonitro perfformiad grwpiau gwahanol o ddisgyblion ac i gynllunio i fynd i'r afael â'u hanghenion. Mewn lleiafrif o ysgolion, fodd bynnag, nid yw gwybodaeth sy'n cael ei bwydo i mewn i systemau olrhain yn ddigon cywir i alluogi athrawon ac arweinwyr i fonitro perfformiad.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae trefniadau sydd wedi'u sefydlu'n dda gan fwyafrif o ysgolion i sicrhau bod disgyblion yn ddiogel a'u bod yn cael cymorth ac arweiniad buddiol. Mae'r ysgolion hyn yn arbennig o lwyddiannus yn helpu disgyblion sy'n cael anawsterau, neu'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol neu sy'n ddifreintiedig. Mae llawer o ysgolion wedi datblygu ystod eang o bartneriaethau allanol i gynorthwyo disgyblion a sicrhau y gallant fynd at asiantaethau cymorth allanol neu gael cyngor ac arweiniad pwrpasol. Mewn ychydig o ysgolion, ceir cymorth wedi ei dargedu effeithiol iawn ar gyfer y disgyblion mwyaf agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys ystod gynhwysfawr o gymorth personol, yn ogystal â phrofion diagnostig i nodi ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae systemau addas gan lawer o ysgolion i nodi disgyblion y mae angen cymorth arnynt. Maent yn darparu cyngor ac arweiniad buddiol, ac yn cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni neu ofalwyr. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw cynlluniau addysgol unigol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn rhoi digon o arweiniad i athrawon ynglŷn ag anghenion penodol disgyblion nac yn nodi strategaethau defnyddiol ynglŷn â sut i'w cynorthwyo mewn dosbarthiadau prif ffrwd.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion trwy wasanaethau a chyfnodau tiwtor dosbarth. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw amser tiwtor dosbarth yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac nid yw gweithgareddau'n ennyn diddordeb disgyblion. Yn unol â'r hyn a adroddom y llynedd, mae trefniadau addas gan y rhan fwyaf o ysgolion ar gyfer diogelu disgyblion. Mewn ychydig iawn o ysgolion, nid yw'r trefniadau hyn yn ddigon cynhwysfawr i fynd i'r afael â bwlio ac unrhyw ymddygiad gwael.

## Yr amgylchedd dysgu

Mae llawer o ysgolion yn darparu amgylchedd dysgu cynhwysol lle caiff disgyblion eu hannog i gyfranogi ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'r ysgolion hyn yn dweud yn glir fod disgyblion yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr a'u bod yn disgwyl i bawb lwyddo. Maent yn darparu awyrgylch ysgogol a gofalgar, lle mae disgyblion yn ffynnu ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w gilydd ac i staff. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r adeiladau yn ysgogol, yn ddeniadol ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Nid yw ychydig o ysgolion wedi llwyddo i sicrhau bod pob disgybl yn rhannu ymdeimlad o berthyn neu'n deall gwerth gweithio'n galed. Mae gan yr ysgolion hyn ddisgwyliadau isel o'r safonau, yr ymddygiad a'r presenoldeb a fynnir gan ddisgyblion. Mewn ychydig iawn o ysgolion, ceir materion iechyd a diogelwch yn ymwneud ag adeiladau a thir yr ysgol. Mae'r diffygion hyn yn cynnwys trefniadau annigonol i fonitro sut a phryd y bydd disgyblion hŷn yn gadael safle'r ysgol yn ystod y diwrnod ysgol, a phryderon ynglŷn â diogelwch safle.

**Mae arferion addysgu yn creu profiadau dysgu o ansawdd uchel**

Mae **Ysgol Stanwell** yn canolbwyntio ar greu hinsawdd o barch at ei gilydd rhwng athrawon a disgyblion. Mae disgwyliadau uchel gan yr ysgol, ac mae hyn wedi rhoi hwb i gyfraddau llwyddo ar draws y cwricwlwm ar gyfer yr holl grwpiau o ddysgwyr.

I gael mwy o wybodaeth, cliciwch ar yr astudiaeth achos

# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Ysgolion uwchradd

## Arweinyddiaeth

Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda neu'n well mewn 43% o'r ysgolion a arolygwyd eleni.

Lle mae'r arweinyddiaeth yn rhagorol, mewn rhyw chwarter o ysgolion, mae penaethiaid ac uwch arweinwyr yn darparu gweledigaeth a chyfeiriad strategol clir. Maent yn hyrwyddo ymdeimlad ar y cyd o uchelgais mewn ethos o gydweithredu, cefnogaeth ac ymddiriedaeth. Mae arweinwyr ar bob lefel yn gwneud gwella addysgu yn flaenoriaeth allweddol wrth sicrhau deilliannau rhagorol. Maent yn herio ac yn cefnogi staff i wella trwy drefniadau rheoli perfformiad clir. Mae arweinyddiaeth mentrau yn aml yn cael ei rhannu'n eang ymhlith staff, gan hyrwyddo ymdeimlad cryf o waith tîm. Nodwedd allweddol arall yw cysondeb mewn arweinyddiaeth.

Fodd bynnag, digonol ar y gorau yw'r arweinyddiaeth mewn bron i dair o bob pum ysgol. Yn yr ysgolion hyn, nid yw cyfrifoldebau'n cael eu dosbarthu'n effeithiol ymhlith staff yn aml. Mae cofnodion o gyfarfodydd uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn amrywio o ran manylder ac ansawdd, gan gyfyngu ar allu arweinwyr i fonitro gwaith a sicrhau atebolrwydd. Mewn lleiafrif o achosion, mae cyfarfodydd yn canolbwyntio ar faterion gweinyddol yn bennaf, yn hytrach nag ar wella'r addysgu a'r dysgu, ac nid yw pwyntiau gweithredu clir yn cael eu nodi. Nid yw data perfformiad a gwybodaeth o arsylwadau o wersi yn cael eu defnyddio i fonitro cynnydd nac i wella'r addysgu a safonau. Mewn ychydig o ysgolion, yn lle cynllunio i wella'r dysgu mewn gwersi, mae arweinwyr yn trefnu gwersi ychwanegol a sesiynau adolygu.

Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae'r arweinyddiaeth yn anfoddhaol. Mae hyn oherwydd diffyg cyfeiriad, ffocws annigonol ar agweddau pwysig y mae angen eu gwella a diffyg gweithdrefnau i ddwyn staff i gyfrif am safonau ac addysgu.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth glir o'u rôl mewn llawer o ysgolion. Maent yn cydnabod pwysigrwydd herio arweinwyr i hyrwyddo safonau uchel a gwella'r addysgu ac asesu. Mae llawer o gyrff llywodraethol wedi datblygu cysylltiadau ag adrannau pwnc sy'n eu galluogi i gael dealltwriaeth well o'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw llywodraethwyr yn gwybod digon am arwyddocâd data perfformiad, ac nid ydynt yn herio arweinwyr ddigon.

## Gwella ansawdd


Er bod gwella ansawdd yn rhagorol mewn rhyw un o bob pum ysgol, mae diffygion pwysig gan dros hanner o ysgolion. Mewn dros chwarter ohonynt, mae'n anfoddhaol. Yn yr ysgolion hyn, yn aml gwnaed newidiadau yn ddiweddar i bolisïau a gweithdrefnau, ac mae ffyrdd newydd o weithio nad ydynt wedi cael digon o amser i effeithio ar addysgu a dysgu.

Yn yr ychydig ysgolion lle mae gwella ansawdd yn rhagorol, mae arweinwyr wedi sefydlu prosesau systematig a thrylwyr i alluogi staff ar bob lefel i adolygu cryfderau a nodi meysydd i'w gwella. Mae hyn yn cynnwys trefniadau cynhwysfawr i arweinwyr graffu ar waith disgyblion a chymharu'u canfyddiadau â gwybodaeth o arsylwadau o wersi a data perfformiad. Mae arweinwyr yn deall ac yn arfarnu data yn dda ac yn gosod targedau addas o uchelgeisiol ar gyfer gwella. Yn ogystal â chynnal perfformiad uchel, mae hyn yn gwella cysondeb yn yr addysgu ac mewn adborth i ddisgyblion.

Mewn mwyafrif o ysgolion, ceir cysylltiad clir rhwng hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella. Lle mae gwella ansawdd yn dda neu'n well, mae adroddiadau hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac arfarnol. Maent yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn wrthrychol, yn cysylltu cynllunio ar gyfer gwella yn uniongyrchol â'r adroddiadau hyn ac yn blaenoriaethu meysydd i'w gwella. Hefyd, mae'r ysgolion hyn yn gwneud cynnydd cyflym wrth fynd i'r afael ag argymhellion o arolygiadau blaenorol.

Mewn lleiafrif o ysgolion, mae adroddiadau arfarnu ysgol gyfan ac adrannol yn rhy hir, yn ddisgrifiadol, ac yn rhy hael. Nid ydynt yn arfarnu effaith yr addysgu, marcio a darpariaeth ar safonau. Nid yw cynlluniau gwella yn

**Figur 2.12: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**



blaenoriaethu'r prif feysydd i'w datblygu. Mewn ychydig o achosion, mae gweithredoedd wedi'u cynllunio yn aneglur neu nid yw arweinwyr yn defnyddio tystiolaeth o arsylwadau o wersi i wneud diffygion a nodir yn gyffredin yn ffocws ar gyfer gwella. Yn aml, mae arweinwyr yn barnu'u llwyddiant drwy gymharu'u canlyniadau â deilliannau blaenorol yn yr ysgol, yn hytrach na gyda chanlyniadau mewn ysgolion tebyg.

Mewn ychydig dros chwarter o ysgolion, mae'r hunanarfarnu'n anfoddhaol ac mae agweddau pwysig, fel addysgu ac asesu, ar goll o adroddiadau hunanarfarnu. Mae'r cyswllt rhwng hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella yn aneglur, ac nid yw'r ysgolion hyn yn mynd i'r afael â'r gwendidau mwyaf pwysig a nodwyd o'r hunanarfarnu yn ddigon trylwyr. O ganlyniad, mae diffygion mewn safonau a darpariaeth yn parhau.

## Gweithio mewn partneriaeth

Mae cysylltiadau cadarn gan lawer o ysgolion ag ystod eang o bartneriaid i wella ansawdd darpariaeth a chefnogi disgyblion. Un cryfder mewn gweithio mewn partneriaeth yw'r ffordd y mae ysgolion yn gweithio â'i gilydd a cholegau addysg bellach lleol i ehangu'r ystod o gyrsiau sydd ar gael i ddisgyblion. Mae trefniadau addas gan lawer o ysgolion ar gyfer sicrhau ansawdd y cyrsiau hyn.

Mae cysylltiadau cadarn gan lawer o ysgolion ag ystod o asiantaethau i gefnogi disgyblion difreintiedig neu ddisgyblion sy'n agored i niwed yn dda. Mae hyn yn cynnwys partneriaethau gyda darparwyr eraill a grwpiau cymunedol sy'n helpu i wella safonau a phresenoldeb, a lleihau gwaharddiadau.

Mae gan bron bob ysgol bartneriaethau buddiol gyda'u hysgolion cynradd partner i sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n dda pan fyddant yn ymuno â'r ysgol ym Mlwyddyn 7. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ysgolion wedi datblygu cysylltiadau cwricwlwm digon agos gyda'u partneriaid cynradd. O ganlyniad, mae disgyblion yn treulio gormod o amser ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8 yn ailadrodd gwaith y maent eisoes wedi'i wneud neu'n cwblhau tasgau nad ydynt yn ddigon heriol.

Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion berthnas gadarnhaol gyda rhieni ac mae'r mwyafrif yn darparu diweddariadau rheolaidd a buddiol i rieni am fywyd yr ysgol. Fodd bynnag, mae perthnas wael â chyfran sylweddol o rieni gan ychydig o ysgolion. Yn aml, mae gwefannau wedi dyddio neu'n cynnwys gwybodaeth gyfyngedig, ac nid yw rhieni'n teimlo bod eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif.

## Rheoli adnoddau

Mewn rhyw ddwy o bob pum ysgol, mae rheoli adnoddau yn dda neu'n well.

Mae lleiafrif o ysgolion yn darparu ystod gynhwysfawr o gyfleoedd datblygiad proffesiynol i staff, gan gynnwys datblygu arweinwyr canol a secondiadau cyfnod penodol i uwch arweinyddiaeth. Mae'r ysgolion hyn yn creu diwylliant o gydweithredu ac yn rhannu arfer dda mewn dulliau addysgu, asesu a datblygu medrau. Mae gweithgorau'n canolbwyntio'n dda ar ddatblygu darpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn myfyrio ar lwyddiant eu harferion addysgu i ddatblygu'u cynllunio tymor hir. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, mae'r cyfleoedd ar gyfer datblygiad staff strwythuredig yn gyfyngedig.

Mewn llawer o ysgolion, mae'r pennaeth a llywodraethwyr yn monitro gwariant yn fanwl ac yn rheoli adnoddau yn dda, er bod gan chwarter o ysgolion ddiffygion yn eu cyllideb (a gefnogir gan gynlluniau adfer wedi'u cytuno).

Mae mwyafrif o ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol o gyllid y GAD trwy weithgareddau wedi'u cynllunio'n dda i wella deilliannau a phresenoldeb disgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae strategaethau'n cynnwys cymorth wedi'i deilwra ar gyfer disgyblion penodol gan gynorthwywyr cymorth dysgu, gwella ymgysylltiad â theuluoedd a mesurau ymarferol i sicrhau eu bod yn yr ysgol ac yn barod i ddysgu. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw arweinwyr wedi arfarnu effaith cynlluniau'r GAD yn ffurfiol.

### Mae dysgu proffesiynol drwy ymchwil yn yr ystafell ddosbarth yn codi safonau mewn llythrennedd a rhifedd

Mae **Ysgol Gyfun Gŵyr**, Abertawe, wedi ymrwymo i godi safonau mewn llythrennedd a rhifedd yn ogystal â gwella lefel cyflawniad disgyblion mwy abl a thalentog. Ffurfiodd athrawon weithgorau i arsylwi disgyblion a rhoddwyd adborth ganddynt mewn sesiynau hyfforddi. Datblygwyd strategaethau wedyn i helpu disgyblion i ddatblygu'u medrau. O ganlyniad, nid yn unig y mae medrau staff wedi'u cryfhau, ond mae canlyniadau disgyblion wedi gwella.

I gael mwy o wybodaeth, cliciwch ar yr astudiaeth achos

# Gweithgarwch dilynol: Ysgolion uwchradd

O'r 15 o weithgareddau monitro gan Estyn yr ymgymerwyd â nhw yn 2014-2015, tynnwyd tair ysgol o'r categori monitro gan Estyn. Rhoddwyd dwy ysgol yn y categori gwelliant sylweddol yn dilyn canlyniadau arholiadau gwael. Roedd y 10 ysgol arall wedi gwneud rhywfaint o gynnydd, ond nid oeddent wedi gwella ddigon yn gyffredinol. Mewn chwech o'r rhain, gwnaed newidiadau yn yr arweinyddiaeth ers yr arolygiad. Roedd pedair ysgol arall wedi symud o'r categori monitro gan yr awdurdod lleol i'r categori monitro gan Estyn y llynedd, ac nid oeddent wedi cynnal cynnydd yn erbyn yr argymhellion gwreiddiol.

Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd angen gwelliant sylweddol mewn pedair ysgol. Yn ystod y flwyddyn, tynnwyd dwy ysgol o'r categori hwn. Yn yr ysgolion hyn, roedd cryn welliannau yng ngraddau a thrylwyrder yr hunanarfarnu, sydd wedi arwain at welliannau mewn addysgu a dysgu ac mewn deilliannau a chanlyniadau arholiadau. Yn y ddwy ysgol arall, roedd cynnydd o ran gwella ansawdd yr arweinyddiaeth ac addysgu yn rhy araf ac nid oedd wedi cael digon o effaith ar wella deilliannau. Mae angen gwelliant sylweddol yn yr ysgolion hyn o hyd.

Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd saith ysgol yn y categori mesurau arbennig. Yn ystod y flwyddyn, gwnaed cynnydd da gan dair ysgol ac fe'u tynnwyd o'r categori hwn. Dangosodd pob un o'r tair ysgol welliannau yn yr arweinyddiaeth ac ansawdd yr addysgu a arweiniodd at welliannau mewn deilliannau a chanlyniadau arholiadau. Fe wnaeth un ysgol gau tra'r oedd yn y categori mesurau arbennig. Mae'r ysgolion eraill wedi gwneud cynnydd cyfyngedig o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad craidd. Nid yw'r arweinyddiaeth yn yr ysgolion hyn wedi sicrhau gwelliannau mewn hunanarfarnu, cynllunio ar gyfer gwella, ansawdd yr addysgu na'r ddarpariaeth ar gyfer medrau. Mae diffygion a nodwyd yn yr addysgu a'r dysgu adeg yr arolygiad craidd yn parhau ac mae cynnydd o ran gwella canlyniadau arholiadau wedi bod yn araf neu wedi dirywio.

Nodwyd bod angen gwelliant sylweddol yn **Ysgol Gyfun Brynrefail** yng Ngwynedd yn dilyn ei harolygiad craidd yn Nhachwedd 2012. Barnodd arolygwyr mai digonol oedd ei pherfformiad a'i rhagolygon gwella oherwydd diffygion mewn safonau, darpariaeth a'r arweinyddiaeth. Yn ystod ymweliad monitro yn Nhachwedd 2014, canfu arolygwyr fod yr ysgol wedi gwneud cynnydd cryf tuag at bron pob un o'r argymhellion o'r arolygiad craidd. Nid oes angen gweithgarwch dilynol gan Estyn arni mwyach.

I gael mwy o wybodaeth, cliciwch ar
adroddiad yr ymweliad monitro







# Adran 2: Adroddiad sector
## Ysgolion arbennig a gynhelir

Yn Ionawr 2015, roedd 39 o ysgolion arbennig a gynhelir yng Nghymru.  Mae hyn dair yn llai nag yn Ionawr 2014.  Mae'r ysgolion hyn yn darparu ar gyfer ystod o anghenion, gan gynnwys anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.  Mae nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig a gynhelir yn parhau i gynyddu ychydig flwyddyn ar ôl blwyddyn.  Yn Ionawr 2015, 4,444 oedd y nifer ar y gofrestr, sef cynnydd o 106 o ddisgyblion o'r flwyddyn flaenorol.

Eleni, fe wnaethom arolygu saith o ysgolion arbennig a gynhelir.

I gael mwy o wybodaeth am y saith ysgol a arolygwyd, cliciwch ar yr adroddiadau arolygu:

Ysgol Arbennig Maesgwyn
Ysgol Rhydygors
Canolfan Addysg Y Bont
Ysgol Maes-y-Coed
Ysgol Hen Felin
Ysgol Penmaes
Ysgol Arbennig Mounton House


# Crynodeb: Ysgolion arbennig a gynhelir

Eleni, nodom fod arfer ragorol mewn un neu fwy o feysydd mewn tair ysgol arbennig. Ni farnwyd bod yr un ysgol yn rhagorol yn gyffredinol. Mewn dwy o'r ysgolion lle ceir arfer ragorol, ceir partneriaethau amlasiantaeth effeithiol iawn sy'n cyfrannu'n eithriadol o dda at wella iechyd a lles disgyblion. Mewn un ysgol, mae'r bartneriaeth â darparwr hyfforddiant annibynnol yn cynorthwyo staff i ddatblygu dulliau cyson o reoli ymddygiad. Ynghyd â hyfforddiant a chyngor i rieni ar sut i reoli ymddygiad heriol eu plant, mae'r gwaith hwn yn helpu disgyblion i wella'u hymddygiad a datblygu'u medrau cyfathrebu a lles. O ganlyniad, mae lefelau ymgysylltiad a phresenoldeb disgyblion wedi gwella ac mae nifer y gwaharddiadau wedi gostwng.

Mae angen gweithgarwch dilynol mewn pump o'r saith ysgol a arolygwyd eleni. Mewn pedair o'r ysgolion hyn, ceir diffygion yn yr hunanarfarnu. Er enghraifft, methodd tair o'r ysgolion â nodi meysydd pwysig y mae angen eu gwella, a dim ond newydd ddechrau datblygu ei phrosesau ar gyfer hunanarfarnu y mae un ysgol. Rhoddwyd dwy o'r ysgolion hyn mewn categorïau statudol. Mae'r ddwy ysgol hon yn darparu ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol yn bennaf.

I gael mwy o fanylion am y canfyddiadau arolygu ar gyfer pob sector, ewch i data.estyn.llyw.cymru

**Ffigur 2.13: Niferoedd yr ysgolion arbennig a gynhelir mewn lefelau gweithgarwch dilynol**



# Deilliannau: Ysgolion arbennig a gynhelir

## Safonau

Mae safonau da mewn pump o'r ysgolion a arolygwyd eleni, a safonau digonol mewn dwy ysgol arall. Hon yw'r flwyddyn gyntaf yn y cylch arolygu hwn lle na farnwyd bod safonau rhagorol mewn unrhyw ysgol.

Lle mae safonau'n dda, mae disgyblion yn datblygu'u medrau cyfathrebu yn dda. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n astud. Maent yn ymateb i holi ac yn ateb ar lafar neu gyda dulliau priodol eraill, fel dewis lluniau perthnasol i ddisgrifio'r tywydd. Yn yr ysgolion hyn, mae bron pob un o'r disgyblion yn cymhwyso'u medrau llythrennedd a rhifedd yn dda. Er enghraifft, maent yn cyfrif newid yn y caffi, yn mesur cynhwysion yn y gegin ac yn prynu eitemau yn y siop leol. Mae disgyblion mwy abl yn datblygu'u medrau meddwl, er enghraifft dysgu sut i gadw'n ddiogel yn y gegin. Wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn dysgu sut i gwblhau tasgau'n fwy annibynnol. Yn y ddwy ysgol lle ceir safonau digonol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn defnyddio'u medrau, yn enwedig rhifedd a TGCh.

Ym mhob un o'r ysgolion, mae llawer o ddisgyblion hŷn yn ennill cymwysterau perthnasol a hyfedredd mewn medrau yn y gwaith sy'n eu paratoi at fywyd yn y dyfodol. Mae'r cyflawniadau hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol. Dim ond ychydig iawn o'r rhai sy'n gadael yr ysgol sydd heb fod yn mynd ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu swydd.


## Lles

Mae deilliannau da ar gyfer lles disgyblion mewn pump o'r ysgolion, er mai digonol yw lles mewn un ysgol ac anfoddhaol yn y llall. Yn yr ysgolion lle mae lles disgyblion yn dda, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda. Dangosant barch at ei gilydd, maent yn helpu ei gilydd yn ystod gwersi ac yn cynorthwyo disgyblion iau o amgylch yr ysgol. Maent yn datblygu medrau bywyd drwy weithio gyda'u cymuned, trwy weithgareddau fel cynnal boreau coffi neu ddigwyddiadau codi arian. Mewn dwy ysgol, nid yw presenoldeb ychydig o ddisgyblion yn dda ac mae eu hymddygiad gwael wedi arwain at gynnydd mewn gwaharddiadau cyfnod penodol.

Ym mhob un o'r ysgolion, mae'r cynghorau ysgol yn gweithio'n dda. Mae'r disgyblion dan sylw yn datblygu'u dealltwriaeth o'u hawliau, yn dysgu i wrando ar farnau pobl eraill ac yn ymgymryd â swyddi cyfrifoldeb. Er enghraifft, mewn un ysgol, mae aelodau disgyblion wedi'u cynnwys yn weithredol wrth lunio'r cwricwlwm a chyfrannu at hunanarfarnu. O ganlyniad, mae hyfforddiant teithio sy'n cefnogi annibyniaeth wedi cynyddu ac mae'r ysgol wedi datblygu prosbectws sy'n hawdd i ddisgyblion ei ddefnyddio.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o sut i fod yn iach a ffit. Maent yn gwneud dewisiadau bwyd synhwyrol ac yn cymryd rhan mewn chwaraeon amser egwyl a gemau tîm. Mae ychydig ohonynt yn arbennig o lwyddiannus ac yn cystadlu'n rhyngwladol.

**Ffigur 2.14: Niferoedd yr ysgolion a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



# Darpariaeth: Ysgolion arbennig a gynhelir


Mae ansawdd y profiadau dysgu yn dda mewn pum ysgol ac yn ddigonol mewn dwy. Mewn chwech o'r ysgolion, mae staff yn cynllunio strategaethau effeithiol i sicrhau bod y cwricwlwm yn bodloni anghenion unigol disgyblion. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgolion hyn, mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n dda ar eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Mae staff yn defnyddio'u gwybodaeth am y disgyblion i gynllunio ystod eang o gyfleoedd dysgu diddorol. Er enghraifft, mewn un ysgol, ar ddiwrnod a elwir yn 'Wellie Wednesday', bydd disgyblion yn defnyddio'r awyr agored i ymarfer eu medrau cymdeithasol, a'u medrau llythrennedd a rhifedd yn y gymuned ehangach. Mewn un ysgol, nid yw disgyblion yn cael mynediad i'r ystod ofynnol o bynciau.

Ar draws pob un o'r ysgolion, mae disgwyliadau uchel o ddisgyblion gan fwyafrif y staff. Maent yn ymestyn gwybodaeth bynciol disgyblion ac yn datblygu'u medrau drwy brofiadau ymarferol, fel rhedeg siop yr ysgol. Mewn dwy ysgol, mae diffyg rhediad mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn cynnal diddordeb disgyblion ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar ymddygiad disgyblion.

Mae cynllunio, cydlynu a monitro cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau llythrennedd yn datblygu'n dda, er nad yw TGCh a rhifedd wedi'u datblygu gymaint mewn dwy ysgol. Mewn pum ysgol, mae'r cynllunio ar gyfer cyfathrebu yn arloesol ac yn annog cyfranogiad llawn disgyblion. Mae technoleg a therapi arbenigol, fel switshis trem llygaid a switshis sy'n gweithio yn ôl y llais, yn helpu disgyblion i fod yn fwy annibynnol a gallu manteisio'n well ar y cwricwlwm.

Yn nodweddiadol, mae gofal, cymorth ac arweiniad yn gadarn mewn ysgolion arbennig. Mewn tair ysgol a arolygwyd eleni, fodd bynnag, dim ond digonol yw ansawdd gofal, cymorth ac arweiniad, ac mae'n anfoddhaol mewn un ysgol. Nid yw'r ysgolion hyn yn cynllunio ac yn cydlynu addysg bersonol a chymdeithasol yn ddigon da. Mae agweddau ar ddiogelu yn destun pryder mewn tair ysgol am nad yw polisïau a gweithdrefnau yn ddigon cadarn na chynhwysfawr.

**Ffigur 2.15: Niferoedd yr ysgolion a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Ysgolion arbennig a gynhelir

Mae'r arweinyddiaeth yn dda mewn pum ysgol a arolygwyd eleni. Mewn un ysgol, dim ond digonol yw'r arweinyddiaeth, ac mae'n anfoddhaol mewn ysgol arall. Yn yr ysgolion lle ceir arweinyddiaeth dda, mae'r pennaeth yn creu diwylliant o ddisgwyliadau uchel ac yn rhoi cyfeiriad clir i'r ysgol. Mae arweinwyr mewn dwy o'r ysgolion yn araf yn gweithredu cynlluniau a mentrau. Yn gyffredinol, mae llywodraethwyr yn darparu cymorth effeithiol i bron pob ysgol, er eu bod yn dal i ddatblygu'u gallu i herio arweinwyr yn gadarn.

Dim ond tair ysgol sydd â phrosesau effeithiol ar gyfer gwella ansawdd. Yma, mae staff yn arfarnu perfformiad disgyblion drwy arsylwadau, craffu ar waith, a dadansoddi data. Defnyddiant y wybodaeth hon i nodi blaenoriaethau ac maent yn cysylltu'r rhain â chynlluniau datblygu ac amcanion datblygu staff. Fodd bynnag, mae diffyg trylwyredd yn y trefniadau hunanarfarnu yn yr ysgolion eraill, ac nid ydynt yn nodi meysydd i'w gwella. Nid yw'r ysgolion hyn yn defnyddio data'n ddigon da i fonitro ac arfarnu cynnydd nac i lywio cynllunio yn y dyfodol.

Mae dwy ysgol wedi datblygu gweithio rhagorol mewn partneriaeth, sy'n is na'r gyfran a nodwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Mae un ysgol yn ddigonol ac mae pedair ysgol yn dda yn y maes hwn o'u gwaith. Mae gan bron pob ysgol gysylltiadau sefydledig gydag ystod addas o bartneriaid. Mewn un ysgol lle mae partneriaethau'n rhagorol, mae partneriaeth gadarn gyda'r bwrdd iechyd lleol y golygu bod disgyblion a'u teuluoedd yn elwa ar glinigau cleifion allanol gyda phediatryddon yn yr ysgol, yn ogystal â ffisiotherapi a chymorth gan nyrsys ysgol. Mae'r gwasanaethau integredig hyn yn cyfrannu'n eithriadol o dda at wella iechyd a lles disgyblion. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw partneriaethau ag ysgolion prif ffrwd i wella profiadau dysgu disgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol.


Mae pum ysgol yn rheoli'u hadnoddau yn dda. Maent yn defnyddio doniau ac arbenigedd staff yn effeithiol, gan gynnwys staff cymorth yn gweithio'n arbennig o agos gydag athrawon i gyfrannu at ddysgu a lles disgyblion. Mae pob ysgol yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol ac yn cynnig ystod eang o adnoddau arbenigol. Mae tua hanner yr ysgolion yn darparu gwasanaeth cyngor ac arweiniad gwerthfawr i ysgolion prif ffrwd trwy raglenni allgymorth.

**Datblygu partneriaethau yn paratoi'r ffordd ar gyfer mwy o ymgysylltu gan ddisgyblion**

Gyda mwy o mwy o alw am ei gwasanaethau, llwyddodd **Ysgol Hen Felin** i gynnal amgylchedd dysgu hapus i ddisgyblion ag anawsterau synhwyraidd ac ymddygiadol difrifol. Trwy adnabod arbenigedd un o'i phartneriaid, datblygodd ddull newydd o reoli ymddygiad disgyblion. Arweiniodd hyn at well lles ymhlith disgyblion a llai o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag ymddygiad.

I gael mwy o wybodaeth, cliciwch ar yr <u>astudiaeth achos</u>


**Ffigur 2.16: Niferoedd yr ysgolion a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**



# Gweithgarwch dilynol: Ysgolion arbennig a gynhelir

Eleni, cynhaliom ymweliad dilynol ag un ysgol a roddwyd yn y categori monitro gan Estyn yn 2013-2014 oherwydd diffygion yn yr arweinyddiaeth. Yn yr ysgol hon, mae arweinwyr yn darparu cyfeiriad strategol erbyn hyn, gan ganolbwyntio'n glir ar godi safonau. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod o dystiolaeth i ddadansoddi cynnydd disgyblion, maent yn arfarnu effeithiolrwydd ymyriadau ac yn meddwl yn strategol. Mae dull cyson o gynllunio'r cwricwlwm a system effeithiol o arweinyddiaeth wasgaredig wedi arwain at gynllunio llwyddiannus ar gyfer gwella ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol hon wedi gwneud cynnydd da ac nid oes angen unrhyw ymweliadau monitro pellach.







# Adran 2: Adroddiad sector
## Ysgolion arbennig annibynnol

Yn Ionawr 2015, roedd 33 o ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru. Mae'r ysgolion hyn yn addysgu tua 550 o ddisgyblion ag ystod o anghenion, gan gynnwys anhwylder ar y sbectrwm awtistig ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad. Mae llawer o'r ysgolion yn rhai bach ac mae disgyblion fel arfer yn byw mewn cartrefi plant sydd ynghlwm wrth yr ysgolion.

Yn ystod 2014-2015, agorodd un ysgol arbennig annibynnol newydd. Caeodd dwy ysgol yn ystod y flwyddyn. Nid oeddent yn addysgu unrhyw ddisgyblion ar y pryd.

Ym mis Gorffennaf 2015, nid oedd unrhyw ddisgyblion gan bedair ysgol, gan nad oedd unrhyw bobl ifanc yn y cartrefi plant cysylltiedig neu am fod y bobl ifanc sy'n byw yn y cartrefi yn mynychu ysgolion y brif ffrwd neu ddarpariaeth addysgol arall.

Yn ychwanegol at arolygiadau llawn, mae Estyn yn cynnal arolygiadau monitro rheolaidd o ysgolion arbennig annibynnol. Eleni, fe wnaethom arolygu dwy ysgol arbennig annibynnol a chynnal 19 o ymweliadau monitro.

I gael mwy o wybodaeth am y ddwy ysgol a arolygwyd, cliciwch ar yr adroddiadau arolygu:

Ysgol Craig y Parc
Cilddewi Uchaf

# Crynodeb: Ysgolion arbennig annibynnol

Ni nodwyd bod arfer ragorol yn un o'r ddwy ysgol a arolygwyd eleni.

## Cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003


Mewn arolygiadau o ysgolion arbennig annibynnol, byddwn yn barnu'r graddau y mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Llwyddodd y ddwy ysgol a arolygwyd eleni i fodloni pob un o'r safonau.

Ni lwyddodd chwech o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses monitro i fodloni pob un o'r safonau. Methodd pump ohonynt â chydymffurfio â Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion. Mewn llawer o'r ysgolion hyn, nid yw polisïau'n ymwneud â diogelu, ymweliadau addysgol neu wrthfwlio yn rhoi arweiniad digon clir i staff.

Cafodd tair ysgol a gofrestrwyd yn 2013-2014 ymweliadau cofrestru dilynol i wirio cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

I gael mwy o fanylion am y canfyddiadau arolygu ar gyfer pob sector, ewch i data.estyn.llyw.cymru

**Ffigur 2.17: Niferoedd yr ysgolion arbennig annibynnol a fodlonodd y rheoliadau / na fodlonodd pob un o'r rheoliadau**



# Deilliannau: Ysgolion arbennig annibynnol

## Safonau a lles


Mae llai na phump o ddisgyblion yn un o'r ddwy ysgol a arolygwyd yn 2014-2015. Oherwydd hyn, ni luniodd Estyn unrhyw farnau ar safonau na lles.

I gael mwy o wybodaeth am safonau a lles yn yr ysgol â mwy na phump o ddisgyblion, cliciwch ar yr adroddiad arolygu ar gyfer Ysgol Craig y Parc





**Ffigur 2.18: Niferoedd yr ysgolion a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



# Darpariaeth: Ysgolion arbennig annibynnol

Mae'r ddarpariaeth yn dda yn un o'r ysgolion a arolygwyd, ac yn ddigonol yn y llall. Yn yr ysgol lle mae darpariaeth dda, ceir ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol a chyfoethog sy'n ennyn diddordeb disgyblion ar draws pob ystod oedran. Mae'r rhain yn cynnwys profiadau synhwyraidd i ddisgyblion â'r anghenion mwyaf cymhleth.

Yn yr ysgol lle ceir darpariaeth ddigonol, mae staff addysgu yn cynllunio rhaglenni unigol ar gyfer disgyblion sy'n cyfateb i'w galluoedd a'u hanghenion. Maent wedi ymateb yn dda i geisiadau disgyblion drwy gyflwyno cwrs mewn gofal plant, er enghraifft. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm wedi'i gydlynu'n effeithiol ac mae cyfleoedd ar gyfer datblygu'r medrau hyn yn cael eu colli'n aml.


Un o'r cryfderau a nodwyd yn y rhan fwyaf o ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro reolaidd yw bod staff yn cynllunio gwersi'n ofalus i fodloni anghenion disgyblion unigol.

Mae ansawdd yr addysgu yn dda mewn un ysgol a arolygwyd, ac yn ddigonol yn y llall. Lle mae'r addysgu'n effeithiol, mae staff yn cynllunio gweithgareddau heriol ac ysgogol sy'n ennyn ac yn dal diddordeb disgyblion. Mewn un ysgol lle caiff llawer o'r gwersi eu haddysgu gan staff gofal, nid oes disgwyliadau digon uchel gan leiafrif o'r staff ar gyfer dysgu disgyblion, ac nid ydynt yn eu cymell i gymryd rhan yn y gweithgareddau a gynllunir.

Yn y ddwy ysgol a arolygwyd, mae staff addysg yn gweithio'n dda gyda staff gofal a gwasanaethau arbenigol i fodloni anghenion emosiynol ac iechyd y disgyblion. Yn yr un modd, un o'r cryfderau a nodwyd mewn llawer o'r ymweliadau monitro a gynhaliwyd yw cydweithio effeithiol rhwng staff, sy'n cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion a oedd cyn hynny'n ei chael hi'n anodd ymdopi mewn addysg y brif ffrwd.

Mae bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r prosesau arolygu a monitro yn darparu amgylchedd cadarnhaol, meithringar lle gall disgyblion fagu hyder.

**Ffigur 2.19: Niferoedd yr ysgolion a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Ysgolion arbennig annibynnol

Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn ddigonol yn un o'r ysgolion a arolygwyd, ac yn anfoddhaol yn y llall. Yn yr ysgol lle mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn ddigonol, mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth sydd newydd eu penodi wedi dechrau darparu cyfeiriad i reolaeth strategol yr ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio'i system rheoli perfformiad i helpu staff i wneud gwelliannau. Er enghraifft, mae rheoli perfformiad wedi arwain at hyfforddiant ar gyfer staff cymorth, i'w helpu i weithio gyda disgyblion sydd ag anawsterau cyfathrebu. Yn yr ysgol hon, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun arfarnol a chywir yn gyffredinol o'r ysgol, ac mae'r cynllun gwella yn blaenoriaethu targedau addas i weithredu arnynt. Mae arweinwyr yn casglu ystod o ddata ar ddisgyblion unigol, gan gynnwys y cynnydd y maent yn ei wneud yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn defnyddio data'n ddigon da i ddadansoddi perfformiad a chynllunio ar gyfer gwelliannau ysgol gyfan.

Yn yr ysgol lle ceir arweinyddiaeth a rheolaeth anfoddhaol, nid oes unrhyw gyfeiriad strategol clir. Nid oes unrhyw gyfarfodydd ffurfiol i drafod materion strategol yn ymwneud ag addysg ac nid yw prosesau hunanarfarnu yn rheolaidd na'n systematig. Nid yw staff yn defnyddio data'n effeithiol i fonitro perfformiad nac i lywio'r cynllunio.


Ym mron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses monitro, mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac maent yn ei rhannu'n effeithiol â staff a rhanddeiliaid eraill. Un o'r diffygion a nodwyd mewn lleiafrif o'r ysgolion hyn yw nad yw hunanarfarnu wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Lle mae ysgolion yn cynnal arsylwadau rheolaidd o wersi, nid yw'r rhain yn canolbwyntio'n ddigon clir ar yr hyn y mae disgyblion yn ei gyflawni yn y gwersi.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn dda yn un o'r ysgolion a arolygwyd, ac yn anfoddhaol yn y llall. Yn yr ysgol lle ceir gweithio da mewn partneriaeth, mae'r ysgol yn cysylltu'n dda ag ysgolion y brif ffrwd, colegau addysg bellach a darparwyr eraill. Mae hyn yn ehangu cyfleoedd i astudio i ddisgyblion ac yn sicrhau eu bod yn cael cymorth da wrth iddynt gynllunio'u dyfodol.

Yn yr ysgol lle mae gweithio mewn partneriaeth yn anfoddhaol, ychydig iawn o bartneriaethau llwyddiannus y mae'r ysgol wedi'u datblygu sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion neu staff.

Mewn rhyw draean o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, ceir enghreifftiau effeithiol o weithio mewn partneriaeth. Mae gan un o'r ysgolion hyn berthynas waith dda â'r awdurdod lleol a'r consortiwm, sy'n darparu cyfleoedd hyfforddi priodol ar gyfer staff.

**Ffigur 2.20: Niferoedd yr ysgolion a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**









# Adran 2: Adroddiad sector
## Ysgolion prif ffrwd annibynnol

Yn Ionawr 2015, roedd 34 o ysgolion prif ffrwd annibynnol yng Nghymru.  Eleni, fe wnaethom arolygu pedair o'r ysgolion hyn.  Mae tair o'r ysgolion a arolygwyd yn ysgolion pob oed sy'n darparu ar gyfer disgyblion ar draws y cyfnod cynradd a'r cyfnod uwchradd.  Mae'r ysgol arall yn darparu ar gyfer disgyblion 11 i 16 oed yn unig.

I gael mwy o wybodaeth am y pedair ysgol a arolygwyd, cliciwch ar yr adroddiadau arolygu:

Ysgol y Castell
Ymddiriedolaeth Ysgol St Gerard
Ysgol Howell's
Ysgol St Clare's

# Crynodeb: Ysgolion prif ffrwd annibynnol

Eleni, nodom fod arfer ragorol gan un ysgol. Mae gan yr ysgol hon drefniadau partneriaeth ar y cyd eithriadol o gadarn gydag ystod eang o randdeiliaid a rhaglen ymsefydlu arloesol i ddysgwyr. Mae'r cyfuniad hwn yn gwneud cyfraniad effeithiol iawn at brofiadau dysgu disgyblion ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar eu safonau a'u lles.

## Cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

Mewn arolygiadau o ysgolion annibynnol, bydd y tîm arolygu yn barnu'r graddau y mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Eleni, llwyddodd y pedair ysgol a arolygwyd i fodloni pob un o'r rheoliadau hyn.

Cynhaliom weithgareddau monitro dilynol gyda'r ddwy ysgol nad oedd wedi bodloni pob un o'r rheoliadau hyn yn ystod arolygiadau yn 2013-2014. Mae un o'r ysgolion hyn wedi gwneud cynnydd boddhaol tuag at gydymffurfio â'r rheoliadau, a'r llall wedi gwneud cynnydd cyfyngedig. Hefyd, fe wnaethom gwblhau arolygiadau dilynol â ffocws o dair ysgol lle'r oedd pryderon gan Lywodraeth Cymru ynglŷn ag un neu fwy o'r safonau cofrestru Mewn pedair o'r pum ysgol â gweithgarwch dilynol, canfuom ddiffygion yn ymwneud â'r safon ar gyfer lles, iechyd a diogelwch disgyblion.

I gael mwy o fanylion am y canfyddiadau arolygu ar gyfer pob sector, ewch i data.estyn.llyw.cymru

**Ffigur 2.21: Niferoedd yr ysgolion arbennig annibynnol a fodlonodd y rheoliadau / na fodlonodd pob un o'r rheoliadau**



# Deilliannau: Ysgolion prif ffrwd annibynnol

## Safonau

Mae safonau'n rhagorol mewn un ysgol ac yn dda mewn tair ysgol.

Ym mhob un o'r ysgolion, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llawn cymhelliant ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol at eu dysgu. Yn gyffredinol, gwnânt gynnydd da o leiaf, a chynnydd rhagorol yn aml, o ran ehangu'u gwybodaeth a datblygu'u medrau. Mae llawer o ddisgyblion yn cofio dysgu blaenorol yn gyflym ac yn gywir, ac yn cymhwyso'u gwybodaeth yn hyderus i sefyllfaoedd newydd.

Ceir safonau rhagorol mewn un ysgol. Ysgol pob oed yw hon, lle mae disgyblion yn cyflawni safonau uchel ym mhob cam o'u dysgu. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, mae perfformiad disgyblion mewn arholiadau cyhoeddus yn rhagorol o gymharu â pherfformiad ysgolion eraill yn y sector a gynhelir a'r sector annibynnol.

Ym mhob un o'r ysgolion, mae medrau cyfathrebu cryf gan ddisgyblion. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrando'n dda ar farnau a safbwyntiau pobl eraill ac yn siarad yn hyderus, gan ddefnyddio terminoleg penodol i bwnc yn gywir. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu strategaethau darllen priodol, ac o gymharu â'u hoedran, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl a gyda mynegiant addas. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn dangos medrau dadansoddi a meddwl cadarn pan fyddant yn ymateb i ystod o destunau llenyddol neu'n dadansoddi gwybodaeth o ffynonellau gwahanol mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.


Trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd systematig wrth ddatblygu'u medrau ysgrifennu ac yn addasu'u gwaith i fod yn addas at ystod o ddibenion mewn pynciau gwahanol. Fodd bynnag, ym mhob ysgol, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu a gramadegol achlysurol, ac mae gwaith ysgrifenedig ychydig iawn o ddisgyblion hŷn yn cael ei gyflwyno'n wael.

Ym mhob un o'r ysgolion, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu'u medrau rhifedd trwy gymhwyso'r technegau y maent yn eu dysgu yn eu gwersi mathemateg mewn pynciau a chyd-destunau gwahanol.

## Lles

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn uchel ym mhob un o'r ysgolion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn arbennig o dda mewn gwersi ac mewn gweithgareddau y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Mae disgyblion yn ymgymryd ag ystod eang o rolau arwain cyfoedion neu gymunedol sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddatblygu'u medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd.

**Ffigur 2.22: Niferoedd yr ysgolion a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



# Darpariaeth: Ysgolion prif ffrwd annibynnol

Mae'r ddarpariaeth yn dda mewn tair o'r ysgolion a arolygwyd ac yn rhagorol yn y llall.

Mae pob un o'r ysgolion yn darparu cwricwlwm cytbwys, sy'n addas i oedrannau a galluoedd disgyblion, ac sy'n bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Mewn dwy ysgol pob oed, nid yw'r cyswllt rhwng cyfnodau gwahanol yr ysgol yn ddigon cadarn mewn ychydig o feysydd y cwricwlwm.

Mae pob un o'r ysgolion yn darparu ystod o weithgareddau allgyrsiol sy'n cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at eu datblygiad cymdeithasol a phersonol.

Mewn tair ysgol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn effeithiol yn gyffredinol. Fodd bynnag, yn y llall, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion ar draws yr ysgol yn cael ei gydlynu'n ddigon trwyadl.

Mae'r addysgu yn dda neu'n well mewn tair ysgol ac yn ddigonol yn y llall. Ym mhob un o'r ysgolion, mae gan bron pob un o'r athrawon wybodaeth bynciol dda, perthnasoedd gweithio cadarn gyda disgyblion ac arferion sefydledig yn yr ystafell ddosbarth sy'n hyrwyddo i'r eithaf yr amser ar gyfer dysgu disgyblion.

Mewn un ysgol lle barnwyd bod yr addysgu'n rhagorol, mae llawer o athrawon yn defnyddio'u gwybodaeth bynciol yn arbennig o dda. Maent yn rhoi esboniadau manwl ac yn gofyn cwestiynau treiddgar er mwyn annog disgyblion i feddwl yn ofalus, cymryd rhan mewn deialog gynhyrchiol a datblygu dealltwriaeth eang o gysyniadau a medrau newydd.

Mewn tair ysgol, fodd bynnag, nid yw'r addysgu mewn ychydig o wersi yn herio disgyblion yn ddigon da ac mae'n cyfyngu ar eu cynnydd, am nad yw gweithgareddau dysgu bob amser yn briodol ar gyfer oedran a gallu disgyblion, ac nid ydynt yn ennyn eu diddordeb nac yn cynnig digon o gyfleoedd ar gyfer dysgu annibynnol. Ym mhob un o'r ysgolion, ceir trefniadau cadarn yn gyffredinol ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion.

At ei gilydd, ceir lefel uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ym mhob un o'r ysgolion, sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at safonau a lles disgyblion. Fodd bynnag, mewn tair o'r ysgolion, mae diffygion yn gysylltiedig ag ychydig o agweddau ar y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.


Mae pob un o'r ysgolion yn gymunedau cynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel unigolion.

### Rhaglen i helpu disgyblion yn ystod eu '50 Diwrnod Cyntaf' mewn ysgol uwchradd

Mae **Ysgol Howell's** yn Llandaf yn rhoi lefelau lles uchel yn ganolog i'w dull o helpu disgyblion i ymgartrefu. Cyflwynodd yr ysgol 'First 50' – sef rhaglen les sy'n rhoi cyfres o brofiadau i ddisgyblion yn ystod 50 diwrnod cyntaf Blwyddyn 12 i sicrhau bod symud i ysgol newydd yn brofiad cadarnhaol.

I gael mwy o wybodaeth, cliciwch ar yr astudiaeth achos

**Ffigur 2.23: Niferoedd yr ysgolion a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Ysgolion prif ffrwd annibynnol

Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn rhagorol mewn un ysgol, yn dda mewn ysgol arall, ac yn ddigonol mewn dwy ysgol.

Yn yr ysgol lle barnwyd bod yr arweinyddiaeth yn rhagorol, mae uwch arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn eithriadol o dda i hyrwyddo ethos a gwerthoedd clir, ac i ddarparu cyfeiriad cadarn wrth fynd ar drywydd nod yr ysgol i feithrin rhagoriaeth. Mae arweinwyr ar bob lefel yn ymdrechu i wella arferion yr ysgol ac maent yn awyddus i arloesi mewn modd ystyrlon. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at y safonau rhagorol y mae disgyblion yn eu cyflawni a'u lefelau lles uchel.

Ym mhob un o'r ysgolion, mae uwch arweinwyr yn llwyddo i hyrwyddo gwerthoedd clir a gweledigaeth ar y cyd sy'n sail i bob agwedd ar waith eu hysgol. Mewn dwy ysgol lle ceir arweinyddiaeth dda neu ragorol, mae perchenogion yr ysgolion hyn yn wybodus iawn am berfformiad eu hysgol ac yn darparu lefelau cadarn o her a chymorth.

Yn y ddwy ysgol lle barnwyd bod arweinyddiaeth yn ddigonol, nid yw strwythurau rheolaeth llinell ar draws yr ysgol yn darparu llinellau atebolrwydd clir. Mae hyn yn golygu nad yw trefniadau ar gyfer monitro agweddau ar y ddarpariaeth, fel ansawdd gwaith athrawon neu gynnydd disgyblion tuag at dargedau mewn cynlluniau addysg unigol, yn ddigon cadarn.


Mae trefniadau da gan ddwy ysgol ar gyfer gwella ansawdd. Mae'r ddwy ohonynt yn defnyddio ystod eang o weithgareddau sicrhau ansawdd a dadansoddiad trylwyr o ddata i arfarnu effeithiolrwydd ac effaith holl feysydd eu gwaith. Mae hyn yn cyfrannu at eu hanes cadarn o wella.

Mewn dwy ysgol, nid yw cynllunio datblygiad yn ddigon sicr i ddarparu sail gadarn ar gyfer gwella ansawdd. Y rheswm pennaf am hyn yw nad yw gweithgareddau hunanarfarnu yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol o'r addysgu a'r dysgu yn ddigon da, ac mewn un ysgol, nid yw arsylwadau o wersi yn rhoi digon o ystyriaeth i effaith addysgu ar gynnydd disgyblion.

Mae trefniadau pob un o'r ysgolion ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn dda neu'n well, gyda phartneriaethau arbennig o gadarn gyda rhieni a gwarcheidwaid.

Mae trefniadau da neu well gan bob ysgol ar gyfer rheoli adnoddau.

**Ffigur 2.24: Niferoedd yr ysgolion a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**




black outline /shading





# Adran 2: Adroddiad sector
## Colegau arbenigol annibynnol

Yn ystod 2014-2015, roedd chwech o golegau arbenigol annibynnol yng Nghymru. Mae'r colegau hyn yn addysgu rhyw 220 o ddysgwyr 16 oed a hŷn. Mae'r colegau'n darparu ar gyfer ystod o anghenion, gan gynnwys anhwylder ar y sbectrwm awtistig ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Yn ychwanegol at arolygiadau llawn, mae Estyn yn cynnal arolygiadau monitro blynyddol o golegau arbenigol annibynnol. Eleni, fe wnaethom arolygu dau goleg arbenigol annibynnol a chynnal tri ymweliad monitro blynyddol.

I gael mwy o wybodaeth am y ddau goleg a arolygwyd, cliciwch ar yr adroddiadau arolygu:


Coleg Pengwern
Coleg Plas Dwbl

## Crynodeb: Colegau arbenigol annibynnol

Nodwyd bod arfer ragorol mewn un o'r colegau a arolygwyd eleni. Yn y coleg hwn, arweiniodd dull strategol o reoli ymddygiad heriol dysgwyr at ostyngiad sylweddol yn amlder a difrifoldeb digwyddiadau'n gysylltiedig ag ymddygiad.

I gael mwy o fanylion am y canfyddiadau arolygu ar gyfer pob sector, ewch i data.estyn.llyw.cymru

**Ffigur 2.25: Niferoedd y colegau arbenigol annibynnol y canfuwyd arfer ragorol ynddynt**



# Deilliannau: Colegau arbenigol annibynnol

## Safonau

Mae safonau'n dda yn y ddau goleg a arolygwyd eleni. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd cyson yn erbyn eu targedau unigol.

Mae dysgwyr mwy abl yn ehangu eu geirfa yn dda, ac yn dangos dealltwriaeth dda o iaith penodol i bwnc. Maent yn esbonio'u gwaith yn glir, er enghraifft wrth ddisgrifio sut i osod ffens drydan ar y fferm, ac maent yn defnyddio'u medrau darllen mewn sefyllfaoedd ymarferol, pan fyddant yn darllen ryseitiau ac yn archebu dillad gwaith. Mae dysgwyr llai abl yn datblygu'u cyfathrebu drwy arwyddion a symbolau a dyfeisiau electronig.

Yn y ddau goleg, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu'u medrau rhifedd. Mewn un coleg, er enghraifft, mae dysgwyr yn dysgu trin a thrafod arian ac yn cymhwyso'r medrau hyn yn siop y coleg. Yn y coleg arall, maent yn gweithio allan faint o arian sy'n cael ei godi yn y ffair Nadolig.

Mewn un coleg, mae dysgwyr yn cyflawni ystod eang o gymwysterau galwedigaethol priodol. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt pan fyddant yn gadael y coleg. Llwyddodd pob un o'r wyth a adawodd dros y ddwy flynedd diwethaf i gael cyflogaeth neu aethant ymlaen i hyfforddiant pellach, gan gynnwys gyrru tryc fforch godi, gweithio fel cynorthwyydd addysgu, a hyfforddi i fod yn blymwr.

## Lles

Mae lles yn dda yn y ddau goleg a arolygwyd. Mae pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac maent yn hyderus i fynd at aelodau staff allweddol os bydd angen help neu gyngor arnynt. Mewn un coleg, mae dysgwyr mwy abl yn dangos dealltwriaeth drwyadl o ddiogelwch ar-lein wrth ddefnyddio dyfeisiau a rhaglenni technolegol, ac maent yn ymwybodol o beryglon y cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol rheolaidd fel nofio a beicio. Mewn un coleg, mae ychydig iawn o ddysgwyr yn hyfforddi gyda chlybiau pêl-droed lleol ac yn cymryd rhan mewn cystadlaethau rhyngwladol.


Yn y ddau goleg, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynychu'n dda, er nad yw pawb yn cyrraedd sesiynau'n brydlon. Mae hyn yn golygu nad yw'r dysgwyr hyn yn datblygu medrau cadw amser pwysig sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant yn y dyfodol. Yn yr un modd, mewn un o'r colegau yr ymwelwyd ag ef fel rhan o'r broses monitro blynyddol, nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn mynychu'n ddigon da neu maent yn hwyr yn gyson.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn ymgysylltu'n dda mewn sesiynau. Maent yn mwynhau eu dysgu ac yn canolbwyntio ar y dasg yn ystod gweithgareddau.

Mae llawer o ddysgwyr yn cyfrannu'n effeithiol at wneud penderfyniadau. Mewn un coleg, mae dysgwyr yn cael eu cynnwys wrth benodi staff newydd. Mae hyn yn cynnwys dangos darpar ymgeiswyr o amgylch y coleg a rhoi adborth ar eu haddasrwydd.

Mae dysgwyr yn y ddau goleg yn ymgysylltu'n dda â'r gymuned leol, er enghraifft pan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, yn gwerthu cynnyrch mewn siop leol ac yn tacluso gerddi.

**Ffigur 2.26: Niferoedd y colegau a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



# Darpariaeth: Colegau arbenigol annibynnol

Mae ansawdd profiadau dysgu yn dda yn y ddau goleg a arolygwyd. Mae staff yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu llythrennedd a rhifedd dysgwyr ac maent yn cael llawer o gyfleoedd trwy gydol y diwrnod coleg i ddatblygu'r medrau hyn.

Mewn un o'r colegau, caiff dysgwyr gyfle i ennill cymwysterau wedi'u hachredu'n genedlaethol sy'n cyfateb yn dda i'w nodau tymor hir. Yn y coleg arall, fodd bynnag, nid yw ychydig o ddysgwyr mwy abl yn cael digon o gyfleoedd i ddilyn cymwysterau galwedigaethol penodol.

Mae un o'r colegau yr ymwelwyd ag ef fel rhan o'r broses monitro blynyddol wedi cynyddu ystod y cyrsiau sy'n cael eu cynnig i ddysgwyr. Mae hyn yn cynnwys gwaith coed a dyfarniadau lefel 1 mewn cerddoriaeth, technoleg a chelf a dylunio.


Mae'r addysgu'n dda yn y ddau goleg. Mae gan diwtoriaid ddealltwriaeth glir o anghenion a galluoedd y dysgwyr ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gynllunio a chyflwyno sesiynau diddorol. Mae'r ddau goleg yn defnyddio data asesu i osod targedau priodol ar gyfer y dysgwyr unigol.

Yn y ddau goleg, mae staff yn creu ethos lle caiff dysgwyr eu hannog i wneud eu gorau. Ar brydiau, mae staff mewn un coleg yn gwneud gormod i'r dysgwyr, yn lle gadael iddynt gwblhau tasgau'n annibynnol.

Mae staff yn rheoli ymddygiad heriol yn dda yn y ddau goleg, ac yn helpu dysgwyr i ymgartrefu'n gyflym.

Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn rhagorol yn un o'r colegau a arolygwyd ac yn dda yn y llall. Yn y coleg lle maent yn rhagorol, mae tîm therapi'r coleg yn darparu cymorth arloesol mewn sesiynau ar gyfer dysgwyr unigol a staff. Yn y coleg hwn, arweiniodd dull strategol o reoli ymddygiad heriol at ostyngiad mewn difrifoldeb ac amlder digwyddiadau. Mae'r coleg arall yn darparu cymorth effeithiol i ddysgwyr sy'n cael anawsterau fel profedigaeth neu faterion teuluol arall.

**Ffigur 2.27: Niferoedd y colegau a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Colegau arbenigol annibynnol

Yn y ddau goleg a arolygwyd, mae gweledigaeth glir gan arweinwyr sy'n cael ei rhannu gyda phob un o'r staff. Mae staff yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae cyfarfodydd yn canolbwyntio'n glir ar wella'r coleg.

Yn y ddau goleg, mae prosesau rheoli perfformiad yn nodi anghenion hyfforddi unigol a'r coleg cyfan yn dda.

Mae arweinwyr yn y ddau goleg yn deall cryfderau'r coleg a'r meysydd i'w datblygu, ac adlewyrchir y rhain yn dda yn yr adroddiadau hunanasesu. Mae staff yn gofyn am farnau dysgwyr yn rheolaidd trwy gyfarfodydd myfyrwyr. Fodd bynnag, nid yw'r coleg bob amser yn gofyn am farnau rhanddeiliaid allanol yn ddigon da.


Yn y ddau goleg, mae adroddiadau hunanasesu yn cysylltu'n agos â'r cynlluniau datblygu ansawdd. Mae'r ddau goleg wedi gwneud gwelliannau pwysig sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau. Er enghraifft, nododd un coleg yr angen i wella sut caiff ymddygiad heriol ei reoli. Rhoddwyd newidiadau ar waith yn llwyddiannus a chafodd hyn effaith gadarnhaol ar ymddygiad dysgwyr. Fe wnaeth y coleg arall wella ei ddull o gofnodi cynnydd dysgwyr ac ansawdd cynlluniau gwersi, gyda mwy o ffocws ar fedrau hanfodol.

Mae'r ddau goleg yn casglu ystod o ddata ac yn gwella eu defnydd o ddata i olrhain cynnydd dysgwyr a llywio'r cynllunio. Mae un coleg yn defnyddio data yn dda i nodi blaenoriaethau'r coleg. Mae'r llall yn defnyddio data dysgwyr unigol i gynllunio rhaglenni ac ymyriadau priodol.

Mae'r ddau goleg yn gweithio'n agos ag ystod o bartneriaid i ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr. Er enghraifft, mae cysylltiadau cadarn â chlybiau chwaraeon lleol yn rhoi cyfle i ddysgwyr mewn un coleg fanteisio ar hyfforddiant o ansawdd uchel. Mae cysylltiadau effeithiol â busnesau lleol yn galluogi dysgwyr yn y coleg arall i gymryd rhan mewn profiad gwaith perthnasol, er enghraifft gweithio mewn siop gymunedol.

Mae un o'r colegau yr ymwelwyd ag ef fel rhan o'r broses monitro blynyddol wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â diffygion a nodwyd yn ystod ei arolygiad yn 2014. Fodd bynnag, mae cynnydd wedi bod yn araf yn y ddau goleg arall yr ymwelwyd â nhw. Yn un o'r colegau hyn, nid oes dealltwriaeth ddigon da gan reolwyr o gryfderau'r coleg a'r meysydd i'w gwella. Yn y coleg arall, mae cysylltiadau rhwng yr adroddiad hunanasesu a'r cynllun gwella ansawdd yn aneglur. Nid yw'r un o'r ddau goleg yn defnyddio data'n ddigon da i olrhain cynnydd dysgwyr nac i lywio'r cynllunio.

**Ffigur 2.28: Niferoedd y colegau a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**



## Dull amlddisgyblaethol o reoli ymddygiad

Mae **Coleg Cambian Pengwern** yn goleg arbenigol annibynnol yn darparu addysg ar gyfer hyd at 75 o ddysgwyr 16 i 25 oed sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, anableddau corfforol a chyflyrau ar y sbectrwm awtistig. Ar hyn o bryd, mae 55 o ddysgwyr yn y coleg, 25 ohonynt yn mynychu'n ddyddiol a 30 ohonynt â lleoliadau preswyl.


Roedd gan y coleg garfan o ddysgwyr gwryw di-eiriau a oedd â diagnosis o anhwylder ar y sbectrwm awtistig ac anawsterau dysgu difrifol. Pan oeddent yn bryderus, roeddent yn aml yn ymddwyn yn heriol eithriadol ac roedd hyn yn tarfu ar eu dysgu nhw a dysgu rhai eraill. Roedd staff yn gallu rheoli'r ymddygiadau hyn yn y coleg, ond roedd angen iddynt helpu'r dysgwyr i wella sut roeddent yn rhyngweithio â'u grŵp cyfoedion. Gan mai gorbryder oedd prif ffynhonnell yr ymddygiad heriol, roedd angen gweithredu strategaeth a fyddai'n helpu i leihau gorbryder, nodi ysgogwyr a gwella ymddygiad.

Fe wnaeth dull amlddisgyblaethol rhwng gweithwyr proffesiynol addysg, gofal ac iechyd, ynghyd â chofnodi a monitro ymddygiadau'n gywir, helpu staff i ffocysu'r adnoddau a'r arbenigedd iawn ar unigolion a meysydd angen. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad llawn o'r gwaith papur ar ddigwyddiadau, datblygu strategaethau ymyrryd cadarnhaol a defnydd gwell o ddata i olrhain digwyddiadau.

Datblygodd y coleg daflen cofnodi ymddygiad bwrpasol ar gyfer pob myfyriwr, gyda ffocws clir ar newidiadau cadarnhaol mewn ymddygiad. Mae staff addysg, gofal ac iechyd yn defnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu pa strategaethau cymorth i'w rhoi ar waith.

Mae'r dull cyfannol hwn wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifrifoldeb ac amlder digwyddiadau. Mae wedi cynyddu lles myfyrwyr yn y grŵp, ac mae rhyngweithio cymdeithasol a chyfranogiad mewn digwyddiadau cymdeithasol yn y coleg wedi gwella.







# Adran 2: Adroddiad sector
## Unedau cyfeirio disgyblion

Yn Ionawr 2015, roedd 28 o unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yng Nghymru, yn addysgu rhyw 600 o ddisgyblion. Mae hyn saith UCD yn llai na'r llynedd. Yn rhannol, y rheswm am hyn yw datblygu UCDau 'portffolio', lle mae nifer o UCDau a oedd ar wahân yn flaenorol wedi cau, ac mae UCD newydd, ar sawl safle yn aml, yn agor o dan un pwyllgor rheoli.

Mae UCDau yn darparu ar gyfer disgyblion sydd ag ystod eang o anghenion nad ydynt yn addas ar gyfer addysg yn ysgolion y brif ffrwd neu sydd wedi'u gwahardd ohonynt. Mae hyn yn cynnwys disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, y rhai â materion iechyd meddwl, a mamau ifanc.

Er bod pwyllgor rheoli gan y rhan fwyaf o UCDau yn barod, daeth hyn yn statudol o 2015.

Eleni, fe wnaethom arolygu tair UCD. Mae dwy o'r rhain yn UCDau portffolio gyda darpariaeth ar sawl safle. Mae un UCD yn ganolfan asesu'r Cyfnod Sylfaen.

I gael mwy o wybodaeth am y tair UCD a arolygwyd, cliciwch ar yr adroddiadau arolygu:

UCD Sir Ddinbych
UCD Portffolio Sir y Fflint
Canolfan Enfys

Cynhaliom arolwg thematig hefyd i amlygu arfer dda mewn lleoliadau sy'n darparu addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys UCDau.

I gael mwy o wybodaeth am yr arolwg hwn, cliciwch ar yr adroddiad thematig, 'Addysg heblaw yn yr ysgol: arolwg arfer dda'.

# Crynodeb
# Unedau cyfeirio disgyblion

Ni nodwyd bod arfer ragorol yn unrhyw un o'r UCDau. Hon yw'r flwyddyn gyntaf yn y cylch arolygu hwn pan nad oes unrhyw UCD wedi'i rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol statudol.

Nodwyd bod angen eu monitro gan Estyn ar ddwy UCD. Mae gwendidau yn eu prosesau hunanarfarnu yn y ddwy UCD hon. Nid ydynt yn cofnodi nac yn dadansoddi data perfformiad yn gadarn i osod targedau priodol ar gyfer gwelliannau. Megis dechrau cael eu datblygu y mae arsylwadau o addysgu, ac nid ydynt yn cysylltu â chynlluniau gwella. O ganlyniad, nid oes dealltwriaeth glir gan arweinwyr a rheolwyr o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu.

I gael mwy o fanylion am y canfyddiadau arolygu ar gyfer pob sector, ewch i data.estyn.llyw.cymru

**Ffigur 2.29: Niferoedd yr unedau cyfeirio disgyblion mewn lefelau gweithgarwch dilynol**



# Deilliannau: Unedau cyfeirio disgyblion

## Safonau

Mae safonau'n dda mewn dwy UCD, ac yn ddigonol yn y llall. Mae hyn yn well na'r llynedd pan oedd safonau mewn dros hanner yr UCDau yn ddigonol neu'n waeth. Eleni, cynnydd cyfyngedig disgyblion mewn ysgrifennu a rhifedd sydd i gyfrif am y farn ddigonol yn bennaf.

Ym mhob un o'r tair UCD, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da dros amser. Mae llawer o ddisgyblion yn dod i mewn i'r UCD gyda medrau darllen ymhell islaw'r rheini a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran, ac maent yn ysgrifenwyr amharod. Mae llawer o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da dros amser o ran gwella cywirdeb a rhuglder eu darllen, ac maent hefyd yn gwneud cynnydd cyson yn eu hysgrifennu. Er enghraifft, mae disgyblion ifanc iawn yn dangos eu dealltwriaeth o destun drwy gydweddu symbolau â digwyddiadau mewn stori, mae disgyblion hŷn yn gwneud ymdrechion synhwyrol wrth sillafu geiriau anghyfarwydd, ac mae disgyblion mwy abl yn defnyddio amrywiaeth o gystrawennau ac yn paragraffu eu gwaith yn briodol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mewn un UCD yn gwella eu gwaith ysgrifenedig yn ddigon da mewn perthynas â'u hoedran a'u gallu ac maent yn parhau i ailadrodd camgymeriadau sylfaenol o ran atalnodi a ffurfio llythrennau.

Dros amser, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd sylfaenol yn ystod gwersi mathemateg ac maent yn dod yn fwy hyderus, heb fod ofn methu yn eu dal yn ôl. Maent yn datblygu medrau ymarferol, fel pwyso a mesur wrth goginio. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn ddigon da mewn pynciau heblaw am fathemateg. Mae llawer yn ei chael hi'n anodd i ddatrys problemau ac nid yw disgyblion mwy abl bob amser yn cael eu herio i gyflawni'u potensial mewn gwersi mathemateg.


## Lles

Mewn dwy UCD a arolygwyd, mae lles disgyblion yn dda ac mae'n ddigonol yn y llall. Ym mhob un o'r UCDau, mae disgyblion a oedd â lefel presenoldeb isel iawn yn flaenorol yn mynychu'n fwy rheolaidd erbyn hyn. Mewn un UCD, fodd bynnag, mae presenoldeb cyffredinol yn rhy isel, ac mewn UCD arall, mae ychydig o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 yn dal i fynychu'n afreolaidd. Caiff eu lefel presenoldeb isel effaith negyddol ar eu safonau a'u lles. Mewn un UCD, nid yw lefelau uchel o amser distrwythur yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer bywyd gweithio.

Pan fydd disgyblion yn dechrau yn yr UCDau lle mae lles yn dda, ychydig o hyder fydd ganddynt yn aml, maent yn cael anhawster rheoli eu hymddygiad, ac mae ganddynt hanes o bresenoldeb gwael. Fodd bynnag, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwella eu hymddygiad dros amser. Maent yn dysgu rheoli eu hemosiynau ac yn lleihau gwrthdaro gyda staff a disgyblion eraill. Mae disgyblion â lefelau uchel o orbryder yn magu hyder ac yn dod yn fwy parod i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp a mynegi'u hunain. Mae disgyblion a rhieni yn cydnabod sut mae'r newidiadau cadarnhaol hyn yn gwella ansawdd eu bywydau. Mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni'n dda yn erbyn eu targedau ymddygiad a phresenoldeb unigol, ac mae nifer y gwaharddiadau yn isel.

Mae bron pob disgybl yn datblygu'r hyder a'r medrau cymdeithasol sydd eu hangen i symud yn llwyddiannus i ysgolion eraill, addysg bellach, hyfforddiant neu waith.

**Ffigur 2.30: Niferoedd yr unedau cyfeirio disgyblion a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



# Darpariaeth: Unedau cyfeirio disgyblion

Mae'r ddarpariaeth yn dda ym mhob un o'r tair UCD a arolygwyd eleni. Mae hyn yn well na'r llynedd, pan nad oedd ddim gwell na digonol mewn chwech o'r wyth UCD a arolygwyd.

Mae pob un o'r tair UCD yn darparu profiadau dysgu da ar gyfer disgyblion. Caiff y cwricwlwm ei addasu'n dda i fodloni anghenion pob disgybl, ac mae'n canolbwyntio'n briodol ar addysg bersonol a chymdeithasol. Mae staff yn gwneud defnydd da o arbenigedd a gwasanaethau asiantaethau allanol, fel y Tîm Cyffuriau ac Alcohol Pobl Ifanc, i helpu disgyblion i gadw'n ddiogel a deall eu cyfrifoldebau fel dinasyddion.

Yn gyffredinol, mae'r UCDau yn cynllunio'n dda i ddatblygu medrau siarad, gwrando a darllen mewn ystod o bynciau. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer ysgrifennu a TGCh wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae un UCD yn canolbwyntio'n arbennig o gadarn ar ailintegreiddio disgyblion cyfnod allweddol 3 yn ysgolion y brif ffrwd. Mae'r cwricwlwm yn cefnogi'r ymagwedd hon yn dda iawn. Mae disgyblion yn rhannu'u hamser rhwng yr UCD ac ysgolion y brif ffrwd, ac yn raddol yn cynyddu'u hamser yn yr ysgol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn magu'r hyder sydd ei angen arnynt i ddychwelyd i'r ysgol ac aros yno.

Ceir addysgu da mewn dwy o'r UCDau, ac addysgu digonol yn y llall. Ym mhob un o'r UCDau, mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn adnabod ac yn deall eu disgyblion yn dda. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad, maent yn pennu ffiniau clir ac yn ymateb yn gyflym os yw materion yn codi. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn gosod amcanion dysgu clir ac yn defnyddio ystod eang o strategaethau ac adnoddau addysgu sy'n cyfateb i anghenion a galluoedd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw ychydig o athrawon yn darparu digon o waith ymarferol i ennyn diddordeb disgyblion yn llawn neu i atgyfnerthu'r dysgu.


Mewn dwy o'r tair UCD, gwna staff ddefnydd effeithiol o ystod eang o strategaethau asesu, gan gynnwys arsylwadau â ffocws, i gofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r data asesu hwn yn rhoi darlun clir o gryfderau pob disgybl a'u meysydd i'w datblygu. O ganlyniad, mae staff yn gosod targedau clir, perthnasol ar gyfer unigolion. Mewn un UCD, fodd bynnag, yn aml nid yw staff yn defnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt am gynnydd disgyblion i gynllunio gwaith addas. Yn gyffredinol, mae staff mewn UCDau yn rhoi adborth llafar adeiladol i ddisgyblion sy'n eu cymell a'u helpu i ganolbwyntio ar y dasg. Er gwaethaf disgwyliadau uchel llawer o staff, nid yw ychydig ohonynt bob amser yn annog disgyblion i weithio'n annibynnol.

Mae trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn yr UCDau yn bodloni'r gofynion yn gyffredinol, er bod ychydig o feysydd pryder mewn un UCD. Mae'r pryderon hyn yn ymwneud â diweddaru polisïau yn rheolaidd, diogelwch y safle a chysondeb wrth gofnodi'r ymyriadau corfforol y mae angen i staff ymgymryd â nhw pan fydd ymddygiad disgybl yn wael.

Mae strategaethau priodol ar waith gan bob un o'r UCDau i wella ymddygiad disgyblion. Mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion ac amgylchedd tawel yn hyrwyddo ymddygiad da. Mae arweiniad a chymorth gan wasanaethau arbenigol, fel therapyddion lleferydd ac iaith, seicolegwyr addysgol a'r heddlu, yn cefnogi'r UCDau i fodloni anghenion ehangach disgyblion.

Mae'r amgylchedd dysgu yn yr UCDau yn dda fel arfer. Fodd bynnag, nid yw dodrefn sydd wedi torri a charpedi â staeniau mewn un UCD yn darparu amgylchoedd croesawgar i ddisgyblion. Nid yw'r cyfleusterau toiled yn yr UCD hon yn bodloni'r gofynion.

**Ffigur 2.31: Niferoedd yr unedau cyfeirio disgyblion a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Unedau cyfeirio disgyblion

Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda mewn dwy UCD, ac yn ddigonol mewn un. Eleni, am y tro cyntaf ers 2010-2011, nid oes yr un UCD lle mae'r arweinyddiaeth yn anfoddhaol yn gyffredinol.

Yn y ddwy UCD lle ceir arweinyddiaeth dda, mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn gweithio'n dda fel tîm. Mae eu rolau'n glir ac maent yn deall eu cyfrifoldebau. Mewn un UCD, nid yw'r trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth cyffredinol yn arwain at ymagwedd gyson ar draws ei holl ddarpariaeth.

Mae arweinyddiaeth well gan yr awdurdod lleol wedi arwain at bwyllgorau rheoli gwell mewn dwy UCD. Fodd bynnag, ym mhob un o'r tair UCD, nid yw rôl y pwyllgor rheoli wedi'i datblygu'n ddigonol o hyd. Nid yw aelodau'n arfarnu data perfformiad disgyblion yn ddigon da, ac nid ydynt yn herio'r UCD ynglŷn â chamau a gymerwyd.


Mae'r trefniadau ar gyfer gwella ansawdd yn ddigonol mewn dwy UCD ac yn anfoddhaol yn y llall. Ceir diffygion yn yr hunanarfarnu ym mhob un o'r UCDau. Nid yw arweinwyr yn ymgynghori'n ddigon da ag athrawon a phwyllgorau rheoli, ac mae adroddiadau hunanarfarnu yn rhy ddisgrifiadol. Yn y ddwy UCD portffolio, mae arweinwyr yn ystyried pob safle ar wahân ac nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon da o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu ar draws yr UCD gyfan.

Ym mhob un o'r tair UCDau, mae'r hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella yn cysylltu'n dda yn gyffredinol, ond nid yw staff yn defnyddio data'n ddigon da i lywio cynlluniau gwella ac i fesur cynnydd wrth fynd i'r afael â thargedau.

Mae gan bob UCD gysylltiadau cadarn ag ystod o bartneriaid sy'n cyfrannu at wella safonau a lles. Er enghraifft, mewn un UCD, mae gwaith effeithiol gydag asiantaethau eraill yn gwneud yn siŵr bod disgyblion yn derbyn asesiadau arbenigol yn brydlon. Mewn un arall, mae perthnasoedd da gydag ysgolion lleol yn helpu cyfrannau uchel o ddisgyblion i ddychwelyd i'r ysgol. Ym mhob un o'r UCDau, mae staff mewn cysylltiad agos â rhieni a gofalwyr, sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a'u bod yn gallu gofyn cwestiynau a mynegi pryderon.

Mae'r rheolaeth ar adnoddau yn dda mewn dwy UCD ac yn ddigonol mewn un uned. Mae gan staff ym mhob UCD ystod dda o brofiad ac maent yn meddu ar gymwysterau addas i gyflwyno'r cwricwlwm. Ym mron pob UCD, mae staff cymorth yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at yr addysgu a'r dysgu. Mae hyfforddiant a datblygiad staff yn cyfateb i flaenoriaethau UCDau yn briodol. Fodd bynnag, nid oes gan bob athro fynediad i reolaeth perfformiad a chymorth, gan gynnwys arsylwadau o wersi, gosod targedau ac adolygu perfformiad.

**Ffigur 2.32: Niferoedd yr unedau cyfeirio disgyblion a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**



# Gweithgarwch dilynol: Unedau cyfeirio disgyblion

O'r chwech UCD yr oedd angen gweithgarwch dilynol ynddynt ar ôl eu harolygiadau craidd yn 2013-2014, roedd tair uned wedi gwneud cynnydd da ac fe'u tynnwyd o gategori gweithgarwch dilynol. Fe wnaeth pob un o'r UCDau hyn weithredu'n gyflym i fynd i'r afael ag argymhellion. Er enghraifft, cyflwynodd un UCD arferion systematig i reoli a chofnodi ymddygiad ac fe wnaethant wella eu prosesu dadansoddi data er mwyn nodi tueddiadau. Dangosodd y dadansoddiad data hwn gynnydd mewn ymddygiad aflonyddgar adeg egwyl y bore, a phan aeth staff ati i newid arferion, fe wnaeth nifer y digwyddiadau ostwng, ac roedd disgyblion yn ymgysylltu'n well yn y gwersi ar ôl amser egwyl.

Cafodd y tair UCD arall yr oedd angen gweithgarwch dilynol ynddynt eu cau neu eu cyfuno. Ymwelwyd â'r UCD a gafodd ei chyfuno, a nodwyd bod angen gwelliant sylweddol ynddi.

Nodwyd bod angen ei monitro gan Estyn ar **Ganolfan Ddysgu Glanynant**, UCD yng Nghaerffili, ar ôl ei harolygiad craidd ym mis Mai 2014. Ym Mehefin 2015, ymwelodd tîm o arolygwyr â'r uned eto, a barnodd ei bod wedi gwneud cynnydd cryf yn gyffredinol ac nad oedd angen gweithgarwch dilynol arni mwyach.

Mae'r UCD wedi gwneud cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad yn ymwneud â diogelu. Mae pob un o'r staff wedi cael hyfforddiant perthnasol ac mae'r UCD yn cydymffurfio â gofynion adrodd.

Erbyn hyn, mae athrawon ac arweinwyr yn cofnodi, yn monitro ac yn dadansoddi data ar bresenoldeb, gwaharddiadau, ymddygiad a pherfformiad disgyblion yn effeithiol. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i nodi tueddiadau a chynllunio gwelliannau. Mae newidiadau i'r ffordd y maent yn rheoli ymddygiad aflonyddgar yn ystod amser egwyl wedi lleihau nifer y digwyddiadau difrifol a gwella ymgysylltiad a phresenoldeb disgyblion mewn gwersi.

Mae athrawon yn defnyddio data ac asesu yn effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion a llywio'r cynllunio. Defnyddiant y wybodaeth hon i gynllunio gwersi a gwneud newidiadau i'r cwricwlwm, gan gynnwys cyflwyno rhaglen ymyrraeth fathemateg newydd i fynd i'r afael â thanberfformiad lleiafrif o ddisgyblion mewn mathemateg.

Mae asesiad gwell o safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion pan fyddant yn dod i mewn i'r UCD yn helpu staff i nodi anghenion disgyblion yn fwy cywir. Mae asesu ac olrhain parhaus o waith disgyblion yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o gyflawniadau disgyblion. Mae athrawon yn gosod targedau priodol ar gyfer disgyblion ac yn defnyddio ystod addas o ymyriadau i gynorthwyo disgyblion i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae polisi asesu a marcio diwygiedig yn pennu disgwyliadau clir ar gyfer staff. Ym mron pob achos, mae'r marcio yn nodi nodweddion cadarnhaol ac o leiaf un maes i'w wella, ac mae hyn yn helpu disgyblion i ddeall sut gallant wneud eu gwaith yn well.

Mae arweinwyr wedi sefydlu cylch o weithgareddau sicrhau ansawdd i fonitro ac adolygu gwaith yr UCD. Mae'r broses hunanarfarnu yn ystyried ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys archwiliadau gan bartneriaid allanol, tystiolaeth o arsylwadau o wersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn defnyddio barnau'r holl brif randdeiliaid, gan gynnwys disgyblion, rhieni a staff. Yn gyffredinol, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn cysylltu'n dda â chynlluniau'r UCD ar gyfer gwella. Mae'r cynllun yn nodi targedau clir, meini prawf llwyddiant addas, graddfeydd amser priodol, staff i arwain ar bob maes i'w ddatblygu a strategaethau addas i sicrhau'r gwelliannau a fwriedir.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r UCD wedi cyflwyno polisïau newydd ac wedi diweddaru rhai cyfredol. Er bod gwelliannau i'w gwneud o hyd yn y maes hwn o waith yr UCD, mae arweinwyr yn datblygu dulliau cliriach, mwy systematig o gadw cofnodion ac adolygu polisïau.





# Adran 2: Adroddiad sector

## Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc

Arolygodd Estyn bob un o'r 22 o wasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 2010 a 2014. Roedd angen rhyw weithgarwch dilynol ar bymtheg o awdurdodau lleol yn dilyn eu harolygiad cychwynnol. Yn ystod 2014-2015, canolbwyntiodd arolygiadau ar fonitro'r cynnydd a wnaed gan yr awdurdodau hynny yr oedd angen gweithgarwch dilynol arnynt o hyd.

# Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc

Mae dull Estyn o fonitro awdurdodau lleol y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt yn dibynnu ar natur a difrifoldeb yr argymhellion a wnaed yn ystod yr arolygiad gwreiddiol. Mae arolygwyr Estyn yn gweithio gydag awdurdodau i gytuno ar raglen o weithgarwch dilynol sy'n caniatáu digon o amser i'r awdurdod ddangos cynnydd. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys rhwng un a thri ymweliad monitro. Cafodd dau awdurdod, sef Blaenau Gwent a Sir Benfro, ail-arolygiadau llawn oherwydd eu diffygion difrifol. Yn ystod yr ymweliad monitro terfynol neu'r ail-arolygiad, bydd arolygwyr yn arfarnu cynnydd yn erbyn pob un o'r argymhellion ac yn penderfynu a oes angen gweithgarwch dilynol ar yr awdurdod o hyd.

Erbyn Gorffennaf 2015, roedd pedwar awdurdod lleol (Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Sir Fynwy a Thorfaen) yn y categori mesurau arbennig o hyd ac roedd un awdurdod (Caerdydd) yn y categori angen gwelliant sylweddol o hyd. Penodwyd bwrdd adfer ar gyfer pob awdurdod gan Lywodraeth Cymru. Gwnaeth pob un o'r awdurdodau hyn gynnydd araf i gychwyn wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'u harolygiadau.

Ni wnaeth yr awdurdodau weithredu'n ddigon cyflym i fynd i'r afael â diffygion yn yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth, neu o ran creu diwylliant a fyddai'n eu helpu i wella. Yn yr awdurdodau hyn, roedd cynlluniau'n canolbwyntio ar weithgareddau gwella heb roi digon o sylw i ddeilliannau. Roedd gweithgareddau monitro a hunanarfarnu mewnol hefyd yn canolbwyntio gormod ar b'un a oedd camau gweithredu yn cael eu cyflawni mewn pryd ac yn unol â'r gyllideb, ac nid digon ar effaith y camau ar blant a phobl ifanc. Lle'r oedd perfformiad ysgolion yn arbennig o wan, nid yw swyddogion cyfrifol neu benaethiaid yn aml wedi'u dwyn i gyfrif na'u rheoli'n briodol. Yn y mwyafrif o'r awdurdodau hyn, roedd gwasanaethau gwella ysgolion a oedd yn cael eu darparu drwy gonsortia rhanbarthol, yn anfoddhaol. Fodd bynnag, mae gwasanaethau gwella ysgolion yn cael eu darparu bron yn gyfan gwbl erbyn hyn drwy'r consortia rhanbarthol, a bydd effeithiolrwydd gwasanaeth pob consortiwm yn cael ei arfarnu yn ôl p'un a yw ysgolion mewn awdurdodau lleol yn gwella neu beidio.


Yn ystod 2014-2015, fe wnaeth Estyn arolygu'r cynnydd a wnaed gan gonsortia rhanbarthol. Bryd hynny (rhwng mis Tachwedd ac Ionawr), canfu arolygwyr fod consortia rhanbarthol yn well yn herio ysgolion ynglŷn â'u perfformiad presennol na'u cynorthwyo i wella (Estyn, 2015b). Mae ymyriadau gan y consortia rhanbarthol mewn ysgolion sy'n perfformio'n wael, yn y mwyafrif o achosion, wedi cyfrannu at ddeilliannau gwell yn 2015 yn yr awdurdodau lleol y mae angen gweithredu mesurau arbennig ynddynt, neu y mae angen eu gwella'n sylweddol.

O fis Medi 2014, derbyniodd 40 o ysgolion uwchradd sy'n wynebu'r 'her fwyaf o ran eu hamgylchiadau a'u camau datblygu' adnoddau ychwanegol sylweddol drwy'r rhaglen Her Ysgolion Cymru (Llywodraeth Cymru, 2014a). Canfu arolygiad Estyn fod y consortia rhanbarthol ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny a oedd mewn categori gweithgarwch dilynol o hyd yn aneglur ynglŷn â'u perthynas weithio gyda'u hysgolion yn y rhaglen, neu sut i arfarnu eu cyfraniad at wella'r ysgolion hyn.

Yn 2016, bydd Estyn yn arolygu'r pedwar consortiwm addysg rhanbarthol ac yn monitro cynnydd pob consortiwm flwyddyn yn ddiweddarach. Bydd cylch newydd o arolygiadau o wasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc yn dechrau o fis Medi 2017.

I gael mwy o wyboaeth am y consortia addysg rhanbarthol, cliciwch ar yr adroddiad thematig, 'Gwella ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol'.

I gael mwy o fanylion am y canfyddiadau arolygu ar gyfer pob sector, ewch i data.estyn.llyw.cymru





# Adran 2: Adroddiad sector
## Colegau addysg bellach

Eleni, sefydlodd Estyn ddull newydd o arolygu addysg bellach sy'n golygu arolygu meysydd dysgu dethol. Cynhaliom yr arolygiad cyntaf yn y cylch newydd hwn yn Chwefror 2015.

I gael mwy o wybodaeth am yr arolygiad hwn, cliciwch ar yr adroddiad arolygu

# Colegau addysg bellach

Ymwelodd arolygwyr â'r holl golegau addysg bellach eleni hefyd, fel rhan o'n gwaith cyswllt gyda phob coleg. Canolbwyntiodd yr ymweliadau ar ddwy thema: pa mor dda y mae colegau yn defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed.

At ei gilydd, mae colegau addysg bellach yn defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur yn effeithiol wrth gynllunio'u darpariaeth. Mae gan reolwyr wybodaeth gynhwysfawr am eu hardal leol a'r hyn sydd ei angen ar gyflogwyr, a defnyddiant y wybodaeth hon yn dda wrth gynllunio cyrsiau. Mae ychydig o golegau yn defnyddio rhaglen ymchwil fasnachol, ar-lein i fonitro tueddiadau cyflogaeth. Yn yr achosion gorau, mae tiwtoriaid a dysgwyr colegau yn defnyddio'r rhaglen hon i ganfod pa ardaloedd sy'n cynnig y cyfleoedd swyddi gorau iddynt, ac i nodi cyfleoedd cyflogaeth eraill.

Mae bron yr holl golegau yn diwygio'u cwricwlwm yn flynyddol i adlewyrchu newidiadau yn y farchnad lafur. Er enghraifft, mae coleg yng Ngorllewin Cymru yn addasu ei gyrsiau yn y cyfryngau a'r celfyddydau perfformio i fodloni datblygiadau newydd yn y diwydiant ffilm a theledu. Mae llawer o golegau yn gweithio gydag ystod o bartneriaid i ddylunio cyrsiau sy'n berthnasol i'r ardal leol. Er enghraifft, mae coleg yng Ngogledd Orllewin Cymru wedi gweithio gyda rhwydwaith ffermydd arloesol Cymru i ddatblygu cwrs mewn bridio anifeiliaid.

Mae ychydig o golegau yn gweithio gyda cholegau addysg bellach eraill, sefydliadau addysg uwch a chyflogwyr i gynnig cyrsiau sy'n paratoi dysgwyr i fodloni bylchau penodol yn y farchnad lafur. Mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau harddwch ar gyfer y diwydiant sba iechyd, a chyrsiau arbenigol mewn bwtsiera a phobyddiaeth.


Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw cyngor ac arweiniad i ddysgwyr trwy gydol eu haddysg yn cynnig digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth dda o'r farchnad lafur a chyfleoedd cyflogaeth. Mae hyn yn golygu nad yw llawer o ddysgwyr yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ystyried cyfleoedd cyflogaeth pan fyddant yn dewis eu cwrs coleg. Mae llawer yn dewis peidio ag ymgymryd â chyrsiau mwy newydd, gan ei fod yn well ganddynt ymuno â llwybrau sefydledig traddodiadol. Mae hyn yn golygu bod colegau wedi dileu cyrsiau ag iddynt werth cyflogadwyedd uchel, fel ffasiwn a manwerthu, oherwydd niferoedd isel.

Mae pob un o'r colegau yn cynnig cyrsiau i ddysgwyr 14 i 16 oed mewn ysgolion. Mae'r trefniant hwn yn ehangu'r ystod o ddewisiadau pynciau sydd ar gael i ddysgwyr ysgolion, ac yn darparu cyfleoedd iddynt samplu cyrsiau coleg a phenderfynu p'un ai i aros yn yr ysgol neu fynychu addysg bellach ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Nod colegau yw darparu cyrsiau i ddysgwyr 14 i 16 oed nad yw ysgolion yn gallu eu cynnig yn hawdd. Cyrsiau galwedigaethol yw'r rhan fwyaf o gyrsiau sy'n cael eu cynnig, fel trin gwallt a harddwch, adeiladu, a ffilm a'r cyfryngau. Mae lleiafrif o golegau hefyd yn cynnig cyrsiau academaidd, yn enwedig lle mae ganddynt arbenigedd mewn meysydd addysgu penodol, fel ffotograffiaeth, cyfrifiadura neu Sbaeneg. Mae nifer y dewisiadau pwnc sy'n cael eu cynnig gan golegau yn amrywio gryn dipyn rhwng darparwyr, o ychydig o bynciau ar ychydig o lefelau i ystod gynhwysfawr o raglenni galwedigaethol ac academaidd.

Mae deilliannau ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed ar y cyrsiau hyn yn cael eu monitro a'u holrhain yn ofalus gan y colegau. Yn y darparwyr gorau, mae staff yn gyfarwydd ag ystod o ddata gwerth ychwanegol a data cyd-destunol, gan gynnwys data Ymddiriedolaeth Teulu Fischer, ac yn defnyddio'r dadansoddiad hwn yn dda i fonitro ac olrhain cynnydd yn yr un ffordd ag y bydd ysgolion yn ei wneud. Mae dysgwyr yn elwa ar y dull cyson hwn. Mae llawer o ddarparwyr addysg bellach yn cynhyrchu adroddiadau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn defnyddiol a llawn gwybodaeth ar gyfer disgyblion unigol. Ym mron pob darparwr, ceir strategaeth gadarn ar gyfer adrodd ar ddiffyg presenoldeb i'r ysgolion, ac mae'r dilyniant gan bron pob ysgol yn effeithiol ar gyfer mynd i'r afael ag absenoldeb disgyblion.

Mae bron pob un o'r colegau addysg bellach yn gweithio ar y cyd ag ysgolion partner i benderfynu ar y dewisiadau cwricwlwm a gyflwynir i ddysgwyr 14 i 16 oed. Yn yr achosion gorau, mae'r ysgolion a'r colegau yn gweithio'n dda â'i gilydd fel bod gan ddisgyblion lwybr dilyniant clir drwy'r cyrsiau a'r lefelau amrywiol. Mae'r awdurdod lleol yn cefnogi hyn, ac yn bartner gweithgar wrth ddylunio'r cwricwlwm ac o ran sicrhau y gall disgyblion gael mynediad i'r dewisiadau mwyaf priodol. Lle mae hyn yn digwydd, mae gan ddisgyblion ystod dda o ddewisiadau sy'n gwella eu hopsiynau dysgu, maent yn cyflawni eu hamcanion, nodau a chymwysterau dysgu, ac maent yn symud ymlaen at astudio pellach neu gyflogaeth briodol. Lle bydd coleg addysg bellach yn gweithio gyda mwy nag un awdurdod lleol, ceir cryn wahaniaeth rhwng yr awdurdodau yn aml. Yn yr awdurdodau lleol nad ydynt yn hyrwyddo'r trefniadau cydweithredu hyn neu'r cyrsiau coleg yn ddigon da, mae gormod o ddisgyblion yn colli allan ar y buddion hyn.

I gael mwy o fanylion am y canfyddiadau arolygu ar gyfer pob sector, ewch i data.estyn.llyw.cymru





# Adran 2: Adroddiad sector
## Dysgu yn y gwaith

Dysgu yn y gwaith yw'r term a ddefnyddir ar gyfer dysgwyr sy'n ymgymryd â hyfforddiant ac asesu yn eu gweithle. Gall y dysgu hefyd gynnwys hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith neu asesu yng nghanolfan hyfforddi darparwr neu mewn coleg addysg bellach, fel cyrsiau i roi i bobl ifanc y medrau sydd eu hangen arnynt i ennill swydd. Mae darparwyr dysgu yn y gwaith yn darparu ystod eang o hyfforddiant, wedi'i gynllunio i fodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr, mewn meysydd galwedigaethol fel trin gwallt a harddwch, adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, menter manwerthu a masnachol, a thechnolegau peirianneg a gweithgynhyrchu.

Mewn llawer o achosion, mae dysgwyr yn ymgymryd â phrentisiaethau yn y gweithle ar lefelau 2 i 5, ac yn gyffredinol mae'r rhaglenni yn cymryd dwy i dair blynedd i'w cwblhau. Bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgymryd â hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith am ddiwrnod yr wythnos. Daw llawer o brentisiaid yn aelodau gwerthfawr o weithlu eu cyflogwr dros amser. Fodd bynnag, byddant yn aml yn wynebu ystod o rwystrau, gan gynnwys medrau llythrennedd a rhifedd gwan, sy'n eu hatal rhag ennill a chadw cyflogaeth, neu symud ymlaen i'r lefel hyfforddiant nesaf.

Yn 2014-2015, fe wnaeth nifer y darparwyr arweiniol dysgu yn y gwaith yng Nghymru ostwng o 22 i 20, o ganlyniad i adolygiad gan Lywodraeth Cymru o'i threfniadau contractio. Mae'r 20 o ddarparwyr yn gweithio mewn partneriaeth â chyfanswm o dros 100 o aelodau consortiwm ac isgontractwyr, yn gwasanaethu 65,875 o ddysgwyr. O'r rhain, roedd 20,860 yn gwneud prentisiaethau, roedd 25,335 yn gwneud prentisiaethau sylfaen, ac 19,680 yn gwneud hyfforddiant arall, yn cynnwys paratoi ar gyfer rhaglenni cyflogaeth. Eleni, fe wnaethom arolygu pedwar darparwr, a chwblhau ymweliad monitro ag un darparwr arall.

I gael mwy o wybodaeth am y pedwar darparwr a arolygwyd, cliciwch ar yr adroddiadau arolygu:


Hyfforddiant Babcock
Hyfforddiant Rathbone
B-WBL
T2 Group

# Crynodeb: Dysgu yn y gwaith

Eleni, barnwyd bod arfer ragorol mewn un darparwr oherwydd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth gadarn. Mae angen ymweliadau dilynol gan arolygwyr Estyn ar dri darparwr am iddynt gael barn ddigonol ar gyfer safonau a deilliannau. Mae diffygion yn cynnwys dysgwyr yn cyflawni eu fframwaith hyfforddi ar gyfraddau islaw'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn gwneud cynnydd araf o ran datblygu'u cymhwysedd ymarferol a'u gwybodaeth theori.

I gael mwy o fanylion am y canfyddiadau arolygu ar gyfer pob sector, ewch i data.estyn.llyw.cymru

**Ffigur 2.33: Niferoedd y darparwyr dysgu yn y gwaith mewn lefelau gweithgarwch dilynol**



# Deilliannau: Dysgu yn y gwaith

## Safonau


Mae safonau'n dda mewn un darparwr ac yn ddigonol mewn tri. Yn y darparwyr a arolygwyd, mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau prentisiaeth ar gyfraddau gweddol debyg i'r cymharydd cenedlaethol neu ychydig yn uwch. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar raglenni hyfforddeiaeth, parod am waith a pharatoi at waith yn cwblhau ar gyfraddau gweddol debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol. Ym mhob un o'r darparwyr, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflawni'u cymwysterau mewn medrau sylfaenol, fel Sgiliau Hanfodol Cymru, ar y lefel ofynnol neu'n well. Mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn gwella eu medrau llythrennedd yn briodol, gyda lleiafrif yn cyflawni ar lefel uwch. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, nid yw tiwtoriaid ac aseswyr yn rhoi adborth ysgrifenedig i ddysgwyr i'w helpu i wella eu perfformiad, felly nid yw lleiafrif yn gwneud digon o gynnydd.

Mae llawer o ddarparwyr wedi cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr wneud rhan o'u hyfforddiant yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae nifer y dysgwyr sy'n ymgymryd â'u hyfforddiant ac asesu yn Gymraeg yn rhy isel o hyd. Ychydig iawn o ddysgwyr sy'n dewis ysgrifennu asesiadau yn Gymraeg.

## Lles

Mae lles yn dda ym mhob un o'r darparwyr a arolygwyd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn frwdfrydig, yn gweithio'n dda gyda'u cyflogwyr ac yn llawn cymhelliant i gwblhau eu hyfforddiant a symud ymlaen i'r lefel nesaf. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, fel codi arian at elusennau, yn helpu i ddatblygu a gwella medrau cymdeithasol a medrau bywyd dysgwyr.

**Ffigur 2.34: Niferoedd y darparwyr a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**




# Darpariaeth:
# Dysgu yn y gwaith

Barnwyd bod darpariaeth yn dda mewn pedwar o'r darparwyr a arolygwyd. Maent yn cyflwyno hyfforddiant mewn ystod eang o feysydd dysgu ar lefelau priodol ac yn bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'u contract. Mae lleiafrif o ddarparwyr yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr gwblhau agweddau ar eu hyfforddiant yn Gymraeg, ond yn gyffredinol, nid yw darparwyr yn annog dysgwyr dwyieithog i ymgymryd ag agweddau ar eu hyfforddiant yn Gymraeg yn ddigon aml. Mae darparwyr yn integreiddio ADCDF i'r rhan fwyaf o raglenni, ond nid ydynt yn herio dysgwyr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn y maes hwn. Mae pob un o'r darparwyr yn hyrwyddo ethos o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae safon yr addysgu, yr hyfforddi ac asesu yn dda ym mhob un o'r pedwar darparwr. Mae gwybodaeth bynciol dda a phrofiad o ddiwydiant gan y rhan fwyaf o hyfforddwyr ac aseswyr, a defnyddiant hyn yn dda i roi lefelau uchel o gymorth personol i ddysgwyr yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith. Nid yw lleiafrif o diwtoriaid ac aseswyr yn herio neu'n cynorthwyo dysgwyr yn ddigon da i gyflawni cymhwysedd ymarferol ar lefel uwch a gwella medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Nid yw lleiafrif yn marcio gwaith ysgrifenedig dysgwyr yn unol â strategaeth marcio'r darparwyr nac yn rhoi adborth ysgrifenedig adeiladol i ddysgwyr sy'n eu helpu i wella eu perfformiad yn y dyfodol. Mae dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael mynediad at ystod eang o gymorth arbenigol a staff hyfforddedig pan gaiff angen ei nodi.

Mae gweithdrefnau addas gan bob un o'r pedwar darparwr ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad, gan gynnwys polisïau a gweithdrefnau diogelu priodol. Yn ystod y cyfnod sefydlu ac adolygiadau cynnydd rheolaidd, mae hyfforddwyr ac aseswyr yn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o iechyd a lles yn dda. Yn aml, mae cyfleusterau hyfforddi i ffwrdd o'r gwaith o ansawdd da.

**Ffigur 2.35: Niferoedd y darparwyr a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Dysgu yn y gwaith


Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn rhagorol mewn un darparwr, ac yn dda yn y tri darparwr arall a arolygwyd. Yn y darparwr rhagorol, mae'r arweinyddiaeth yn cefnogi perthnasoedd gweithio effeithiol iawn rhwng partneriaid consortiwm, cyflogwyr lleol, ysgolion a darparwyr hyfforddiant eraill. Mae rheolwyr yn darparu cymorth amserol a buddiol i ddarparwyr sy'n tanberfformio sydd yn ymuno â'r consortiwm. Mae gweithio da mewn partneriaeth a chyfathrebu effeithiol rhwng hyfforddwyr, aseswyr, cyflogwyr a phartneriaid allweddol eraill ym mhob un o'r pedwar darparwr yn galluogi dysgwyr a chyflogwyr i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o gyfleoedd hyfforddi, a chânt lefelau da o gymorth gan eu cyflogwyr. Mae pob un o'r darparwyr yn defnyddio rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol parhaus i wella perfformiad staff ar bob lefel, gan gynnwys y rheini o'r consortiwm ac isgontractwyr.

Mae trefniadau cadarn a chynhwysfawr gan y pedwar darparwr i hunanasesu ac adrodd ar ansawdd eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau hyn yn ddigon arfarnol bob amser, ac nid ydynt yn nodi targedau mesuradwy ar gyfer gwella yn ddigon clir.

### Mae gweithio mewn partneriaeth yn gwella ansawdd hyfforddiant a deilliannau dysgwyr

Mae **B-wbl** yn gonsortiwm dysgu yn y gwaith sy'n cael ei arwain gan Goleg Sir Benfro. Yn ystod ei arolygiad ym Mehefin 2015, nododd arolygwyr arfer sy'n arwain y sector mewn ychydig o ddangosyddion ansawdd. Yn y ddarpariaeth hon ar gyfer dysgu yn y gwaith, mae'r darparwr arweiniol yn goruchwylio ac yn arwain consortiwm effeithiol iawn o bartneriaid. Mae'r darparwr yn cefnogi'n effeithiol aelodau newydd o'r consortiwm sy'n tanberfformio, ac yn eu helpu i wella eu perfformiad yn sylweddol. Mae trefniadau gweithio mewn partneriaeth y consortiwm yn arwain at welliannau yn ansawdd yr hyfforddiant a'r cyfraddau y bydd dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau hyfforddi a chymwysterau eraill. Mae dysgwyr yn elwa ar ystod eang o brofiadau dysgu yn eu gweithleoedd. Wrth ymgymryd â hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith, mae dysgwyr yn gweithio mewn amgylcheddau ac yn cael defnyddio adnoddau sy'n rhoi cyfleoedd da iawn iddynt ddatblygu eu cymhwysedd ymarferol a'u gwybodaeth theori. Mae hyfforddwyr ac aseswyr yn defnyddio ystod gynhwysfawr o adnoddau dysgu yn effeithiol. Ceir gweithdrefnau gwella llythrennedd a rhifedd clir yn y consortiwm i wella medrau'r holl ddysgwyr ar draws y consortiwm. Mae'r consortiwm wedi gwella sut mae'n gweithio mewn partneriaeth gyda chyflogwyr ac ysgolion uwchradd yn sylweddol.

**Ffigur 2.36: Niferoedd y darparwyr a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**



# Gweithgarwch dilynol: Dysgu yn y gwaith

Mae'r un darparwr yr oedd angen ymweliad monitro gan Estyn arno yn dilyn ei arolygiad yn 2013-2014 wedi gwneud cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion yn yr adroddiad arolygu. Erbyn hyn, mae rheolwyr, hyfforddwyr ac aseswyr yn defnyddio strategaethau a gweithdrefnau clir i wella llawer o agweddau ar hyfforddiant. O ganlyniad, mae'r gyfradd y mae dysgwyr yn cwblhau eu fframweithiau hyfforddi a chymwysterau eraill arni wedi codi. Mae ansawdd profiadau dysgwyr ar draws aelodau'r consortiwm wedi gwella, trwy gymorth gwell gan hyfforddwyr ac aseswyr a phroses sicrhau ansawdd fwy cyson ar draws y consortiwm a'i isgontractwyr.









# Adran 2: Adroddiad sector
## Dysgu oedolion yn y gymuned

Mae partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn cynnwys sefydliadau addysg mewn awdurdod lleol neu ardal ranbarthol sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddarparu ystod o gyfleoedd dysgu ar gyfer oedolion. Un rhan allweddol o'u gwaith yw addysg sylfaenol i oedolion, sy'n helpu oedolion i wella eu medrau mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh, gan gynnwys llythrennedd digidol a thechnoleg symudol. Mae'r partneriaethau'n darparu hyfforddiant mewn Saesneg fel ail iaith, ac mae'r rhan fwyaf hefyd yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr wella eu Cymraeg. Mewn llawer o achosion, mae partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn gweithio gyda sefydliadau eraill, fel Cymunedau yn Gyntaf, a byddant yn darparu cyrsiau byr ar eu cyfer sydd wedi'u cynllunio i helpu dysgwyr 'anodd eu cyrraedd' i wella eu cyfleoedd yn y farchnad swyddi.

Mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned hefyd yn darparu cyrsiau fel celf, crefft, gwneud gemwaith, iaith, hanes a chyrsiau ymarfer corff. Fel arfer, mae'r rhain ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno dysgu medrau newydd yn eu hamser hamdden neu sydd am sefydlu busnesau bach. Caiff y cyrsiau hyn eu hariannu trwy ffioedd dysgwyr yn bennaf. Mewn nifer gynyddol o achosion, bydd dysgwyr yn dychwelyd i ddosbarthiadau flwyddyn ar ôl blwyddyn, heb ddymuno symud ymlaen i lefel ddysgu uwch. Maent yn elwa ar fynychu'r dosbarth trwy ymgymryd â phrosiectau personol a thrwy gael cyswllt cymdeithasol rheolaidd. Lle bydd hyn yn digwydd, bydd partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn gwahodd y dosbarth i ddod yn glwb ac yn darparu cymorth o ran sefydlu'r clwb a darparu'r lleoliad. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn bodloni anghenion dysgwyr yn dda ac yn cyfrannu'n effeithiol at eu lles.

Yn 2014-2015, roedd 15 o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth Cymdeithasau Addysg y Gweithwyr y Gogledd a'r De uno i ffurfio un corff ar gyfer Cymru gyfan. Ar ddiwedd 2014-2015, fe wnaeth Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru gyfan newydd uno ymhellach gyda YMCACymru i ffurfio coleg newydd, a'i brif ffocws yw darparu addysg ar gyfer oedolion.

Yn 2015, mewn ymateb i drefniadau ariannu diwygiedig, ymgymerodd pob partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned ag adolygiad o'r graddau y gall y bartneriaeth ddarparu mwy na chwricwlwm craidd o addysg sylfaenol i oedolion a Saesneg fel ail iaith. Mewn llawer o achosion, ni fydd partneriaethau yn gallu cynnig mwy na'r cyrsiau hynny a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Yn 2014-2015, cafodd tair partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned eu harolygu.

I gael mwy o wybodaeth am y tair partneriaeth a arolygwyd, cliciwch ar yr adroddiadau arolygu:

Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Benfro
Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Abertawe
Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gwent Fwyaf

# Crynodeb: Dysgu oedolion yn y gymuned

Barnwyd bod safonau da yn y tair partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned, a'u bod yn cynnig darpariaeth dda, gyda chyfraddau llwyddo dysgwyr yn gwella. Mae partneriaid yn cynllunio'r cwricwlwm yn effeithiol i fodloni anghenion dysgwyr yn eu hardal, ac mae ansawdd yr addysgu yn dda. Ceir rhagolygon gwella rhagorol mewn dwy o'r tair partneriaeth, am fod arweinwyr yn cyfleu gweledigaeth strategol glir i staff a dysgwyr, ac yn defnyddio systemau cadarn ac onest i fonitro ansawdd yr addysgu, y dysgu a'r cwricwlwm. Yn ogystal, mae pob partneriaeth yn gweithio i helpu dysgwyr sy'n anodd eu cyrraedd, ac yn darparu cyrsiau wedi'u targedu'n dda mewn lleoliadau sy'n hawdd eu cyrraedd. Digonol yw'r rhagolygon gwella yn y drydedd bartneriaeth am nad oes ganddi brosesau sicrhau ansawdd cadarn.

I gael mwy o fanylion am y canfyddiadau arolygu ar gyfer pob sector, ewch i data.estyn.llyw.cymru

**Ffigur 2.37: Niferoedd y partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned mewn lefelau gweithgarwch dilynol**



# Deilliannau: Dysgu oedolion yn y gymuned

## Safonau

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n oedolion yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd sylweddol yn eu dysgu. Mewn dwy o'r partneriaethau a arolygwyd, mae dysgwyr sy'n oedolion wedi gwella cyfraddau llwyddo o wyth i ddeunaw pwynt canran er 2011. Mewn un darparwr, cynnydd digonol y mae dysgwyr yn ei wneud am eu bod yn dysgu ar yr un lefel cymhwyster am gyfnod rhy hir.

Mae grwpiau gwahanol o ddysgwyr yn cyflawni'n dda at ei gilydd, yn enwedig dysgwyr o ardaloedd difreintiedig sy'n llwyddo gystal â dysgwyr o ardaloedd mwy breintiedig.

Mae dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau addysg sylfaenol i oedolion yn gwneud cynnydd da yn gyffredinol o gymharu â'u mannau cychwyn. Mae llawer o ddysgwyr sy'n astudio Saesneg fel ail iaith yn cwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus ac yn aml yn symud ymlaen i gyrsiau mewn addysg bellach ac addysg uwch.

Mae bron yr holl ddysgwyr yn llawn cymhelliant ac yn deall sut i ddatblygu'u medrau, yn enwedig mewn rhai o'r cyrsiau ymarferol a arolygwyd, fel turnio coed, paentio a serameg. Mewn ychydig o achosion, nid yw tiwtoriaid yn esbonio'n ddigon da i ddysgwyr sut i ddefnyddio targedau dysgu unigol i fesur eu cynnydd eu hunain.


Mae llawer o ddysgwyr ar draws ystod o bynciau yn gwella eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mewn dosbarthiadau Llythrennedd Teulu, mae llawer o ddysgwyr yn cael boddhad yn datblygu medrau newydd ar gyfer cynorthwyo dysgu eu plant. Er enghraifft, maent yn dysgu sut i gyflwyno a darllen stori i'w plentyn mewn ffordd fywiog a difyr.

## Lles

Mae bron yr holl ddysgwyr yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn trafod eu gwaith yn hyderus gyda chyd-ddysgwyr a gyda'u tiwtoriaid. Mae llawer o ddysgwyr yn mwynhau'r cyfeillgarwch, y dysgu a'r cymdeithasu a ddatblygwyd mewn dosbarthiadau, sy'n cyfrannu'n sylweddol at eu hymdeimlad o les.



**Ffigur 2.38: Niferoedd y partneriaethau a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



# Darpariaeth: Dysgu oedolion yn y gymuned


Mae partneriaethau'n gweithio'n dda i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan ystyried ystod o wybodaeth, fel gwybodaeth am y farchnad lafur, gwybodaeth ddemograffig a pholisïau a strategaethau lleol, er mwyn datblygu'r cwricwlwm sy'n cael ei gynnig. Maent yn mynd i'r afael ag anghenion dysgwyr di-waith a dysgwyr sy'n agored i niwed trwy ddarparu cyrsiau sydd wedi'u cynllunio'n dda i wella cymwysterau dysgwyr. O ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr yn magu hunanhyder a hunan-barch, ac maent yn gwella eu cyflogadwyedd trwy fynychu clybiau swyddi, lle gallant wella eu curricula vitae a'u medrau cyfweliad a chyflwyno. Mae dosbarthiadau anachrededig mewn crefft, iaith, bwyta'n iach ac ymarfer corff, er enghraifft, yn helpu dysgwyr hŷn i gymdeithasu a chadw'n iach ac yn annibynnol.

Mae llawer o bartneriaethau yn darparu cyfleoedd da i ddysgwyr ddysgu am ddiwylliant Cymru, er enghraifft trwy drafod artistiaid o Gymru mewn dosbarthiadau celf. Fodd bynnag, amrywiol o hyd yw'r ddarpariaeth i ddysgwyr ddysgu'n ddwyieithog neu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae ansawdd yr addysgu ar draws y partneriaethau dysgu yn dda yn gyffredinol. Mae gwybodaeth bynciol ddiweddar gan bron bob un o'r tiwtoriaid, maent yn cynllunio sesiynau'n effeithiol ac yn rhoi ystyriaeth dda i nodau a dewisiadau dysgwyr. Mewn llawer o achosion, mae gan diwtoriaid ddisgwyliadau uchel gan ddysgwyr, maent yn gofyn cwestiynau heriol ac yn darparu ystod o dasgau ac adnoddau ysgogol. Darparant adborth llafar ac ysgrifenedig defnyddiol i ddysgwyr, ac maent yn gosod targedau i helpu dysgwyr wneud cynnydd. Yn y nifer fach o sesiynau llai effeithiol, mae tiwtoriaid yn treulio gormod o amser yn cyflwyno'r gwaith ac nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd i ddysgwyr weithio mewn parau, mewn grwpiau neu'n annibynnol.

Mae'r partneriaethau dysgu yn cynnig darpariaeth dda yn gyffredinol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn yr arfer orau, mae tîm cymorth dysgu yn gweithio ar draws y bartneriaeth gyfan i ddarparu cymorth cyson i'r dysgwyr hyn, y mae anghenion cymhleth gan lawer ohonynt.

**Ffigur 2.39: Niferoedd y partneriaethau a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Dysgu oedolion yn y gymuned

Mae ansawdd yr arweinyddiaeth yn dda mewn dwy o'r tair partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned, ac yn ddigonol yn y drydedd. Lle ceir arweinyddiaeth dda, mae gan y bartneriaeth weledigaeth a gwerthoedd clir, sy'n cael eu cyfleu'n dda i'r holl randdeiliaid. Mae systemau priodol ar waith i alluogi'r bartneriaeth ddysgu i fonitro a chyflwyno'r ddarpariaeth yn effeithiol, ac i ymateb yn gyflym i flaenoriaethau ac anghenion dysgwyr. Lle mae'r arweinyddiaeth yn ddigonol, nid yw arweinwyr yn gosod targedau yn erbyn eu blaenoriaethau strategol ac nid ydynt yn monitro blaenoriaethau'r rhwydwaith yn ddigon manwl. O ganlyniad, nid yw'r bartneriaeth yn gallu mesur ei chynnydd yn gywir.

Mae'r defnydd o ddata a hunanasesu i wella ansawdd yn amrywiol. Yn yr arfer orau, mae gan un bartneriaeth weithdrefnau cynhwysfawr i gasglu ystod eang o wybodaeth yn ymwneud â'i gwaith, gan gynnwys barnau dysgwyr. Mae'n defnyddio hunanasesu trylwyr i helpu nodi tanberfformio, gwella ansawdd yr addysgu a chodi cyfraddau llwyddo dysgwyr.


Mae ansawdd gweithio mewn partneriaeth yn dda neu'n well mewn dwy o'r tair partneriaeth. Mae pob un o'r partneriaethau dysgu yn dosbarthu adnoddau'n dda i fodloni anghenion dysgwyr, gan gynnig gwerth da am arian. Yn y gwaith partneriaeth mwyaf effeithiol, mae partneriaid yn gwneud anghenion dysgwyr a'u hardal yn ganolog i'w gwaith eu hunain a gwaith eu hasiantaethau partner. Er enghraifft, trwy ddarparu cyrsiau galwedigaethol a chyrsiau meithrin gallu byr ar gyfer dysgwyr agored i niwed mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, maent yn helpu dysgwyr i fagu hyder a symud ymlaen i gymwysterau uwch.

# Gweithgarwch dilynol: Dysgu oedolion yn y gymuned

Yn 2014-2015, ymwelodd arolygwyr â thair partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned yr oedd Estyn wedi'u gosod mewn categori monitro yn dilyn arolygiad.

Yn y cyfnod rhwng yr arolygiadau a'r ymweliadau dilynol, fe wnaeth dwy o'r tair partneriaeth uno. Gwnaeth pob un o'r partneriaethau yn y categori gweithgarwch dilynol gynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhellion, ond gwnaed cynnydd eithriadol o dda gan y partneriaethau a oedd wedi uno. Y rheswm am hyn oedd bod uwch arweinwyr ym mhob achos wedi gwella effeithiolrwydd arweinyddiaeth, rheolaeth a chydlyniant strategol y bartneriaeth ac wedi sicrhau bod ffocws clir gan y bartneriaeth ar godi cyfraddau llwyddo dysgwyr. Fe wnaeth y bartneriaeth wella ansawdd y data y mae'n ei gasglu yn sylweddol hefyd. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn monitro'r data yn rheolaidd, gan alluogi arweinwyr i ymyrryd mewn modd amserol i ddatrys problemau. Mae uwch arweinwyr yn pennu disgwyliadau clir ar gyfer yr addysgu a'r dysgu ar draws y bartneriaeth, ac maent yn darparu datblygiad proffesiynol parhaus priodol ar gyfer pob un o'r staff.

**Ffigur 2.40: Niferoedd y partneriaethau a barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**










# Adran 2: Adroddiad sector
## Hyfforddiant cychwynnol i athrawon

Ar hyn o bryd, mae tair canolfan ranbarthol hyfforddiant cychwynnol i athrawon yng Nghymru, sydd, ynghyd â'r Rhaglen Athrawon Graddedig a'r Rhaglen Hyfforddi Athrawon Graddedig Ychwanegol (a elwir yn 'Teach First'), yn darparu llwybrau i ddod yn athro cymwys. Yn 2014-2015, fe wnaeth y tair canolfan ranbarthol rhyngddynt hyfforddi tua 750 o hyfforddeion ysgol gynradd ac 880 o hyfforddeion ysgol uwchradd.

Eleni, fe wnaethom arolygu un darparwr hyfforddiant cychwynnol i athrawon, sef Canolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru. Mae'r ganolfan wedi bod yn gweithredu er 2010. Mae'r ganolfan, sy'n cael ei rheoli ar y cyd gan Brifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor, yn cynnwys darpariaeth yn y ddau sefydliad, ac mae'n hyfforddi athrawon cynradd ac uwchradd. Mae'r ganolfan yn gweithio gydag ysgolion partneriaeth ar draws ardal eang o Gymru. Yn 2014-2015, fe wnaeth y ganolfan hyfforddi ychydig dros draean o'r holl hyfforddeion cynradd, a bron i chwarter o'r holl hyfforddeion uwchradd yng Nghymru.

Mae safonau yn y ganolfan yn anfoddhaol, mae'r ddarpariaeth yn ddigonol ac mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn anfoddhaol. Barnwyd nad yw'r ganolfan yn cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru, a bydd yn cael ei hailarolygu gan Estyn.

I gael mwy o wybodaeth am y ganolfan a arolygwyd, cliciwch ar yr adroddiad arolygu

## Crynodeb 2010-2015: Hyfforddiant cychwynnol i athrawon

Rydym wedi arolygu pob un o'r tair canolfan hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn y cylch hwn o arolygiadau.

Mae'r tabl hwn yn dangos y deilliannau ar gyfer Cwestiynau Allweddol 1, 2 a 3, lefel y gweithgarwch dilynol ar gyfer pob canolfan ar adeg eu harolygiad, a chanlyniad ymweliadau dilynol lle maent wedi'u cynnal.

I gael mwy o fanylion am y canfyddiadau arolygu ar gyfer pob sector, ewch i data.estyn.llyw.cymru

**Ffigur: 2.41**

| Canolfan | Blwyddyn | CwA1 | CwA2 | CwA3 | Gweithgarwch dilynol | Canlyniad gweithgarwch dilynol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan De Orllewin Cymru** | 2011-2012 | Digonol | Da | Da | Monitro gan Estyn | Wedi'i thynnu o gategori gweithgarwch dilynol yn 2014 |
| **Canolfan De Ddwyrain Cymru** | 2012-2013 | Digonol | Digonol | Anfoddhaol | Ail-arolygiad | Wedi'i thynnu o gategori gweithgarwch dilynol yn 2015 |
| **Canolfan Gogledd a Chanolbarth Cymru** | 2014-2015 | Anfoddhaol | Digonol | Anfoddhaol | Ail-arolygiad | |

# Crynodeb 2010-2015: Hyfforddiant cychwynnol i athrawon

Mae nodweddion da cyffredin gan bob un o'r canolfannau:

- Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn bodloni'r safonau ar gyfer SAC
- Mae dealltwriaeth dda o ofynion y cwricwlwm gan hyfforddeion
- Mae agweddau cadarnhaol gan hyfforddeion
- Mae ychydig o enghreifftiau o addysgu o ansawdd uchel iawn yn y brifysgol, a mentora da iawn mewn ysgolion

Y prif heriau ym mhob un o'r canolfannau yw gwella:

- medrau cynllunio hyfforddeion, yn enwedig y defnydd o wybodaeth asesu i lywio'r cynllunio a chynllunio hyfforddeion i ddatblygu medrau disgyblion
- medrau myfyriol hyfforddeion
- amrywioldeb yr hyfforddiant ar draws rhaglenni ac o fewn rhaglenni
- y broses o asesu hyfforddeion sydd ar brofiad ysgol
- arweinyddiaeth strategol a gweledigaeth ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon
- rolau arweinyddiaeth ac arfer ar bob lefel
- trylwyredd yr hunanarfarnu a'r cynllunio ar gyfer gwella
- cryfder systemau sicrhau ansawdd ar draws y ganolfan a'i hysgolion partneriaeth er mwyn sicrhau cysondeb mewn arfer neu ddarpariaeth

# Gweithgarwch dilynol: Hyfforddiant cychwynnol i athrawon

Yn ystod 2014-2015, fe wnaeth Estyn ailarolygu Canolfan Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon De Ddwyrain Cymru.  Arolygwyd y ganolfan yn 2013, pan farnwyd bod safonau a darpariaeth yn ddigonol, a bod yr arweinyddiaeth yn anfoddhaol. Pan aeth arolygwyr yn ôl yn 2015, canfuont fod y ganolfan wedi gwneud cynnydd cryf o ran cryfhau'r arweinyddiaeth, cyfeiriad strategol a gweithdrefnau hunanarfarnu, a gwella cywirdeb y broses asesu cynnydd a pherfformiad hyfforddeion.

Mae'r ganolfan wedi aildrefnu ei strwythurau arwain a rheoli.  O ganlyniad, mae'r holl staff ar draws y ganolfan yn cael cyfleoedd da iawn i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth wrth ddatblygu'r ganolfan.  Mae bwrdd gweithredol yn cyfarwyddo ac yn herio gwaith arweinwyr wrth ddatblygu'r ganolfan yn effeithiol iawn. Mae'r bwrdd yn cyfleu disgwyliadau uchel i bob un o'r staff ac yn eu dwyn i gyfrif.

Mae gweledigaeth glir gan y ganolfan ar gyfer ei chyfeiriad yn y dyfodol.  Mae'r weledigaeth wedi'i chysylltu'n agos â chynllun strategol clir, cynlluniau gwella cydlynus, ac offer arfarnu gwerthfawr.  Mae'r holl gynlluniau a phrosesau yn rhoi pwyslais cadarn ar nodweddion yr athrawon a fydd yn dod i mewn i'r system addysg o ganlyniad i hyfforddiant yn y ganolfan.

Erbyn hyn, mae'r hunanarfarnu'n cael ei lywio gan sail dystiolaeth ddibynadwy a dilys.  Arweiniodd hyn at staff ar draws y ganolfan yn cymryd rhan mewn trafodaethau agored a chadarn ynglŷn â chryfderau rhaglenni hyfforddi a'r meysydd i'w datblygu.  O ganlyniad, mae ansawdd hunanarfarnu'r ganolfan wedi gwella'n sylweddol, a bu gwelliant nodedig yn y ddarpariaeth hyfforddiant.

Mae'r ganolfan wedi rhoi nifer o weithdrefnau cynhwysfawr a thrylwyr ar waith i sicrhau bod mentoriaid a thiwtoriaid yn asesu cynnydd hyfforddeion yn fwy cywir yn erbyn y Safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig.  Mae'r prosesau hyn yn cynnwys meini prawf ar y cyd ar gyfer barnu cynnydd hyfforddeion ar draws eu profiadau ysgol, mentora a hyfforddiant tiwtor, yn ogystal â gweithdrefnau sicrhau ansawdd mwy trylwyr a chadarn.  Mae hyn yn golygu bod llawer mwy o gysondeb a chywirdeb yn yr adborth i hyfforddeion erbyn hyn.

Mae **Canolfan Addysg a Hyfforddiant Athrawon De Ddwyrain Cymru** wedi gwella'r broses o asesu cynnydd hyfforddeion wrth addysgu.

Mae arweinwyr y ganolfan wedi cyflwyno fframwaith ar gyfer asesu sy'n rhoi strwythur defnyddiol i gynorthwyo mentoriaid, tiwtoriaid a hyfforddeion wrth asesu cynnydd hyfforddeion yn fanwl gywir yn erbyn disgrifwyr ar gyfer pob un o'r Safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig. Mae'r disgrifwyr yn diffinio'r modd y dylai hyfforddeion ar bob un o'r rhaglenni wneud cynnydd drwy eu profiadau ysgol. Mae'r fframwaith yn helpu mentoriaid, tiwtoriaid a hyfforddeion i ystyried ble mae hyfforddeion yn bodloni'r Safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig, ac yn darparu meini prawf i hyfforddeion sy'n cyflawni safonau da a rhagorol. Mae'n cynnig iaith gyffredin ar gyfer cynnydd a gosod targedau, a modd eglur o fesur datblygiad ar draws yr holl gyfnodau ym mhrofiad ysgol hyfforddai.

Mae meini prawf clir wedi gwella ansawdd adborth ysgrifenedig tiwtoriaid a mentoriaid i hyfforddeion. Erbyn hyn, mae'n fwy arfarnol, yn canolbwyntio'n benodol ar effaith addysgu hyfforddeion ar ddysgu disgyblion, ac yn darparu targedau clir i hyfforddeion wella. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae'r ganolfan wedi nodi bod gormod o fentoriaid yn dal heb eu hyfforddi. I fynd i'r afael â hyn, mae'r ganolfan wedi datblygu deunyddiau hyfforddi ar-lein ac wedi cyhoeddi deunyddiau arweiniad ac astudiaethau achos o arfer dda ar wefan y ganolfan.

I gefnogi gweithredu'r fframwaith, mae arweinwyr wedi cyflwyno mesurau sicrhau ansawdd. Ar adegau rheolaidd yn y flwyddyn academaidd, bydd mentoriaid yn lanlwytho arfarniadau ysgrifenedig o gynnydd hyfforddeion i systemau gwybodaeth electronig y ganolfan. Mae hyn yn helpu arweinwyr canol i fonitro adborth mentoriaid i hyfforddeion, ac i gynorthwyo mentoriaid wrth asesu hyfforddeion.

Mae uwch arweinwyr yn dadansoddi gwybodaeth asesu yn drefnus er mwyn nodi pa mor dda y mae hyfforddeion yn gwneud cynnydd, ac i edrych am batrymau mewn deilliannau hyfforddeion. Defnyddiant y data hwn ochr yn ochr â chraffu ar ffeiliau hyfforddeion i wirio am gywirdeb yn yr asesu.

Mae'r system sicrhau ansawdd drylwyr hon yn golygu y gall uwch arweinwyr ddwyn arweinwyr canol i gyfrif am gywirdeb deilliannau hyfforddeion. Mae'r prosesau hyn yn sicrhau cysondeb a chywirdeb adborth i hyfforddeion.

Mae'r ganolfan wedi datblygu'r 'matrics ansawdd profiad ysgol', sef system i gryfhau ei phroses o sicrhau ansawdd profiad ysgol hyfforddeion. Mae hyn yn cynnwys cyfres o wiriadau ansawdd integredig mewn ysgolion, rhwng ysgolion ac ar draws rhaglenni. Mae'r ganolfan wedi cynnal peilot o'r matrics ar y rhaglen gynradd TAR, ac mae arwyddion cynnar yn awgrymu, pan gaiff ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r fframwaith asesu, fod y matrics ansawdd yn helpu i wella profiad ysgol hyfforddeion ac i nodi materion ar gyfer eu gwella.







# Adran 2: Adroddiad sector
## Cymraeg i oedolion

Eleni, fe wnaeth Estyn arolygu Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg, un o chwech o ganolfannau rhanbarthol Cymraeg i Oedolion. Mae Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg yn rhan o Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd, ac mae'n gyfrifol am ddarparu rhyw 200 o ddosbarthiadau mewn 80 o leoliadau ar draws y rhanbarth.  Mae'r rhanbarth yn ymestyn o Laneirwg i Lanilltud Fawr.

I gael mwy o wybodaeth am y ganolfan hon, cliciwch ar yr adroddiad arolygu

Mae'r sector Cymraeg i Oedolion wrthi'n cael ei ailstrwythuro ar hyn o bryd yn dilyn yr adroddiad 'Codi Golygon', a gynhyrchwyd gan y Grŵp Adolygu Cymraeg i Oedolion (Llywodraeth Cymru, 2013a). Un o'r prif argymhellion yn yr adroddiad oedd sefydlu endid cenedlaethol i gynllunio a monitro datblygiad pob agwedd ar Gymraeg i Oedolion am y saith mlynedd nesaf. Mae endid, a elwir yn 'Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol', wedi'i sefydlu'n ddiweddar gan Lywodraeth Cymru a'i nod yw:

- pennu cyfeiriad strategol cenedlaethol ar gyfer y sector Cymraeg i Oedolion
- darparu arweinyddiaeth ar gyfer darparwyr Cymraeg i Oedolion
- codi safonau mewn addysgu a dysgu mewn Cymraeg i Oedolion
- datblygu Cwricwlwm Cenedlaethol difyr, priodol ac o ansawdd uchel, a chynhyrchu adnoddau sy'n addas ar gyfer pob mathau o ddysgwyr (Maes Cymraeg i Oedolion, 2015)

Bydd yr endid yn ad-drefnu nifer y darparwyr erbyn diwedd mis Mawrth 2016. Bydd darparwyr presennol a'r chwe chanolfan Cymraeg i Oedolion yn parhau i gynnig cyrsiau hyd at ddiwedd Awst 2016, a bydd y ddarpariaeth newydd yn dechrau ym Medi 2016.

I gael mwy o fanylion am y canfyddiadau arolygu ar gyfer pob sector, ewch i data.estyn.llyw.cymru






# Adran 2: Adroddiad sector
## Dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae pedwar carchar yng Nghymru ar hyn o bryd ac mae Sefydliad Troseddwyr Ifanc yn un ohonynt.  Mae lleiafrif o oedolion a phobl ifanc yn treulio'u dedfrydau mewn lleoliadau diogel yn Lloegr.  Eleni, gweithiodd Estyn gyda'n harolygiaeth bartner, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, i arolygu Carchar Ei Mawrhydi Abertawe. Arweiniwyd yr arolygiad gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, ac mae eu hadroddiad i'w weld yma:

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

I gael mwy o fanylion am y canfyddiadau arolygu ar gyfer pob sector, ewch i  data.estyn.llyw.cymru


Push bar to open






# **Adran 3:** Sylwebaeth ar berfformiad

# Perfformiad disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen

2015 yw'r bedwaredd flwyddyn i'r holl blant saith oed yng Nghymru gael eu hasesu gan eu hathrawon yn erbyn deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn hytrach na lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Disgwylir i ddisgyblion gyflawni deilliant 5 y Cyfnod Sylfaen erbyn yr oedran hwn, a disgwylir i'r rhai mwyaf abl gyflawni deilliant 6 neu'n uwch.

Mae'r siart isod yn cymharu'r canlyniadau dros y tair blynedd diwethaf hyd at 2015.

**Ffigur 3.1: Cyfnod Sylfaen – canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant disgwyliedig (deilliant 5) neu'r deilliant disgwyliedig ac un yn ychwanegol (deilliant 6), 2012 i 2015**




Ffynonellau: Llywodraeth Cymru, 2012, 2013b, 2014b, 2015a


Yn 2015, cynyddodd canran y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf ddeilliant 5 ym mhob maes dysgu. Er 2012, mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen wedi cynyddu dros chwe phwynt canran i 86.8%. Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu – Saesneg (ILIChS) fu'r maes dysgu â'r perfformiad isaf am y pedair blynedd diwethaf. Yn 2015, mae'r mesur hwn ryw saith pwynt canran yn is na maes dysgu datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol (DPCh). Mae hefyd 3.4 pwynt canran yn is na medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (ILIChC), ac 1.7 pwynt canran yn is na datblygiad mathemategol (DM).

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliannau uwch ym mhob maes dysgu yn parhau i wella. Mae dros hanner y disgyblion yn cyflawni deilliant 6 neu'n uwch mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol (DPCh), ac mae rhyw draean o ddisgyblion yn cyflawni deilliant 6 neu'n uwch mewn Saesneg (ILIChS), Cymraeg (ILIChC) neu fathemateg (DM). Dros y pedair blynedd diwethaf, datblygiad mathemategol (DM) yn gyffredinol fu'r maes dysgu â'r perfformiad isaf ar gyfer y deiliannau uwch, er bod perfformiad o ran y mesur hwn wedi cynyddu'n dda yn 2015, ac erbyn hyn mae'r un fath â pherfformiad mewn Saesneg (ILIChS).

# Perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

Pan gânt eu hasesu gan eu hathrawon ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol (Saesneg, Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth), disgwylir i ddisgyblion gyflawni lefel 4 erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 pan fyddant yn 11 mlwydd oed, a disgwylir i'r rhai mwyaf abl gyrraedd lefel 5 neu'n uwch.

**Ffigur 3.2: Cyfnod allweddol 2 - Canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) a'r lefel ddisgwyliedig ac un yn ychwanegol (lefel 5), 2011 i 2015**




Ffynonellau: Llywodraeth Cymru, 2012, 2013b, 2014b, 2015a

Yng nghyfnod allweddol 2, yn 2015, bu gwelliant mewn canlyniadau yn yr holl bynciau. Mewn gwyddoniaeth y mae'r perfformiad gorau o hyd yn y cyfnod allweddol hwn, er bod y bwlch rhwng y deilliannau â'r pynciau craidd eraill wedi lleihau. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ym mhob un o'r tri phwnc craidd (sy'n cael ei adnabod fel y dangosydd pwnc craidd neu'r DPC) wedi gwella'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2015, cyflawnodd 87.7% o ddisgyblion y dangosydd pwnc craidd, sef cynnydd o bron i wyth pwynt canran ers 2011.

Yn 2015, bu gwelliant hefyd yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 yn yr holl bynciau. Mae rhyw ddau o bob pum disgybl yn cyrraedd y lefel hon ym mhob pwnc bellach. Er 2011, mae perfformiad ar y lefel uwch hon wedi cynyddu gan dros 10 pwynt canran ym mhob pwnc. Hefyd, mae rhwng 1 ac 1.5% o ddisgyblion bellach yn cyflawni lefel 6 neu'n uwch mewn Saesneg, Cymraeg neu fathemateg, sydd i fyny gan dros un pwynt canran er 2011. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir mewn gwyddoniaeth, ac yn 2015, dim ond 0.2% o ddisgyblion gyflawnodd lefel 6 neu'n uwch.


# Perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 3

Mae disgwyl i ddisgyblion gyrraedd lefel 5 ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, pan fyddant yn 14 oed, a disgwylir i'r rhai mwyaf abl gyrraedd lefel 6 neu 7.

Yn 2015 yng nghyfnod allweddol 3, bu gwelliant o ryw dri phwynt canran yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ym mhob un o'r tri phwnc craidd (y dangosydd pwnc craidd). Dros y blynyddoedd diwethaf, mae dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 3 wedi gwella'n gyflym, ac yn 2015 roedd 16 pwynt canran yn uwch nag yn 2011. Fe wnaeth cyrhaeddiad mewn Saesneg a mathemateg ar lefel 5 ac uwch gynyddu o ryw ddau bwynt canran yn 2015. Mewn Cymraeg a gwyddoniaeth, sef y ddau bwnc lle ceir y perfformiad uchaf, y ddau ohonynt uwchlaw 90%, fe wnaeth cyrhaeddiad ar lefel 5 ac uwch gynyddu o ryw un pwynt canran.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch yn parhau i wella hefyd. Yn 2015, am y tro cyntaf, fe wnaeth dros hanner y disgyblion ym mhob maes pwnc gyrraedd o leiaf lefel 6. Mathemateg a gwyddoniaeth oedd y pynciau â'r gyfran uchaf o ddisgyblion sy'n cyflawni o leiaf lefel 6, ac fe wnaeth bron i dri o bob pum disgybl gyflawni'r deilliant hwn.

**Ffigur 3.3: Cyfnod allweddol 3 - canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 5), y lefel ddisgwyliedig ac un yn uwch (lefel 6) a'r lefel ddisgwyliedig a dau yn uwch (lefel 7), 2011 i 2015**




Ffynonellau: Llywodraeth Cymru, 2012, 2013b, 2014b, 2015a

# Crynodeb o asesiadau athrawon

Mae'r patrwm o gynnydd mewn deilliannau ar draws yr holl bynciau a'r lefelau cyrhaeddiad yn y Cyfnod Sylfaen, cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 yn parhau. Mae'r cynnydd cyson hwn mewn deilliannau ar draws yr holl lefelau yn parhau i godi cwestiynau ynglŷn â dilysrwydd, cywirdeb a dibynadwyedd asesiadau athrawon.

# Arholiadau yng nghyfnod allweddol 4

### Prif ddangosyddion

| Ffigur 3.4 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn cyflawni trothwy lefel 2 gyda Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg | 50.1% | 51.1% | 52.7% | 55.4% | 57.9% |
| Canran yn cyflawni trothwy lefel 2 | 67.3% | 72.6% | 77.8% | 82.3% | 84.1% |
| Gwahaniaeth pwynt canran rhwng y ddau ddangosydd hyn | 17.2 | 21.5 | 25.0 | 26.9 | 26.2 |
| Canran yn cyflawni trothwy lefel 1 | 90.3% | 91.8% | 93.2% | 94.0% | 94.4% |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio | 311.6 | 323.5 | 333.1 | 340.8 | 343.5 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2015b

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae disgyblion 15 oed yn sefyll arholiadau allanol. Yn 2015, fe wnaeth y ganran o ddisgyblion yn cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg gynyddu o ddau a hanner pwynt canran. Hwn yw'r ail gynnydd mwyaf o ran y mesur hwn ers iddo gael ei gyflwyno yn 2007. Yn 2014 y bu'r cynnydd mwyaf. Mae perfformiad yn y dangosydd allweddol hwn wedi cynyddu bron i wyth pwynt canran ers 2011.

Yn 2015 bu cynnydd yn y gyfran o ddisgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2, ond ar raddfa arafach nag mewn blynyddoedd blaenorol. Yn 2015, fe wnaeth y dangosydd hwn gynyddu o bron i ddau bwynt canran, o gymharu â chynnydd cyfartalog o ryw bedwar a hanner pwynt canran dros y pedair blynedd blaenorol. Yn 2015, fe wnaeth canran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 1 gynyddu o ychydig dan hanner pwynt canran, i 94.4%.

Yn 2015 bu gwelliant o ychydig dros ddau a hanner pwynt canran yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio, sef mesur o gyfartaledd yr wyth canlyniad TGAU gorau neu ganlyniadau cyfwerth. Mae hyn yn cymharu â chynnydd cyfartalog o ryw naw pwynt canran dros y pedair blynedd blaenorol. Mae hyn yn golygu bod y gyfradd wella ar gyfer graddau uchaf disgyblion wedi arafu. At ei gilydd, yn 2015, ar gyfer yr wyth canlyniad TGAU gorau neu ganlyniadau cyfwerth, cyflawnodd disgyblion gyfartaledd deilliannau o ryw bedair gradd C a phedair gradd B.

# Pynciau craidd

| Ffigur 3.5 | cyflawni A*-C mewn Saesneg/ Cymraeg | cyflawni A*-C mewn Saesneg | cyflawni A*-C mewn Cymraeg | cyflawni A*-C mewn mathemateg | cyflawni A*-C (neu gyfwerth) mewn gwyddoniaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| 2011 | 63.7% | 62.8% | 74.6% | 56.5% | 65.9% |
| 2012 | 63.5% | 62.2% | 73.8% | 58.4% | 70.6% |
| 2013 | 64.0% | 62.9% | 73.5% | 60.3% | 74.8% |
| 2014 | 67.2% | 66.2% | 73.7% | 61.7% | 82.3% |
| 2015 | 69.7% | 68.6% | 75.2% | 64.4% | 84.0% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2015b

Gwyddoniaeth yw'r pwnc craidd â'r perfformiad gorau yng Nghymru o hyd, er bod y gyfradd wella wedi arafu yn 2015, i fyny ychydig dros un a hanner pwynt canran yn 2015 o gymharu â saith a hanner pwynt canran yn 2014. Yn 2015, deilliannau mewn mathemateg gynyddodd fwyaf, er mai mathemateg yw'r pwnc craidd â'r perfformiad isaf yng nghyfnod allweddol 4 o hyd. Mae deilliannau mewn mathemateg ar radd C ac uwch oddeutu pedwar, 11 ac 20 pwynt canran islaw Saesneg, Cymraeg a gwyddoniaeth yn y drefn honno.

# Dysgwyr ôl-16 mewn ysgolion

| Ffigur 3.6 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn cyflawni trothwy lefel 3 | 96.5% | 96.9% | 96.5% | 97.1% | 97.0% |
| Sgôr pwyntiau ehangach gyfartalog | 798.9 | 772.9 | 806.6 | 804.1 | 799.7 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2015b

Yn 2015, canran y dysgwyr ôl-16 mewn ysgol a gyflawnodd drothwy lefel 3 oedd 97.0%, sy'n ostyngiad bach ar 2014. Er 2012, mae'r mesur hwn wedi cynyddu o ychydig dan hanner pwynt canran. Fe wnaeth y sgôr pwyntiau ehangach gyfartalog a gyflawnwyd gan y dysgwyr hyn ostwng dros y flwyddyn ddiwethaf hefyd, o ryw bedwar a hanner pwynt canran. Yn 2015, mae hyn yn golygu bod disgyblion, at ei gilydd, wedi cyflawni naill ai llai o gymwysterau neu raddau is, neu gyfuniad o'r ddau, o gymharu â disgyblion yn y ddwy flynedd blaenorol.

# Gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched

| Ffigur 3.7 | Merched 2015 | Bechgyn 2015 | Gwahaniaeth pwynt canran 2015 | Gwahaniaeth pwynt canran 2014 |
|---|---|---|---|---|
| Canran yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen | 90.8% | 83.0% | 7.7 | 8.5 |
| Canran yn cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 2 | 90.7% | 84.9% | 5.8 | 6.3 |
| Canran yn cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 3 | 87.7% | 80.3% | 7.4 | 8.7 |
| Canran yn cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 4 | 58.0% | 51.7% | 6.4 | 8.1 |

Ffynonellau: Llywodraeth Cymru, 2015a, 2015b

Yn 2015, parhaodd merched i berfformio'n well na bechgyn ym mhob cyfnod allweddol. Roedd y gwahaniaeth lleiaf rhwng perfformiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 2.

Mae merched yn cyflawni'n uwch na bechgyn ym mhob maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, yn 2015, fe wnaeth y gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched o ran dangosydd y Cyfnod Sylfaen leihau o ychydig dan un pwynt canran o gymharu â 2014.

Yng nghyfnod allweddol 2, fe wnaeth y gwahaniaeth rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched leihau ar draws yr holl bynciau craidd. Mewn Cymraeg yr oedd hyn yn fwyaf amlwg, gan i berfformiad bechgyn gynyddu o bron i bedwar pwynt canran o 2014. Roedd llai o gynnydd yng nghyrhaeddiad bechgyn mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn y dangosydd pwnc craidd, mae merched yn parhau i berfformio'n well na bechgyn o ryw chwe phwynt canran.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae merched yn parhau i berfformio'n well na bechgyn o ran y dangosydd pwnc craidd, ond mae'r bwlch wedi parhau i leihau dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2015, roedd y gwahaniaeth rhwng perfformiad merched a bechgyn ychydig dros saith pwynt canran o gymharu â bwlch o ryw naw pwynt canran yn 2014.

Ar y lefelau a'r deilliannau uwch o'r Cyfnod Sylfaen drwodd i gyfnod allweddol 3, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn ym mhob maes.


Yng nghyfnod allweddol 4, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yn y dangosydd pwnc craidd o ryw chwech a hanner pwynt canran. Mae hwn wedi bod yn batrwm gweddol gyson dros y blynyddoedd diwethaf, er bod y bwlch wedi lleihau o ychydig dros un a hanner pwynt canran yn 2015.

# Perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

| **Ffigur 3.8** | **Heb fod yn gymwys i gael PYDd 2015** | **Yn gymwys i gael PYDd 2015** | **Gwahaniaeth pwynt canran 2015** | **Gwahaniaeth pwynt canran 2014** |
|---|---|---|---|---|
| Canran yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen | 90.0% | 75.1% | 14.9 | 16.3 |
| Canran yn cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 2 | 90.8% | 75.1% | 15.7 | 17.7 |
| Canran yn cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 3 | 88.1% | 65.9% | 22.2 | 24.3 |
| Canran yn cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 4 | 61.2% | 29.3% | 31.9 | 32.4 |

Ffynonellau: Llywodraeth Cymru, 2015c

**Ffigur 3.9: Canran y disgyblion yn cyflawni lefel 2 yn cynnwys Saesneg/Cymraeg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 4 yn ôl cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim**



Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gryn dipyn islaw perfformiad disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar draws y Cyfnod Sylfaen a phob cyfnod allweddol. Fodd bynnag, mae perfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion wedi gwella ym mhob cyfnod. Hefyd, yn 2015, roedd y gyfradd wella gan ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gadarnach na chyfradd wella disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol 2, 3 a 4. Yng nghyfnod allweddol 4, rhyw 32% pwynt yw'r bwlch yn y dangosydd pwnc craidd rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys. Hwn yw'r bwlch lleiaf er 2009. Fe wnaeth perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o ran trothwy lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg gynyddu ychydig yn fwy nag ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Hwn hefyd yw'r bwlch lleiaf ar gyfer y dangosydd hwn er 2009.

# Cyflawniad mewn dangosyddion dewisedig, yn ôl cymhwysedd i gael PYDd a statws AAA

Mae dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a dysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn arbennig o agored i dangyflawni. Mae'r siart isod yn dangos nad yw dysgwyr o gefndiroedd cymharol dlawd yn cyflawni cystal â'u cyfoedion ym mhob cyfnod allweddol addysg, a'u bod yn perfformio'n waeth fyth os oes AAA ganddynt hefyd. Mae cyflawniad pob grŵp o ddysgwyr wedi gwella er 2013 ar draws yr holl ddangosyddion. Dysgwyr ag AAA nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a wellodd ar y gyfradd uchaf ar draws pob dangosydd ac eithrio trothwy lefel 2 cynhwysol, lle gwelwyd dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac nad oes ganddynt unrhyw AAA yn gwella ar y gyfradd fwyaf.

**Ffigur 3.10**



# Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)

### Ffigur 3.11: Canran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, 2010 i 2014

| Oedran | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|
| **16-18** | 11.6% | 12.2% | 11.0% | 10.9% | 10.9% (p) |
| **19-24** | 22.9% | 22.3% | 23.0% | 21.1% | 20.7% (p) |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2015d

(p) SFR: Data dros dro yw'r data ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben yn 2014

Ar ddiwedd 2014, nid oedd 10.9% o bobl ifanc 16 i 18 oed mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae hyn yn gyfwerth â rhyw 12,200 o bobl ifanc yn eu harddegau, ac mae'n debyg i ffigur 2013. Mae cyfran y bobl ifanc 16 i 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn Lloegr oddeutu un pwynt canran yn is na'r gyfradd gyfwerth ar gyfer Cymru ar hyn o bryd.

Yn 2014, roedd yn hysbys nad oedd 3.1% o'r rhai a adawodd yr ysgol ym Mlwyddyn 11 mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae hyn yn cymharu â 3.7% yn 2013. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae cyfran y rhai a adawodd yr ysgol ym Mlwyddyn 11 y mae'n hysbys nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi gostwng o fwy na dau bwynt canran.

Ar ddiwedd 2014, roedd 20.7% o bobl ifanc 19 i 24 oed nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae hyn yn gyfwerth â rhyw 53,700 o bobl ifanc. Mae hwn yn ostyngiad o gymharu â 2013 pan oedd 21.1% o bobl ifanc 19 i 24 oed nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae cyfran y bobl ifanc 19 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi aros yn weddol gyson ar ryw un o bob pump o bobl ifanc.

# Presenoldeb

**Ffigur 3.12: Presenoldeb yng Nghymru gan ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol, 2011 i 2015**

| Cyfnod ysgol | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cynradd** | 93.3% | 93.9% | 93.7% | 94.8% | 94.9% |
| **Uwchradd** | 91.4% | 92.1% | 92.6% | 93.6% | 93.8% |
| **Gwahaniaeth pwynt canran*** | 1.9 | 1.7 | 1.1 | 1.2 | 1.1 |

* Gwahaniaeth rhwng presenoldeb ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd

Ffynonellau: Llywodraeth Cymru, 2015e, 2015f

Mae'r cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yn parhau i wella'n dda. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae presenoldeb wedi cynyddu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd o 1.6 pwynt canran a 2.5 pwynt canran yn y drefn honno. Mae'r cynnydd hwn yn golygu bod disgyblion ar gyfartaledd wedi mynychu'r ysgol ryw dri neu bedwar diwrnod yn fwy yn 2014-2015 nag a wnaethant yn 2010-2011.

Absenoliaeth barhaus yw'r term sy'n cael ei roi i ddisgyblion y mae eu cyfraddau presenoldeb yn 80% neu'n is. Mae hyn wedi parhau i ostwng mewn ysgolion uwchradd o 5% yn 2014 i 4.5% yn 2015. Fodd bynnag, mae'r gyfradd absenoliaeth barhaus mewn ysgolion uwchradd rhyw ddwy waith a hanner y gyfradd mewn ysgolion cynradd. Yn 2015, mewn ysgolion uwchradd, roedd disgyblion sy'n absennol yn barhaus yn cyfrif am ychydig o dan chwarter yr holl absenoldebau. Mewn ysgolion cynradd, roeddent yn cyfrif am ryw 9% o absenoldebau. Mae cyfran y disgyblion a ddosbarthwyd yn rhai sy'n absennol mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yn barhaus wedi haneru fwy neu lai er 2008.


Mae cyfraddau absenoliaeth uwch ar gyfartaledd mewn ysgolion sydd â chyfran uwch o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae cyfradd absenoliaeth anawdurdodedig mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd wedi aros yn weddol gyson dros y tair blynedd diwethaf, ar 1% a 1.3% yn y drefn honno.

Mewn ysgolion uwchradd yn 2015, roedd bron i 70% o'r holl absenoldebau oherwydd salwch neu apwyntiadau meddygol. Roedd dau y cant o absenoldebau yn sgil gwyliau teulu y cytunwyd iddynt, ac roedd 1.6% o absenoldebau yn sgil disgyblion yn cael eu gwahardd heb i unrhyw ddarpariaeth arall gael ei darparu. Roedd dros 6% o absenoldebau yn rhai a awdurdodwyd gan ysgolion ond nad oeddent yn dod o dan godau safonol absenoldeb o'r ysgol. Mewn ysgolion cynradd yn 2015, roedd rhyw 66% o'r holl absenoldeb yn sgil salwch neu apwyntiadau meddygol. Roedd 8% o absenoldebau yn sgil gwyliau teulu y cytunwyd iddynt, ac roedd rhyw 4% o absenoldebau wedi'u hawdurdodi gan ysgolion ond nad oeddent yn dod o dan godau safonol absenoldeb o'r ysgol.

# Gwaharddiadau


**Ffigur 3.13: Nifer y gwaharddiadau parhaol o ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir yng Nghymru, 2012-2014**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2015g


Mae niferoedd y gwaharddiadau parhaol wedi aros yn gyson yn gyffredinol dros y tair blynedd diwethaf yng Nghymru. Yn 2014, cafodd 87 o ddisgyblion eu gwahardd yn barhaol o ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim bedair gwaith yn fwy tebygol o gael eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol o gymharu â disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Roedd y rhesymau mwyaf cyffredin dros i ddisgyblion gael eu gwahardd yn barhaol yn 2014 yn cynnwys digwyddiadau'n gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol a cham-drin geiriol, ac ymddygiad bygythiol yn erbyn oedolyn.

**Ffigur 3.14: Nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol (pum niwrnod neu lai) o ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig a gynhelir yng Nghymru, 2012-2014**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2015g

**Ffigur 3.15: Nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol (dros bum niwrnod) o ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig a gynhelir yng Nghymru, 2012-2014**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2015g

Yn 2014, fe wnaeth cyfanswm nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol ostwng am yr ail flwyddyn yn olynol. Roedd gostyngiad nodedig yn nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol o chwe diwrnod neu fwy o gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol. Mae nifer y gwaharddiadau byrrach o bum niwrnod neu lai wedi gostwng hefyd. Y rheswm am hyn yw gostyngiad yn nifer y gwaharddiadau o'r math hwn mewn ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad cyffredinol yn nifer y gwaharddiadau o bum niwrnod neu lai yn fach oherwydd y nifer gynyddol mewn ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig ers 2012. Yn 2014, cafodd bron i 2,000 o ddisgyblion eu gwahardd o ysgolion cynradd am bum niwrnod neu lai, sy'n gynnydd o ryw 1,000 o waharddiadau o gymharu â 2012. Yn 2014, y rhesymau mwyaf cyffredin am ddisgyblion yn cael eu gwahardd am chwe diwrnod neu fwy neu bum niwrnod neu lai oedd ymddygiad parhaus sy'n tarfu ar eraill, neu ymddygiad bygythiol neu beryglus.


Yn 2014, roedd disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cyfrif am ryw ddwy ran o dair o'r holl waharddiadau, tra bod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyfrif am ychydig o dan hanner y gwaharddiadau. Wrth ystyried cefndir ethnig disgyblion, gan ddisgyblion o gefndiroedd pobl dduon neu gymysg, ar y cyfan, oedd y gyfradd uchaf o waharddiadau dros y tair blynedd diwethaf, er mai dim ond fymryn yn uwch na'r gyfradd ar gyfer disgyblion o gefndir gwyn ethnig y mae'r gyfradd ar gyfer y ddau grŵp ethnig hyn.

# Medrau, addysg bellach a dysgu gydol oes


Yn gyffredinol, fe wnaeth lefelau cymhwyster gynyddu yng Nghymru yn 2014, gan barhau â thuedd gyffredinol am i fyny. Yn 2014, roedd gan ychydig mwy na thri chwarter o oedolion oedran gweithio yng Nghymru gymwysterau lefel 2 o leiaf, ac roedd gan ychydig dros draean gymwysterau ar lefel 4 neu uwch. Yn 2014, adroddodd ychydig llai na 9% o oedolion oedran gweithio yng Nghymru nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau – sy'n welliant bach o 2013.

## Ffigur 3.16: Lefel y cymhwyster uchaf a ddelir gan oedolion oedran gweithio, 2001-2014


### Cymwys hyd at lefel 2 NQF neu'n uwch




### Cymwys hyd at lefel 4 NQF neu'n uwch




### Dim cymwysterau




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2015h

Yn gyffredinol,  roedd lefelau cymhwyster ar eu huchaf yn Sir Fynwy, Bro Morgannwg a Chaerdydd, ac ar eu hisaf yn awdurdodau cymoedd De Cymru.  Yn gyffredinol, roedd lefelau cymwysterau yng Nghymru yn is nag yn Lloegr, Yr Alban a'r DU yn ei gyfanrwydd, ond yn uwch nag yng Ngogledd Iwerddon.


Adroddodd 22% o'r rhai a oedd naill ai'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau.  Mae hyn yn cymharu â 5% ar gyfer y rhai sydd mewn cyflogaeth (Llywodraeth Cymru, 2015i).

# Addysg bellach

Ar draws yr holl raglenni addysg bellach yn 2014, cwblhawyd 92% o weithgareddau dysgu, ac o'r gweithgareddau hynny â deilliant yr oedd modd ei asesu, cyflawnwyd 93% ohonynt.

Yn gyffredinol, cafodd 86% o weithgareddau dysgu eu cwblhau a'u cyflawni'n llwyddiannus.  Mae hyn yn gynnydd cyffredinol o ddau bwynt canran o'r flwyddyn flaenorol ac mae'n parhau â thuedd o gyfraddau llwyddiant sy'n codi'n raddol.

**Ffigur 3.17:  Cyfraddau llwyddiant o ran gweithgarwch dysgu cyffredinol mewn colegau addysg bellach, 2012-2014**





Ffynonellau: Llywodraeth Cymru, 2013c, 2014c, 2015j

# Dysgu yn y gwaith

Mae'n rhaid i ddysgwyr sydd ar raglenni prentisiaeth gyflawni ystod o gymwysterau er mwyn ennill y 'fframwaith' prentisiaeth llawn. Yn 2014, roedd cyfraddau llwyddiant o ran y fframwaith dysgu yn y gwaith mewn Prentisiaethau Sylfaen a Phrentisiaethau yn dangos gostyngiad bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd gostyngiad yn y cyfraddau llwyddiant mewn Prentisiaethau Sylfaen o 85% i 84%, tra bod y rhai yn y Prentisiaethau hynny wedi gostwng o 87% i 85%.

Cyflwynwyd Prentisiaethau Uwch yng Nghymru yn 2012. Hon yw'r flwyddyn gyntaf y mae cyfraddau llwyddiant fframwaith ar gyfer y rhaglen hon wedi'u cyhoeddi. Yn 2014 y gyfradd lwyddiant gyffredinol o ran y fframwaith oedd 67%. Mae dadansoddiad o'r data gan ystadegwyr Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru yn dangos bod y cyfraddau llwyddiant sector cymharol is yn cael eu hachosi gan faterion yn ymwneud ag ansawdd data mewn carfan fach o ddarparwyr dysgu. Mae'r ffigurau felly wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn ar gyfer gwneud cymariaethau yn y dyfodol.

**Ffigur 3.18: Cyfraddau llwyddiant yn y fframwaith mewn Prentisiaethau Sylfaen, Prentisiaethau a Phrentisiaethau Uwch, 2012-2014**




Ffynonellau: Llywodraeth Cymru 2013c, 2014c, 2015j

Mewn Hyfforddeiaethau, mae cyfraddau llwyddiant cyffredinol o ran gweithgarwch dysgu wedi cynyddu o bedwar pwynt canran o'r flwyddyn flaenorol i 86% ar gyfer rhaglenni Ymgysylltu, ac o ryw un a hanner pwynt canran i 79% ar gyfer rhaglenni lefel 1.

Yn 2014 mewn rhaglenni Cyflogadwyedd Oedolion, sy'n cynnwys rhaglenni Camau at Waith a Parod at Waith, roedd gwelliant hefyd yn y cyfraddau llwyddiant cyffredinol o ran gweithgarwch dysgu o gymharu â deilliannau yn 2013. Roedd 80% o gyfranogwyr ar gyfer rhaglenni Dysgu â Ffocws ar Waith yn llwyddiannus, a 98% ar gyfer Llwybrau at Waith.

O fewn tri mis o gwblhau eu rhaglen Hyfforddeiaeth, yn 2014, roedd 68% o hyfforddeion wedi mynd ymlaen i gyflogaeth neu ddysgu ar lefel uwch, sy'n gynnydd bach ar 2013. Ar gyfer hyfforddeion yn cwblhau rhaglenni Cyflogadwyedd Oedolion, roedd 55% wedi mynd ymlaen i gyflogaeth neu ddysgu pellach, sydd fwy neu lai yr un fath â'r llynedd (Llywodraeth Cymru, 2015j).





# Adran 4: Cyfeiriadau

# Cyfeiriadau

Donaldson, G. (2015) Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf [Darllenwyd 10 Rhagfyr 2015].

Estyn (2013) Teithiau gwella deuddeg ysgol uwchradd. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Teithiau%20gwella%20deuddeg%20ysgol%20uwchradd%20-%20Rhagfyr%202013.pdf [Darllenwyd 10 Rhagfyr 2015].

Estyn (2015a) Arfer orau o ran datblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Arfer_orau_o_ran_datblygu_arweinyddiaeth_mewn_ysgolion_-_Mehefin_2015.pdf [Darllenwyd 10 Rhagfyr 2015].

Estyn (2015b) Gwella ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Gwella_ysgolion_trwy_gonsortia_addysg_rhanbarthol_-_Mehefin_2015_0.pdf [Darllenwyd 10 Rhagfyr 2015].

Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, SI 2003/3234 (W.314). Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/wsi/2003/3234/pdfs/wsi_20033234_mi.pdf [Darllenwyd 10 Rhagfyr 2015].

Maes Cymraeg i Oedolion (2015) Yr Endid. [Ar-lein]. Ar gael o: http://maescymraegioedolion.cymru/yr-endid [Darllenwyd 10 Rhagfyr 2015].

Llywodraeth Cymru (2012) Deilliannau diwedd y Cyfnod Sylfaen ac asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol o'r pynciau craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3. (SDR 129/2012). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2012/120814sdr1292012cy.pdf [Darllenwyd 10 Rhagfyr 2015].

Llywodraeth Cymru (2013a) Codi golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion. Adroddiad ac argymhellion gan y grŵp adolygu Cymraeg i Oedolion. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/130712-review-welsh-for-adults-cy.pdf [Darllenwyd 10 Rhagfyr 2015].

Llywodraeth Cymru (2013b) Deilliannau diwedd y Cyfnod Sylfaen ac asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol o'r pynciau craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3. (SDR 128/2013). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2013/130814-end-foundation-phase-outcomes-national-curriculum-teacher-assessment-core-subjects-key-stages-2-3-2013-cy.pdf [Darllenwyd 10 Rhagfyr 2015].

Llywodraeth Cymru (2013c) Learner outcomes for Further Education and Work-Based Learning: 2011/12. (SDR 53/2013). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2013/130328-learner-outcome-measures-further-education-work-based-learning-2011-12-en.pdf [Darllenwyd 06 Gorffennaf 2015]. (Saesneg yn unig)

Llywodraeth Cymru (2014a) Her Ysgolion Cymru: cyflwyniad ar gyfer ysgolion Llwybrau Llwyddiant. (145/2014). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/140620-schools-challenge-cymru-introduction-brochure-cy.pdf [Darllenwyd 10 Rhagfyr 2015].

Llywodraeth Cymru (2014b) Deilliannau diwedd y Cyfnod Sylfaen ac asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol o'r pynciau craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 – Diwygiedig. (SDR 126/2014(R)). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2014/140828-end-foundation-phase-outcomes-national-curriculum-teacher-assessment-core-subjects-key-stages-2-3-revised-cy.pdf [Darllenwyd 10 Rhagfyr 2015].

Llywodraeth Cymru (2014c) Learner outcome measures for Further Education, Work-Based Learning and Adult Community Learning: 2012/13. (SDR 57/2014). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2014/140403-learner-outcome-measure-fe-wbl-cl-2012-13-en.pdf [Darllenwyd 06 July 2015]. (Saesneg yn unig)

# Cyfeiriadau

Llywodraeth Cymru (2015a) Deilliannau diwedd y Cyfnod Sylfaen ac asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol o'r pynciau craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, yn 2015. (SDR 127/2015). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2015/150818-end-foundation-phase-outcomes-national-curriculum-teacher-assessment-core-subjects-key-stages-2-3-2015-cy.pdf
[Darllenwyd 10 Rhagfyr 2015].

Llywodraeth Cymru (2015b) Canlyniadau Arholiadau yng Nghymru, 2014/15. (SDR 199/2015). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2015/151216-examination-results-2014-15r-cy.pdf
[Darllenwyd 10 Rhagfyr 2015].

Llywodraeth Cymru (2015c) Achievement and entitlement to free school meals. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/statistics-and-research/academic-achievement-free-school-meals/?skip=1&lang=cy
[Darllenwyd 10 Rhagfyr 2015].

Llywodraeth Cymru (2015d) Young people not in education, employment or training (NEET) (Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015). (SB 39/2015). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2015/150729-young-people-not-education-employment-training-year-31-march-2015-en.pdf
[Darllenwyd 10 Rhagfyr 2015]. (Saesneg yn unig)

Llywodraeth Cymru (2015e) Absenteeism from primary schools, 2014/15. (SDR 198/2015). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2015/151201-absenteeism-primary-schools-2014-15-en.pdf
[Darllenwyd 10 Rhagfyr 2015]. (Saesneg yn unig)

Llywodraeth Cymru (2015f) Absenteeism from secondary schools, 2014/15. (SDR 135/2015). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2015/150826-absenteeism-secondary-schools-2014-15-en.pdf
[Darllenwyd 10 Rhagfyr 2015]. (Saesneg yn unig)

Llywodraeth Cymru (2015g) Permanent and fixed-term exclusions from schools in Wales, 2013/14. (SDR 154/2015). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2015/150929-permanent-fixed-term-exclusions-from-schools-2013-14-en.pdf
[Darllenwyd 10 Rhagfyr 2015]. (Saesneg yn unig)

Llywodraeth Cymru (2015h) Lefelau cymwysterau uchaf oedolion o oed gweithio yn ôl blwyddyn a chymhwyster. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.cymru.gov.uk/v/tnA
[Darllenwyd 06 Gorffennaf 2015].

Llywodraeth Cymru (2015i) Levels of highest qualification held by working age adults, 2014. (SDR 59/2015). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2015/150422-levels-highest-qualification-held-working-age-adults-2014-en.pdf
[Darllenwyd 06 Gorffennaf 2015]. (Saesneg yn unig)

Llywodraeth Cymru (2015j) Learner outcome measures for further education, work-based learning and adult community learning: 2013/14.(SDR 51/2015). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2015/150331-learner-outcome-measures-further-education-work-based-adult-community-learning-2013-14-en.pdf
[Darllenwyd 06 Gorffennaf 2015]. (Saesneg yn unig)



www.estyn.llyw.cymru